# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Adroddiadau Blynyddol 2023 i 2024

## Cynnwys


**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Blaenau Gwent** ........ 11
Crynodeb gweithredol ........ 11
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 11
  Hawliau Craidd ........ 12
  Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 12
  Mesuriadau effaith ........ 12
  Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 13
Dadansoddiad o berfformiad ........ 14
  Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 15
  Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 15
  Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ........ 16
  Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ........ 16
Y cyd-destun strategol ........ 16
Cyfeiriad at y dyfodol ........ 17
Casgliad ........ 18
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Pen-y-bont ar Ogwr (Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen)** ........ 19
Crynodeb gweithredol ........ 19
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 19
  Hawliau Craidd ........ 20
  Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 20
  Mesuriadau effaith ........ 20
  Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 21
Dadansoddiad o berfformiad ........ 22
  Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 23
  Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 23
  Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ........ 24
  Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ........ 24

Y cyd-destun strategol ... 25
Cyfeiriad at y dyfodol ... 25
Casgliad ... 26
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Caerffili** ... 27
Crynodeb gweithredol ... 27
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 28
Hawliau Craidd ... 28
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 30
Mesuriadau effaith ... 30
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 31
Dadansoddiad o berfformiad ... 33
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 33
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 33
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ... 34
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ... 34
Y cyd-destun strategol ... 35
Cyfeiriad at y dyfodol ... 35
Casgliad ... 36
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Caerdydd** ... 37
Crynodeb gweithredol ... 37
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 38
Hawliau Craidd ... 38
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 38
Mesuriadau effaith ... 38
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 39
Dadansoddiad o berfformiad ... 40
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 41
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 41
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ... 42
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ... 42
Y cyd-destun strategol ... 42
Cyfeiriad at y dyfodol ... 43
Casgliad ... 43
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Sir Gaerfyrddin** ... 44
Crynodeb gweithredol ... 44

Perfformiad yn erbyn y safonau ... 44
Hawliau Craidd ... 45
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 45
Mesuriadau effaith ... 45
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 46
Dadansoddiad o berfformiad ... 47
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 48
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 48
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ... 48
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ... 49
Y cyd-destun strategol ... 49
Cyfeiriad at y dyfodol ... 50
Casgliad ... 50
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Ceredigion** ... 51
Crynodeb gweithredol ... 51
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 52
Hawliau Craidd ... 52
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 52
Mesuriadau effaith ... 53
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 53
Dadansoddiad o berfformiad ... 55
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 55
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 55
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ... 56
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ... 56
Y cyd-destun strategol ... 56
Cyfeiriad at y dyfodol ... 57
Casgliad ... 57
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Conwy** ... 59
Crynodeb gweithredol ... 59
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 59
Hawliau Craidd ... 60
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 60
Mesuriadau effaith ... 60
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 61

Dadansoddiad o berfformiad ... 62
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 63
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 63
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ... 63
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ... 64
Y cyd-destun strategol ... 64
Cyfeiriad at y dyfodol ... 65
Casgliad ... 65
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24  Sir Ddinbych** ... 66
Crynodeb gweithredol ... 66
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 67
Hawliau Craidd ... 67
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 70
Mesuriadau effaith ... 70
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 71
Dadansoddiad o berfformiad ... 73
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 73
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 73
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ... 74
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ... 74
Y cyd-destun strategol ... 74
Cyfeiriad at y dyfodol ... 75
Casgliad ... 75
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Sir y Fflint** ... 76
Crynodeb gweithredol ... 76
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 77
Hawliau Craidd ... 77
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 77
Mesuriadau effaith ... 78
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 78
Dadansoddiad o berfformiad ... 79
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 80
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 80
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ... 80
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ... 81

Y cyd-destun strategol ..... 81
Cyfeiriad at y dyfodol ..... 81
Casgliad ..... 82
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Gwynedd** ..... 83
Crynodeb gweithredol ..... 83
Perfformiad yn erbyn y safonau ..... 83
Hawliau Craidd ..... 84
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ..... 84
Mesuriadau effaith ..... 84
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ..... 85
Dadansoddiad o berfformiad ..... 86
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ..... 87
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ..... 87
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ..... 87
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ..... 88
Y cyd-destun strategol ..... 88
Cyfeiriad at y dyfodol ..... 88
Casgliad ..... 89
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-2024 Ynys Môn** ..... 90
Crynodeb gweithredol ..... 90
Perfformiad yn erbyn y safonau ..... 91
Hawliau Craidd ..... 91
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ..... 91
Mesuriadau effaith ..... 92
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ..... 92
Dadansoddiad o berfformiad ..... 94
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ..... 94
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ..... 94
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ..... 95
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ..... 95
Y cyd-destun strategol ..... 96
Cyfeiriad at y dyfodol ..... 96
Casgliad ..... 97
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Merthyr Tudful** ..... 98
Crynodeb gweithredol ..... 98

Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 99
Hawliau Craidd ........ 99
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 101
Mesuriadau effaith ........ 101
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 102
Dadansoddiad o berfformiad ........ 104
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 104
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 105
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ........ 105
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ........ 106
Y cyd-destun strategol ........ 106
Cyfeiriad at y dyfodol ........ 107
Casgliad ........ 107
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Sir Fynwy** ........ 108
Crynodeb gweithredol ........ 108
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 109
Hawliau Craidd ........ 109
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 111
Mesuriadau effaith ........ 112
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 112
Dadansoddiad o berfformiad ........ 114
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 114
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 114
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ........ 115
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ........ 115
Y cyd-destun strategol ........ 116
Cyfeiriad at y dyfodol ........ 116
Casgliad ........ 117
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Castell-nedd Port Talbot** ........ 118
Crynodeb gweithredol ........ 118
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 119
Hawliau Craidd ........ 119
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 119
Mesuriadau effaith ........ 120
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 120

Dadansoddiad o berfformiad ........ 121
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 122
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 122
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ........ 122
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ........ 123
Y cyd-destun strategol ........ 123
Cyfeiriad at y dyfodol ........ 124
Casgliad ........ 124
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Casnewydd** ........ 125
Crynodeb gweithredol ........ 125
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 126
Hawliau Craidd ........ 126
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 126
Mesuriadau effaith ........ 127
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 127
Dadansoddiad o berfformiad ........ 128
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 129
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 129
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ........ 129
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ........ 130
Y cyd-destun strategol ........ 131
Cyfeiriad at y dyfodol ........ 131
Casgliad ........ 132
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Sir Benfro** ........ 133
Crynodeb gweithredol ........ 133
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 133
Hawliau Craidd ........ 134
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 134
Mesuriadau effaith ........ 134
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 135
Dadansoddiad o berfformiad ........ 136
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 137
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 137
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ........ 138
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ........ 138

Y cyd-destun strategol ... 139
Cyfeiriad at y dyfodol ... 139
Casgliad ... 140
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Powys** ... 141
Crynodeb gweithredol ... 141
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 142
  Hawliau Craidd ... 142
  Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 144
  Mesuriadau effaith ... 144
  Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 145
Dadansoddiad o berfformiad ... 146
  Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 147
  Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 147
  Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ... 148
  Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ... 148
Y cyd-destun strategol ... 149
Cyfeiriad at y dyfodol ... 149
Casgliad ... 150
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Rhondda Cynon Taf** ... 151
Crynodeb gweithredol ... 151
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 152
  Hawliau Craidd ... 152
  Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 152
  Mesuriadau effaith ... 152
  Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 153
Dadansoddiad o berfformiad ... 155
  Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 155
  Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 155
  Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ... 156
  Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ... 156
Y cyd-destun strategol ... 157
Cyfeiriad at y dyfodol ... 158
Casgliad ... 158
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Abertawe** ... 159
Crynodeb gweithredol ... 159

Perfformiad yn erbyn y safonau ... 159
Hawliau Craidd ... 159
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 160
Mesuriadau effaith ... 160
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 161
Dadansoddiad o berfformiad ... 162
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 163
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 163
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ... 164
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ... 164
Y cyd-destun strategol ... 164
Cyfeiriad at y dyfodol ... 165
Casgliad ... 166
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Torfaen** ... 167
Crynodeb gweithredol ... 167
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 167
Hawliau Craidd ... 168
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 168
Mesuriadau effaith ... 168
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 169
Dadansoddiad o berfformiad ... 170
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 171
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 171
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) ... 172
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) ... 172
Y cyd-destun strategol ... 172
Cyfeiriad at y dyfodol ... 173
Casgliad ... 174
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Bro Morgannwg** ... 175
Crynodeb gweithredol ... 175
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 176
Hawliau Craidd ... 176
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 176
Mesuriadau effaith ... 177
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 178

Dadansoddiad o berfformiad .......... 179
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) .......... 179
Mynediad a defnydd (DA 6-8) .......... 179
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) .......... 180
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) .......... 180
Y cyd-destun strategol .......... 181
Cyfeiriad at y dyfodol .......... 182
Casgliad .......... 183
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Wrecsam** .......... 184
Crynodeb gweithredol .......... 184
Perfformiad yn erbyn y safonau .......... 185
Hawliau Craidd .......... 185
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau .......... 187
Mesuriadau effaith .......... 187
Dangosyddion ansawdd a meincnodau .......... 188
Dadansoddiad o berfformiad .......... 190
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) .......... 190
Mynediad a defnydd (DA 6-8) .......... 190
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10) .......... 190
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16) .......... 191
Y cyd-destun strategol .......... 191
Cyfeiriad at y dyfodol .......... 191
Casgliad .......... 192

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Blaenau Gwent

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Blaenau Gwent, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru

## Crynodeb gweithredol

Mae Blaenau Gwent yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Blaenau Gwent yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol, gyda'r un targed sy'n weddill heb ei fodloni.

Mae Blaenau Gwent yn perfformio'n dda. Mae'n bodloni pob un o'r Hawliau Craidd. Er ei fod yn cael trafferth bodloni targedau DA caffaeliadau a staffio, mae'n perfformio oddeutu'r canolrif ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau cymharu DA. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau yn gryfder arbennig i'r gwasanaeth hwn, ac mae llyfrgelloedd Blaenau Gwent yn cynnig ystod aruthrol o weithgareddau i ateb anghenion ystod eang o gwsmeriaid. Mae sgorau uchel am Fodlonrwydd cwsmeriaid (DA2) a Gwneud gwahaniaeth (DA1) yn nodi bod gan wasanaeth llyfrgell Blaenau Gwent ddealltwriaeth dda o'i sail gwsmeriaid a'i fod wedi datblygu perthnasau cadarn gyda defnyddwyr. Mae hefyd yn bwysig nodi bod y gwasanaeth y cymryd camau i ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned leol nad ydynt yn ddefnyddwyr llyfrgell ar hyn o bryd drwy ddarpariaeth allgyrraedd sydd wedi'i chynllunio'n dda. Amlygwyd lefel y gwariant ar ddeunyddiau yn adroddiad 2022-23 ac mae'n galonogol bod cynnydd wedi bod yn ffigur y caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth yn ystod y flwyddyn bresennol, er nad yw Blaenau Gwent yn bodloni'r targed hwn o hyd.

- Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda ym maes Gwneud gwahaniaeth (DA1) ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau.
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi cynyddu'n nodedig yn ystod 2023-24, gyda chynnydd o fwy na 50% yng nghyfanswm y nifer sy'n mynychu. Mae Blaenau Gwent bellach yn perfformio'n uwch na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA6).
- Mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 25% o'i gymharu â 2022-23 ac mae benthyca ym mhob maes wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn (DA8).
- Mae Cynorthwywyr Llyfrgell Allgyrraedd a benodwyd eleni wedi helpu'r gwasanaeth i hyrwyddo llyfrgelloedd a chynyddu defnydd.
- Er gwaethaf y ffaith bod llyfrgell Blaina wedi cau dros dro, mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth ac yn bodloni'r targed hwn yn llawn (DA16).

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Mae Blaenau Gwent yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Blaenau Gwent yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Nid yw'r DA sy'n weddill yn cael ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau: **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 94% | =6/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 96% | 1/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 99% | 7/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Blaenau Gwent ddatganiad effaith a gyfeiriodd at effaith Sesiynau Lles Teuluoedd ac Anifeiliaid Aml-genhedlaeth ar ystod o fynychwyr. Darparwyd cyfres o chwe sesiwn am ddim yn Llyfrgell Tredegar mewn partneriaeth â sefydliad lleol gydag Animals Interactive dros gyfnod y gaeaf 2023-24. Roedd y sesiynau'n cynnwys rhyngweithio gydag anifeiliaid byw yn ogystal â staff llyfrgell yn darllen storïau a hyrwyddo stoc a gwasanaethau'r llyfrgell.

Darparodd y sesiynau gyfle i deuluoedd dreulio amser braf gyda'i gilydd a modd o wneud mwy o bobl yn ymwybodol o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael. Dywedodd tad i dri sy'n newydd i'r ardal, *"Mae cael digwyddiadau am ddim sydd hefyd ar garreg ein drws wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'n bywydau... mae bod â rhywbeth y gallwn deimlo'n rhan ohono wir wedi ein helpu i ymgartrefu yn y gymuned".* Dywedodd mam a aeth gyda'i phlant sy'n cael eu haddysgu gartref, *"Mae gweithgareddau'r llyfrgell mor fuddiol i'r teulu gael cymysgu gyda phlant eraill... bob wythnos rydyn ni'n benthyg llyfrau mewn benthyciad grŵp i ategu eu haddysg gartref. Mae'r llyfrgell mor bwysig i ni".* Dywedodd mamgu a aeth gyda'i hŵyr sydd ag anawsterau dysgu, *"Mae'r llyfrgell yn hafan i ni. Does dim llawer o lefydd lle rydyn ni'n teimlo mor gyfforddus a bodlon".*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Blaenau Gwent ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 70% | =8/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 44% | =15/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 100% | =1/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 90% | 11/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =1/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 85% | =9/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 97% | =9/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.0 | =13/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 9 | 15/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 133 | 10/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 245 | 9 /22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 158 | 21/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 99 | 17/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 16% | 15/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 18% | 8/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 256 | 21/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[1] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 9 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 699 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £11,507 | 12/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 65% | =13/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | =13/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 2% | =16/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 23% | =6/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

[1] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Parhaodd y gwasanaeth i berfformio'n dda mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth (DA1) ac, fel y llynedd, mae Blaenau Gwent oddeutu'r canolrif neu'n uwch na'r canolrif, ac eithrio ar gyfer y mesur iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i fod oddeutu'r canolrif ar gyfer Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), er ei fod yn sgorio'n arbennig o dda ar gyfer gofal cwsmeriaid, sy'n ei roi'n gydradd uchaf yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn. Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau llyfrgell ar hyd a lled Blaenau Gwent ac wedi canolbwyntio ar hyrwyddo gwaith allgyrraedd yng nghymunedau mwy ynysig y fwrdeistref. Mae dwy swydd newydd, Cynorthwywyr Llyfrgell Allgyrraedd, wedi helpu'r gwasanaeth i hyrwyddo llyfrgelloedd a chynyddu'r defnydd ohonynt ar draws pob cangen. Mae staff allgyrraedd wedi darparu cymorth i nifer o ysgolion a sefydliadau cymunedol o ran sefydlu grwpiau darllen. At hynny, mae'r gwasanaeth wedi llacio'r rheolau ar gyfer pobl sy'n ymuno sy'n ddigartref ac wedi ymgysylltu â'r gymuned Teithwyr leol. Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif, ond mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda ar gyfer canran y mynychwyr sydd o'r farn eu bod wedi cyflawni eu diben drwy fynychu. Mae'r nifer sy'n mynychu cymorth anffurfiol yn parhau i fod yn agos i'r canolrif (DA5).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi codi'n sylweddol yn ystod 2023-24, gyda chyfanswm y nifer sy'n mynychu'n cynyddu dros 50%. Mae Blaenau Gwent bellach yn perfformio'n uwch na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA6). Mae'r gwasanaeth yn nodi bod y tîm allgyrraedd newydd wedi chwarae rôl hollbwysig yn darparu prosiectau newydd a denu cynulleidfaoedd newydd. Mae nifer o fentrau newydd wedi'u cyflwyno, gan gynnwys Awr Dawel, sesiwn cyd-ganu i bobl â Dementia, Dydd Gwener Cyfeillgarwch, Crefft er Lles a Llyfrgelloedd yn erbyn Sbwriel, cynlluniau partneriaethau bwyd a grwpiau darllen i oedolion ifanc. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig ystod o gymorth TG i ateb gwahanol anghenion, gan gynnwys cyflwyniad sylfaenol i ddefnyddio cyfrifiadur personol; ‘Dydd Mawrth Technoleg’ ‘Llechi a the’; sesiynau chwilio am swyddi; a chlybiau codio aml-genhedlaeth.

Er bod y gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth o hyd, a dim ond 21% o aelodau llyfrgell a adroddwyd sy'n fenthycwyr gweithredol, mae Blaenau Gwent wedi gwneud cryn ymdrech i fynd i'r afael â'r mater hwn ac mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 25% yn 2023-24 (DA8). Yn yr un modd, er bod benthyciadau llyfrau i oedolion, benthyciadau llyfrau i blant a benthyciadau electronig a lawrlwythir yn is na'r canolrif, maent oll wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol: 13% i fenthyciadau oedolion, 45% i fenthyciadau i blant a 28% i lawrlwythiadau electronig. Mae benthyciadau clyweledol bellach yn uwch na'r canolrif. Blaenau Gwent sydd â'r nifer isaf o ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol, ac mae'r ffigur hwn wedi gostwng ers 2022-23. Nodir yn y ffurflen bod tuedd i ymgysylltu'n helaethach ar y cyfryngau cymdeithasol na thrwy ddefnyddio'r wefan. Mae ymweliadau â phob llwyfan cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn.

### Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Er nad yw Blaenau Gwent wedi bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth (DA9) a'i fod yn y chwartel gwaelod yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn, bu cynnydd yn y ffigur o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ganran o'r gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau electronig yn uwch na'r canolrif. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer canran y gyllideb a wariwyd ar ddeunyddiau yn y Gymraeg (DA10). Yn ogystal, mae'n cefnogi gweithgareddau yn y Gymraeg, yn arbennig ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys cyfres o sesiynau Amser Rhigymau i Fabanod yn Gymraeg, Ioga i Fabanod yn Gymraeg a grŵp newydd i blant o dan 5 oed, yn ogystal ag estyniad i fenthyciadau grŵp i grwpiau Cymraeg i blant bach ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae Blaenau Gwent yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth ac mae cyfanswm nifer y benthyciadau yn y Gymraeg wedi cynyddu 16% o'i gymharu â ffigur 2022-23.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Mae Blaenau Gwent yn bodloni'r targed ar gyfer lefelau staffio a chymwysterau yn rhannol (DA13). Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r elfennau ar gyfer hyfforddiant a chymwysterau'r pennaeth gwasanaeth, ond nid yw'n bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth. Mae'r gwasanaeth yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am gyfanswm y staff a staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth. Mae'r cyfanswm ffigur staffio yn ddigyfnewid ers y llynedd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys dwy swydd llyfrgell allgyrraedd a gyllidwyd gan SPF (Y Gronfa Ffyniant Gyffredin), y swyddog Allgáu Digidol na staff Addysg Gymunedol mewn adeiladau a rennir sy'n darparu dyletswyddau desg y dderbynfa a chymorth gweinyddol.

Mae Blaenau Gwent yn agos i'r canolrif ar gyfer gwariant gweithredol am bob pen o'r boblogaeth (DA14); mae'r ffigur yn cynrychioli cynnydd o 14% o'i gymharu â 2022-23. Mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf am oriau agor am bob pen o'r boblogaeth ac mae'n bodloni'r targed hwn yn llawn (DA16). Fodd bynnag, mae oriau agor wedi gostwng rhywfaint ers y llynedd (3.8%), oherwydd bod Llyfrgell Blaina wedi cau dros dro am waith adeiladu hanfodol, er mwyn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch[2].

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Darparodd Blaenau Gwent asesiad cynhwysfawr o'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ymhlith yr enghreifftiau a ddarparwyd yn erbyn pob nod mae:

---

[2] *Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn denant yn yr adeilad a chaewyd y man gwasanaeth am 18 wythnos rhwng 30 Tachwedd 23 a 22 Ebrill 24.*

- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** e.e. bod yn hwb casglu sbwriel a hyrwyddo mentrau sy'n cefnogi materion gwyrdd.
- **Cymru lewyrchus** e.e. gweithio mewn partneriaeth i gynyddu'r nifer sy'n dod i ganol trefi, darparu cymorth i bobl sy'n chwilio am swyddi a chefnogi dysgu anffurfiol.
- **Cymru gydnerth** e.e. cynnal sesiynau ar gyfer pobl y mae angen cymorth a chyngor tai arnyn nhw, cadw pwyslais ar wasanaethau am ddim, a bod yn lleoliad 'popeth i bawb' ar gyfer unrhyw un mewn angen.
- **Cymru iachach** e.e. darparu gofodau croesawgar, hyrwyddo ymgyrchoedd iechyd fel digwyddiadau Deall Dementia, gweithio'n agos â thimau iechyd cyhoeddus lleol, darparu casgliadau Darllen yn Well a rhedeg cynllun Llyfrgelloedd Chwaraeon.
- **Cymru fwy cyfartal** e.e. cyflwyno Awr Dawel yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr niwroamrywiol, gweithio gyda'r gymuned teithwyr leol, hyrwyddo stoc i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, cynnal y Children's Laureate a hyrwyddo Sialens Ddarllen yr Haf.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** e.e. creu cydberthnasau a chymuned drwy gynnal digwyddiadau a gweithdai diwylliannol, darparu Gofodau Cynnes i helpu gyda'r argyfwng costau byw a datblygu partneriaethau i ddarparu dull integredig o gyflwyno gwasanaethau.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** e.e. gweithio gyda Chymraeg i Blant i gefnogi teuluoedd, hyrwyddo llyfrau llafar Cymraeg, darparu gofod i grwpiau ddarparu sesiynau diwylliannol a gweithio'n agos â Chyngor Llyfrau Cymru.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Blaenau Gwent yn nodi bod dwy flynedd i redeg cyn adnewyddu contract Ymddiriedolaeth Aneurin Bevan gyda'r awdurdod lleol. Ystyrir bod y bartneriaeth yn llwyddiannus, gyda'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy hybiau cymunedol. Er gwaethaf heriau ariannol yn sgil cynnydd sylweddol mewn prisiau ynni yn 2023-24, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal gwasanaethau drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Er nad oes cynlluniau i dorri gwasanaethau, bydd yn bwysig i'r gwasanaeth gydweithio'n agos â'r awdurdod lleol i sicrhau bod darpariaeth y gwasanaeth llyfrgell yn gydnerth ac yn gynaliadwy o fewn y gyllideb. Un datblygiad mawr iawn yw adleoli Llyfrgell Abertyleri i Gapel y Drindod, gyda'r bwriad o'i hagor ym mis Medi 2024, gyda'r gwaith wedi'i gynnal mewn partneriaeth ag Adran Adfywio Blaenau Gwent i roi hwb i'r nifer sy'n ymweld â'r stryd fawr. Caiff aelod ychwanegol o staff ei recriwtio i wella targedau staffio. Bydd cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth llyfrgell, gyda'r staff allgyrraedd a benodwyd ym mis Hydref 2023 yn eu swyddi tan fis Mawrth 2025. Bydd ffocws ar yr agenda iechyd a lles yn parhau ar draws ystod gynyddol o wasanaethau yn unol ag ethos darparu gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

## Casgliad

Mae Blaenau Gwent yn perfformio'n dda. Mae'n bodloni pob un o'r Hawliau Craidd. Er ei fod yn cael trafferth bodloni targedau DA caffaeliadau a staffio, mae'n perfformio oddeutu'r canolrif ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau cymharu DA. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau yn gryfder arbennig i'r gwasanaeth hwn, ac mae llyfrgelloedd Blaenau Gwent yn cynnig ystod aruthrol o weithgareddau i ateb anghenion ystod eang o gwsmeriaid. Mae sgorau uchel am Fodlonrwydd cwsmeriaid (DA2) a Gwneud gwahaniaeth (DA1) yn nodi bod gan wasanaeth llyfrgell Blaenau Gwent ddealltwriaeth dda o'i sail gwsmeriaid a'i fod wedi datblygu perthnasau cadarn gyda defnyddwyr. Mae hefyd yn bwysig nodi bod y gwasanaeth yn cymryd camau i ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned leol nad ydynt yn ddefnyddwyr llyfrgell ar hyn o bryd drwy ddarpariaeth allgyrraedd sydd wedi'i chynllunio'n dda. Amlygwyd lefel y gwariant ar ddeunyddiau yn adroddiad 2022-23 ac mae'n galonogol bod cynnydd wedi bod yn ffigur y caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth yn ystod y flwyddyn bresennol, er nad yw Blaenau Gwent yn bodloni'r targed hwn o hyd.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Pen-y-bont ar Ogwr (Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen)

Caiff gwasanaeth llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Pen-y-bont ar Ogwr, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd un targed.

Ar y cyfan, mae Llyfrgelloedd Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio'n dda. Mae gan y gwasanaeth llyfrgell bartneriaethau cadarn gydag ystod o sefydliadau lleol sy'n ei alluogi i gynnig ystod aruthrol o weithgareddau a chymorth i bobl ag ystod eang o anghenion a diddordebau, yn arbennig, pobl ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hefyd yn dangos ffocws cadarn ar ddarpariaeth i blant. Bu cynnydd nodedig mewn benthyciadau electronig yn ystod 2023-24. Felly, er bod gostyngiad bach wedi bod mewn benthyciadau llyfrau, mae cyfanswm nifer y benthyciadau wedi codi. Mae'r gwasanaeth wedi cynyddu nifer ei fenthycwyr gweithredol hefyd. Fodd bynnag, er bod Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio'n dda ar hyn o bryd, mae'r gostyngiad amcanestynedig yn y gyllideb yn 2024-25 yn bryder am fod hyn yn debygol o gael effaith ar allu Pen-y-bont ar Ogwr i fodloni targedau SLICC yn y blynyddoedd nesaf.

- Dywedodd pob un a fynychodd yr hyfforddiant ac a atebodd yr arolwg fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu (DA5).
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi cynyddu 11% o'i gymharu â 2022-23 ac mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gydag ystod o sefydliadau partner i wella'r defnydd o'r llyfrgell ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion neu ddiddordebau penodol (DA6).
- Mae benthyciadau yn y Gymraeg wedi cynyddu 55% o'u cymharu â 2022-23 ac mae benthyciadau electronig wedi cynyddu 41% (DA8).
- Fodd bynnag, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth a hefyd am ganran amser staff a neilltuwyd i hyfforddiant (DA13).

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd un targed.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn** ▲
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn** ▲

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn** ▲

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn** ▲

DA10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg
**ni fodlonwyd** ●

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol** ■
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn** ▲

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25[3]. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u

---

[3] *Cyflwnwyd ffigyrau mis Mawrth 2020 yn y ffurflen ar gyfer DA2 rhannau c) a d) am fod y cwestiynau hyn wedi'u hepgor o arolwg mis Hydref 2023. Cyflwynwyd ffigyrau mis Mawrth 2022 ar gyfer yr arolwg i blant. Yn y ddau achos, mae'r rhain wedi'u heithrio o'r tabl cymhariaeth hwn am fod y data'n deillio o gyfnod y tu allan i'r cyfnod adrodd safonol.*

seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| **Dangosydd perfformiad** | | **Safle** | **Isaf** | **Canol-rifol** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 83% | =12/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 100% | =1/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Pen-y-bont ar Ogwr ddatganiad effaith a gyfeiriodd at y ffordd mae'r gwasanaeth yn cefnogi oedolion ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae gan dair o'r llyfrgelloedd gysylltiadau â gwasanaethau gofal dydd. Darparwyd enghraifft o gwsmer sy'n ceisio ymweld â'r llyfrgell bob dydd gyda'i ofalwr. Mae'r ymweliadau hyn wedi'i helpu i wella'i iechyd meddwl; wedi rhoi rhywbeth iddo edrych ymlaen ato; ac wedi lleihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Mae'r llyfrgell yn darparu gofod pwysig, tawel a diogel sy'n ei helpu i fodloni ei anghenion emosiynol.  Mae'n dweud, *"Y llyfrgell yw fy ail gartref; rwy' wrth fy modd y n dod yma".*  Mae wedi defnyddio'r cyfrifiaduron a'r argraffwyr cyhoeddus yn y llyfrgell i greu llyfr am ei fywyd, ac mae'r broses wedi helpu i wella'i sgiliau digidol a llythrennedd. Mewn enghraifft arall, darparodd y llyfrgell gymorth i fenyw ifanc yr oedd angen lleoliad gwaith arni i gwblhau cwrs coleg. Cynigiodd ei llyfrgell leol sifft 3 awr iddi ar ddydd Sadwrn a roddodd hwb i'w hyder yn y gweithle ac a gyfrannodd at ei chais llwyddiannus am waith. Dywedodd, *"Mae'n llyfrgell wych ac mae llu o bobl hyfryd yma".*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 64% | =12/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 48% | 13/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 97% | =8/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 91% | =9/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 98% | =9/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | Ni ddarparwyd | Dd/B | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | Ni ddarparwyd | Dd/B | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | Ni ddarparwyd | Dd/B | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 19 | 12/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 57 | 13/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 620 | 1/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 743 | 11/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 123 | =11/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 22% | 5/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 8% | =16/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 663 | 9/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[4] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 50 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 2,465 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £10,456 | 13/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 74% | =4/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 12% | =6/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 3% | =11/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 11% | 16/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

[4] Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio'n agos i'r canolrif ymhlith awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mwyafrif o fesurau Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), er ei fod yn is na'r canolrif ar gyfer sawl un o'r mesurau Gwneud gwahaniaeth (DA1). Mae'r gwasanaeth yn nodi gostyngiad mewn rhai mesurau ers yr arolwg diwethaf yn 2020, ond ni all nodi unrhyw resymau amlwg dros hyn yn yr ymatebion. Gan gredu bod cymorth ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddwyr wedi'i dangyfrif mewn blynyddoedd blaenorol, newidiodd Pen-y-bont ar Ogwr ei ddulliau casglu data yn 2023-24, gan weithredu wythnos gyfrif a sicrhau bod ystod o weithgareddau wedi'u cynnwys, fel Tylino Babi, creu fideos YouTube a Chodio. Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol wedi cynyddu ers 2022-23; mae'r ffigur am bob pen o'r boblogaeth ar gyfer hyfforddiant ffurfiol yn agos i'r canolrif a dywedodd 100% o'r mynychwyr a atebodd yr arolwg fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu (DA5).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Llyfrgelloedd Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal ystod eang o weithgareddau, rhai o dan arweiniad staff llyfrgell, eraill gan sefydliadau partner, gwirfoddolwyr neu aelodau o grwpiau. Ymhlith yr enghreifftiau o'r digwyddiadau mae Bownsio a Rhigymau; grwpiau darllen; digwyddiadau gydag awduron a darlunwyr; sesiynau dawns; sgyrsiau hanes; crefftio; ysgrifennu creadigol a Gŵyl Llenyddiaeth Plant Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi cynyddu 11% o'i gymharu â 2022-23 a Phen-y-bont ar Ogwr sydd â'r nifer uchaf yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol (DA6). Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gydag ystod o sefydliadau partner i gynyddu'r defnydd o'r llyfrgell ymysg cwsmeriaid ag anghenion neu ddiddordebau penodol. Mae hyn yn cynnwys Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr; Prosiect Gweithio ar Les Scope ar gyfer oedolion anabl; Cymdeithas Dai Cymoedd i'r Arfordir; Menter Bro Ogwr (y fenter leol i hyrwyddo'r Gymraeg); a gwirfoddolwyr o'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth sy'n rhedeg grŵp 'Lego Tawel'.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr ar ganolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am ymweliadau rhithiwr a benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth (DA8). Mae ymweliadau â'r wefan wedi cynyddu 55% o'u cymharu â 2022-23. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gwneud defnydd nodedig o gyfryngau cymdeithasol, ac mae 12 cyfrif yn gysylltiedig â llyfrgelloedd Pen-y-bont ar Ogwr. Mae benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 16%. Er bod benthyciadau llyfrau oedolion a benthyciadau electronig yn agos i'r canolrif, mae benthyciadau llyfrau i blant yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru. Mae benthyciadau electronig wedi cynyddu 41% o'u cymharu â 2022-23, er eu bod yn parhau i fod yn is na'r canolrif yn genedlaethol. Mae benthyciadau llyfrau oedolion yn sefydlog, tra bod benthyciadau llyfrau i blant wedi gostwng ychydig (3.8%). Mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau clyweledol.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Mae caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu o'u cymharu â 2022-23 ac mae Pen-y-bont ar Ogwr bellach yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau (DA9). Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd hyn yn gostwng yn sylweddol yn 2024-25 wrth iddo wynebu toriad o £50,000 (oddeutu 28%) i'r gronfa lyfrau. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru o ran y ganran a wariwyd ar adnoddau i blant.

Mae canran y gyllideb deunyddiau a neilltuwyd i ddeunyddiau yn y Gymraeg yn disgyn ychydig yn is na'r targed ar gyfer y mesur hwn (3.7%), ond mae wedi cynyddu o'i chymharu â 2022-23 (DA10). Mae nifer y benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif. Eleni, mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi sefydlu mwy o grwpiau trafod Cymraeg i ddechreuwyr, yn ogystal â pharhau i gefnogi grwpiau trafod lefel uwch. Mae Cynorthwyydd Allgyrraedd ac Ymgysylltu a gyllidir drwy grant (sydd yn y swydd ers mis Hydref 2023) yn gallu cynnig sesiynau allgyrraedd drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys sesiynau galw heibio, sesiynau crefftio i oedolion a gwaith hel atgofion. Canolbwyntiodd Gŵyl Llenyddiaeth Plant Pen-y-bont ar Ogwr ar awduron, darlunwyr a beirdd o Gymru, sy'n byw yng Nghymru a siaradwyr Cymraeg.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn bodloni'r targed ar gyfer lefelau staffio a chymwysterau yn rhannol: bodlonwyd y targedau ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, cymwysterau'r pennaeth gwasanaeth a chanran ar DPP (DA13). Pen-y-bont ar Ogwr yw'r awdurdod uchaf yng Nghymru am staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth a hefyd am ganran yr amser staff a neilltuwyd i hyfforddiant. Er nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer cyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth, mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn. Mae'r ffurflen yn nodi bod sawl swydd wag nad oeddent wedi'u llenwi am gyfnod hirach nag arfer, gan arwain at ostyngiad yng nghyfanswm oriau gweithio staff. Fodd bynnag, mae'r rhain bellach wedi'u llenwi. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth (DA16)[5].

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn agos i'r canolrif ar gyfer gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth (DA14). Mae yn y chwartel uchaf am ganran y gwariant ar staff. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi dod yn Gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol yn ystod 2023-24 (achredwyd mis Mai 23), ac am hynny cynyddodd y cyflogau ar gyfer staff llyfrgell yn 2023-24.

---

[5] *Mae oriau agor yn dangos rhywfaint o gynnydd o'u cymharu â 22/23 oherwydd, fel y nodwyd yn y ffurflen, 'ni wnaethon ni gynnwys nifer yr oriau roedd unrhyw lyfrgell ar gau at ddibenion adnewyddu yn yr oriau agor blynyddol agregedig. Wedi ailddarllen y Canllawiau, rydyn ni'n sylweddoli mai camsyniad oedd hyn.'*

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Gwasanaethau Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr (Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen) yn cyfeirio at ei Amcanion Effaith Gymdeithasol newydd sy'n cynnwys:

- Creu gobeithion gwell mewn bywyd drwy ymgysylltu â mwy o bobl, gwella llythrennedd a llythrennedd digidol, cefnogi darllen er pleser, hyrwyddo annibyniaeth a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol.
- Er mwyn creu profiadau cofiadwy a chadarnhaol drwy gynnig gofod i'r gymuned sy'n ateb eu hanghenion, yn cynnig hyblygrwydd, yn groesawgar ac yn ddiogel, ac yn gallu cynnal gwahanol weithgareddau.
- Cefnogi adfywio cymdeithasol a gwella lles drwy wella mynediad i wybodaeth iechyd, lleihau ynysigrwydd cymdeithasol a gwella lles cyfranogwyr.
- Cynyddu sgiliau bywyd a chyfleoedd drwy hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol a chael effaith gadarnhaol ar lythrennedd a llythrennedd gwybodaeth.
- Lleihau'r defnydd o ynni a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Mae'r gwasanaeth yn nodi bod yr amcanion strategol hyn yn alinio gydag ystod o bolisïau Llywodraeth Cymru, yn eu plith: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Ffyniant i Bawb, y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, Heneiddio'n Dda yng Nghymru, Cymru Wrth-hiliol a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Pen-y-bont ar Ogwr hanner ffordd drwy Gynllun Llyfrgelloedd 2022-25 ac yn gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn yr amcanion a'r camau cyflawnadwy canlynol.

- **Creu Gobeithion Gwell mewn Bywyd** gan gynnwys cynyddu gweithgareddau, ymgysylltiad a phartneriaethau.
- **Gofodau Cymunedol** gan gynnwys datblygu cyfleusterau sy'n addas at y diben, cynnal arolygon a chynyddu gwaith partneriaeth.
- **Llesiant** gan gynnwys datblygu cyfleoedd strategol gyda'r bwrdd iechyd a'r byd addysg.
- **Sgiliau bywyd** gan gynnwys sesiynau llythrennedd digidol, partneriaeth ac allgyrraedd.
- **Yr amgylchedd** gan gynnwys ymestyn ailgylchu a symud i gerbydau trydan.

Fodd bynnag, mae toriad o £360,000 i gyllideb Gwasanaethau Diwylliannol, a gytunwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn peri her sylweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae goblygiadau hyn i'r gwasanaeth llyfrgell yn destun gwaith ar hyn o bryd, gyda'r disgwyl y bydd toriad o £50,000 i'r gronfa lyfrau a gostyngiad yn y sesiynau allgyraedd heb gyllid grant ar gyfer swydd allgyrraedd.

## Casgliad

Ar y cyfan, mae Llyfrgelloedd Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio'n dda. Mae gan y gwasanaeth llyfrgell bartneriaethau cadarn gydag ystod o sefydliadau lleol sy'n ei alluogi i gynnig ystod aruthrol o weithgareddau a chymorth i bobl ag ystod eang o anghenion a diddordebau, yn arbennig, pobl ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hefyd yn dangos ffocws cadarn ar ddarpariaeth i blant. Bu cynnydd nodedig mewn benthyciadau electronig yn ystod 2023-24. Felly, er bod gostyngiad bach wedi bod mewn benthyciadau llyfrau, mae cyfanswm nifer y benthyciadau wedi codi. Mae'r gwasanaeth wedi cynyddu nifer ei fenthycwyr gweithredol hefyd. Fodd bynnag, er bod Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio'n dda ar hyn o bryd, mae'r gostyngiad amcanestynedig yn y gyllideb yn 2024-25 yn bryder am fod hyn yn debygol o gael effaith ar allu Pen-y-bont ar Ogwr i fodloni targedau SLICC yn y blynyddoedd nesaf.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Caerffili

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Caerffili, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Adroddodd Caerffili ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Caerffili yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd y targed sy'n weddill.

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Caerffili yn perfformio'n dda mewn llawer o feysydd. Mae'n amlwg bod staff yn falch o'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig ac wedi cymryd amser a gofal mawr i ddarparu gwybodaeth fanwl yn y ffurflen SLlCC. Mae gwaith partneriaeth yn gryfder i'r gwasanaeth llyfrgell am fod staff yn cydweithio ag ystod eang o sefydliadau partner i gefnogi cwsmeriaid, ac yn arbennig i sicrhau bod llyfrgelloedd yn gynhwysol i bobl y gallai fod ganddynt anghenion arbennig. Mae'r gostyngiad o 15% yn y gyllideb caffaeliadau (ac o ganlyniad, i'r caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth) eleni yn bryder. Mae'n hanfodol, wrth gwrs, bod gan y gwasanaeth llyfrgell gyllideb ddigonol i ganiatáu iddo gynnig stoc gyfredol o ansawdd uchel. Mae'n gadarnhaol bod y sefyllfa staffio bellach yn fwy sefydlog, er bod y cam a ragwelir i ddychwelyd i swyddi tymor penodedig yn y tymor canolig yn amlwg yn bryder. Mae'r nifer uchel o fannau gwasanaeth ag un aelod staff yn parhau i gyfyngu ar allu staff i ddarparu cymorth manwl i gwsmeriaid ac, yn y cyd-destun hwn, mae lefel y cymorth anffurfiol a adroddir yn aruthrol.

- Mae Caerffili yn perfformio'n dda ym maes Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer pob un o'r mesurau.
- Mae Caerffili yn parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am bob pen o'r boblogaeth am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau ac mae ffigyrau mynychu wedi cynyddu 43% o'u cymharu â 2022-23 (DA6).
- Mae benthyciadau i blant yn parhau i fod yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ac maent i fyny 7% o'u cymharu â'r llynedd (DA8).
- Mae Caerffili yn bodloni'r targed ar gyfer cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i ddeunyddiau yn y Gymraeg ac mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod stoc yn y Gymraeg yn addas ar gyfer ystod amrywiol o ddarllenwyr drwy weithio gyda phartneriaid (DA10).
- Mae Caerffili yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am oriau agor am bob pen o'r boblogaeth (DA16).

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Caerffili ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Darparodd y gwasanaeth sylwebaeth fanwl a chynorthwyol yn y ffurflen. Ar sail hyn, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol.

1. **Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

2. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

3. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden, a darllen er pleser.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

4. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

5. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

6. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

7. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

8. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

9. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

10. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

11. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

12. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisïau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
Mae hyn oherwydd nad yw cynllun gwella gwasanaethau 2022-25 wedi'i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, ac nid yw ar gael ar-lein, ar adeg cyflwyno'r wybodaeth (gwanwyn 2024).

13. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Caerffili yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd y targed sy'n weddill.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 89%[6] | 12/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 31% | 16/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 99% | =7/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Caerffili ddatganiad effaith a amlygodd effaith Hwb Llyfrgell Rhymni ar fywyd person ar adeg pan oedd hi'n teimlo'n agored i niwed ac yn unig. Roedd LJ wedi symud o Jamaica i Rymni ac roedd yn teimlo'n ynysig am fod ei theulu wedi aros yn eu gwlad. Roedd yn ymwelydd lled-reolaidd â'r llyfrgell lle cafodd gymorth gyda TGCh a dod o hyd i lyfrau'n gysylltiedig â'i chyflyrau iechyd yn ogystal â help gyda materion personol. Anogwyd hi gan staff y llyfrgell i fynd i'r Caffi CWTSH a gynhelir gan Hwb Llyfrgell Rhymni. I ddechrau, nid oedd gan LJ yr hyder i fynd yna, ond yn y pen draw, aeth i'r caffi gyda chymorth staff llyfrgell. Yn ddiweddarach, magodd ddigon o hyder i fynd ar ei phen ei hun, ac wedi hynny aeth bob wythnos, ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae hon yn enghraifft o'r gwasanaeth cyfannol y gall llyfrgelloedd eu cynnig a'r effaith y gall hyn ei chael ar fywyd un person drwy ddarparu amgylchedd diogel a chroesawgar, hwyluso cysylltiadau newydd, cyfrannu at oresgyn ynysigrwydd, datblygu sgiliau newydd a chefnogi lles meddyliol. Dywedodd LJ fod mynd i'r caffi wedi trawsnewid ei byd yn llwyr a'i bod wedi gwneud ffrindiau newydd ac ymgysylltu ag ystod o weithgareddau grŵp. Mae'n dweud: *"Roedd dod i'r llyfrgell fel hafan ddiogel i fi... Rwy'n falch bod Val [aelod o'r staff] wedi dweud wrthyf am fynd y diwrnod hwnnw fel y gallwn gwrdd â'r bobl a theimlo ymdeimlad o gymuned, cariad a gofal. Ble arall gallwn i fynd i siarad â rhywun heblaw'r llyfrgell?"*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Caerffili ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

[6] *Adroddwyd ffigur o 58%, ond cynigiwyd opisynau 'llawer' ac 'ychydig' i ymatebwyr, felly mae'r ymatebion ar gyfer y ddau wedi'u cyfuno yn y tabl cymhariaeth.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 17% | 16/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 1% | 16/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 99% | =4/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 95% | 3/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =1/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 88% | 6/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 98% | =5/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.5 | =5/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 11 | 14/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 49 | 15/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 392 | 5/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 470 | 14/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 123 | =11/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 21% | 6/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 7% | 18/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 510 | 16/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[7] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 24 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 433 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £15,952[8] | 4/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 61% | 17/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | 18/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 27% | 1/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 3% | 20/22 | 0% | 16.5% | 34% |

[7] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

[8] *Cyfrifwyd ar sail Ailgodi Tâl yn Ganolog y llynedd a 5% i dalu costau chwyddiant am nad oes ffigyrau cywir ar gael tan fis Awst.*

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Caerffili yn perfformio'n dda ym maes Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer pob un o'r mesurau. Fodd bynnag, mae ymatebion i'r arolwg ar gyfer Gwneud gwahaniaeth (DA1) yn fwy cymysg. Mae'n ymddangos bod hyn o ganlyniad i'r ffaith mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i'r gwasanaeth llyfrgell dynnu'r broses cynnal arolwg yn fewnol. Ni ofynnwyd rhai o'r cwestiynau sy'n ofynnol ar gyfer SLICC fel cwestiynau unigol, ond cawsant eu cynnwys mewn cyfres o opsiynau posibl. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd tynnu cymariaethau rhwng yr ymatebion a dderbyniwyd gan gwsmeriaid llyfrgell yng Nghaerffili ac eraill mewn mannau eraill.

Mae darparwyr gwasanaethau iechyd yn defnyddio gofodau llyfrgell fel mannau cyfarfod neu ofodau arddangos, gan gynnwys Disability Can Do, Cornerstone, MIND, Sight Cymru, sesiynau Bwyta'n Iach Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a sesiynau rhoi'r gorau i ysmygu'r GIG. Mae pedair llyfrgell hwb yn lleoliadau ar gyfer sesiynau Cwrdd, Cyfarch a Chyfeirio ar gyfer Swyddogion Cyswllt Teuluoedd o Wlad Pwyl ac Wcráin o hyd, ac mae llyfrgelloedd yn parhau i gynnig diodydd poeth a lluniaeth yn rhan o'r ymgyrch Mannau Croesawgar (Canolfannau Clyd). Yn ogystal â lle clyd a diod, mae'r fenter hon yn helpu i gyfeirio pobl y gallai fod angen cymorth arnynt gan Dîm Gofalu am Gaerffili (DA4).

Mae Caerffili yn is na'r canolrif ar gyfer y nifer sy'n mynychu hyfforddiant/cymorth ffurfiol ac anffurfiol (DA5). Fodd bynnag, mae ffigyrau ar gyfer y ddau wedi codi o'u cymharu â 2022-23, gyda ffigyrau cymorth anffurfiol yn cynyddu 48%. Mae hyn yn aruthrol o ystyried, fel y nodwyd yn y ffurflen, bod gan 11 llyfrgell un aelod o staff, felly nid yw'r cynnig cymorth TG dwys yn aml yn bosibl. Mae Timau Addysg Gymunedol a Lluosi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnal sesiynau TG ac mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gweithio gyda rhaglen Gwirfoddolwyr Gofalu am Gaerffili i adnabod unigolyn sydd wedi'u hyfforddi sy'n dymuno helpu eraill i ddysgu sgiliau TG.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Caerffili yn parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth (DA6). Mae ffigyrau mynychu wedi cynyddu 43% o'u cymharu â 2022-23. Cynigiodd prosiect Gofalu am Gaerffili gymorth ariannol ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau i blant a theuluoedd yn ystod gwyliau'r haf. Ymhlith digwyddiadau'r haf roedd sesiynau gyda Louby Lou's Storytelling, Afrosheep Animations, Tylluanod ac Adar gyda Falconry Wales a gweithdai Dawnsio Indiaidd. Er mwyn cefnogi cwsmeriaid ag anghenion penodol, mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys MIND Caerffili, Golden Oldies Cymru, Shelter a Grŵp Byw yn Annibynnol. Mae'r gwasanaeth llyfrgell hefyd yn cynnig lle i bartneriaid masnachol ac mae'n gweithio'n

agos â sawl banc i'w helpu i gynnig 'gwasanaethau bancio hyblyg' i drigolion wedi i ganghennau gau.

Mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi codi 14% o'i gymharu â 2022-23 ac mae Caerffili ar ganolrif awdurdodau llyfrgell Cymru (DA8). Yn ystod y flwyddyn adrodd, rhoddodd y gwasanaeth llyfrgell gynllun aelodaeth ar-lein ar waith a ganiataodd aelodaeth ar-lein i'r llyfrgell i gwsmeriaid. Er bod ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif, mae hyn wedi cynyddu rhywfaint (4%) o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae'r gwasanaeth llyfrgell yn nodi bod cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n helaeth at ddibenion cyhoeddusrwydd a hyrwyddo. Mae benthyciadau electronig a benthyciadau llyfrau i oedolion yn is na'r canolrif, ond mae benthyciadau electronig wedi codi 36% o'u cymharu â 2022-23. Mae benthyciadau llyfrau i oedolion yn sefydlog o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae benthyciadau i blant yn parhau i fod yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ac maent i fyny 7% o'u cymharu â'r llynedd.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Nid yw Caerffili yn bodloni'r targed caffaeliadau (DA9). Roedd gostyngiad o 15% yn ffigyrau'r gyllideb llyfrau a adroddwyd. Er bod y swm ar gyfer caffaeliadau cyffredinol am bob pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif, mae cyfran y gyllideb a wariwyd ar adnoddau i blant, a gwariant am bob pen o'r boblogaeth o dan 16 oed, yn uwch na'r canolrif.

Mae Caerffili yn rhagori ar y targed ar gyfer cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i ddeunyddiau yn y Gymraeg (DA10). Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod stoc yn y Gymraeg yn addas ar gyfer ystod amrywiol o ddarllenwyr drwy weithio gyda phartneriaid fel Grwpiau Darllen Llyfrgelloedd Cymraeg, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Pobl Ddall Gogledd Cymru, ysgolion cyfrwng Cymraeg, Tîm Cydraddoldebau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a chyflenwyr e-adnoddau i sicrhau bod stoc ar gael mewn fformatau amrywiol. Mae Caerffili yn is na'r canolrif ar gyfer benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth, er bod benthyciadau wedi cynyddu 10% o'u cymharu â 2022-23. Mae'r ffurflen yn nodi mai teitlau Cymraeg i blant yw'r prif wariant a'r prif fenthyciadau. Caiff mwy o adnoddau yn y Gymraeg eu prynu ar gyfer datblygiad newydd Hwb Llyfrgell Rhymni a Llyfrgell Pengam a fydd, ar ôl gwaith adnewyddu, yn cyd-leoli â lleoliad Dechrau’n Deg sydd newydd ei sefydlu, sef Blodau Bach.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Mae Caerffili yn bodloni'r targed ar gyfer lefelau staffio a chymwysterau (DA13) yn rhannol. Er nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm staffio a staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer y ddau fesur ac mae Llyfrgellydd Cymunedol a benodwyd yn ddiweddar yn rhan o'i ffordd drwy gymhwyster gradd Meistr. Mae swyddi tymor penodedig yr adroddwyd amdanynt yn ffurflen y llynedd wedi'u llenwi ac mae pob swydd yn y strwythur bellach yn rhai parhaol. Fodd bynnag, rhagwelir cyfnod estynedig arall o swyddi tymor penodedig dros y ddwy i dair blynedd nesaf oherwydd pwysau cyllidebol.

Mae Caerffili yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am oriau agor am bob pen o'r boblogaeth (DA16). Mae oriau agor wedi cynyddu 12% o'u cymharu â 2022-23 oherwydd ad-drefnu ymweliadau LibraryLink (i bobl sy'n gaeth i'w cartrefi) ac am fod Hwb Llyfrgell Rhymni ar agor am bum awr ychwanegol yr wythnos tra bod cynllun peilot yr Hwb ar waith. Mae Llyfrgell Deri i fod i ailagor i'r cyhoedd yn ei lleoliad gwreiddiol ym mis Mehefin 2024 ar ôl gweithredu o Ganolfan Gymunedol Deri yn dilyn y difrod yn sgil Storm Eunice ym mis Ebrill 2022.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Darparodd Caerffili nodyn cynhwysfawr yn mapio'r targedau ar gyfer y gwasanaeth yn erbyn blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, yn arbennig rhai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Darparwyd llu o enghreifftiau o sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r blaenoriaethau hyn, gan gynnwys:

- **Galluogi ein plant i lwyddo ym myd addysg** e.e. cyfranogi yn y cynllun Dechrau Da a Chynllun y Blynyddoedd Cynnar, hwyluso clybiau gwaith cartref a Chynghorion Darllen, rhoi cynllun gwirfoddoli ar waith ar gyfer oedolion ifanc, rhedeg y cynllun ymgysylltu ag ysgolion, a darparu adnoddau wedi'u targedu at blant ifanc ac oedolion ifanc.
- **Galluogi ein trigolion i ffynnu** e.e. cefnogi cymuned amrywiol, cynnig Mannau Croesawgar a Chanolfannau Clyd, darparu cymorth ar gyfer sgiliau digidol, a chynnal prosiectau wedi'u teilwra at waith.
- **Galluogi ein cymunedau i ffynnu** e.e. darparu adnoddau a gweithgareddau iechyd a lles, cefnogi ystod o gynlluniau'n gysylltiedig ag iechyd fel Darllen yn Well gyda Dementia, darparu gofod ar gyfer ystod o sefydliadau iechyd, a darparu gofod croesawgar, diogel i bawb.
- **Galluogi ein heconomi i dyfu** e.e. cynnig gofod i sefydliadau sy'n cynnig cyngor busnes, darparu cymorth i gwsmeriaid y mae angen cymorth arnynt gyda'r Cynllun Preswylio’n Sefydlog yn yr UE, a chynnig hyfforddiant a chyfleusterau cyfarfod o'r radd flaenaf yn llyfrgell Rhymni.
- **Galluogi ein hamgylchedd i fod yn wyrddach** e.e. annog benthyg llyfrau a chyfranogi mewn mentrau sy'n annog ailgylchu.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Caerffili yn cyfeirio at weithio tuag at y nodau a osodwyd mewn ystod o strategaethau a pholisïau cenedlaethol a lleol. Yn arbennig, mae'r gwasanaeth yn cyfeirio at: weithio ochr yn ochr â gwasanaethau cymorth eraill i gynorthwyo ysgolion; parhau'n berthnasol ac yn uchel ei barch yn y gymuned leol; a gweithio'n agos â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a phartneriaid i sicrhau bod cymorth economaidd, addysgol a digidol ar gael. Nodir bod Gwasanaeth Llyfrgell y Fwrdeistref wedi symud i gam Adolygu Trawsnewid Mwstro

Tîm Caerffili. Ar yr adeg hon, mae deilliannau'r prosiect hwn yn ansicr ynghyd â'r goblygiadau i'r gwasanaeth llyfrgell o hyn ymlaen.

## Casgliad

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Caerffili yn perfformio'n dda mewn llawer o feysydd. Mae'n amlwg bod staff yn falch o'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig ac wedi cymryd amser a gofal mawr i ddarparu gwybodaeth fanwl yn y ffurflen SLlCC. Mae gwaith partneriaeth yn gryfder i'r gwasanaeth llyfrgell am fod staff yn cydweithio ag ystod eang o sefydliadau partner i gefnogi cwsmeriaid, ac yn arbennig i sicrhau bod llyfrgelloedd yn gynhwysol i bobl y gallai fod ganddynt anghenion arbennig. Mae'r gostyngiad o 15% yn y gyllideb caffaeliadau (ac o ganlyniad, i'r caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth) eleni yn bryder. Mae'n hanfodol, wrth gwrs, bod gan y gwasanaeth llyfrgell gyllideb ddigonol i ganiatáu iddo gynnig stoc gyfredol o ansawdd uchel. Mae'n gadarnhaol bod y sefyllfa staffio bellach yn fwy sefydlog, er bod y cam a ragwelir i ddychwelyd i swyddi tymor penodedig yn y tymor canolig yn amlwg yn bryder. Mae'r nifer uchel o fannau gwasanaeth ag un aelod staff yn parhau i gyfyngu ar allu staff i ddarparu cymorth manwl i gwsmeriaid ac, yn y cyd-destun hwn, mae lefel y cymorth anffurfiol a adroddir yn aruthrol.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Caerdydd

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Caerdydd, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Caerdydd yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Caerdydd yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Caerdydd yn parhau i berfformio'n dda a chynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gwsmeriaid. Mae cynnydd yn y sgorau Bodlonrwydd cwsmeriaid a adroddwyd eleni yn tystio i hyn. Mae cymorth i ddefnyddwyr a'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau yn parhau i fod yn brif gryfderau i'r gwasanaeth ac mae staff yn amlwg yn ymdrechu i sicrhau bod y rhain yn gynhwysol i gwsmeriaid ag ystod eang o anghenion a diddordebau. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau a gwasanaethau i sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn cael eu bodloni'n effeithiol. Mae benthyciadau llyfrau i oedolion a benthyciadau llyfrau i blant wedi cynyddu eleni, ond, yn gyferbyniad i nifer o awdurdodau, mae benthyciadau electronig wedi gostwng ychydig. Fel pob awdurdod llyfrgell, bydd angen i Gaerdydd fonitro'r tueddiadau hyn dros y blynyddoedd sydd i ddod. Er mai Caerdydd yw'r unig awdurdod llyfrgell yng Nghymru i fodloni'r targed cyfanswm staffio, mae'n peri pryder bod cyfanswm nifer y staff wedi gostwng ar adeg pan fo poblogaeth yr ardal ar gynnydd. Eto, mae hyn yn rhywbeth y dylid ei fonitro.

- Ymatebodd dros 90% o'r cwsmeriaid a atebodd yr arolwg yn 2023 yn gadarnhaol i bob un o'r mesurau Bodlonrwydd cwsmeriaid, ac mae gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer y rhan fwyaf o elfennau (DA2).
- Mae Caerdydd yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y niferoedd a gafodd help drwy gymorth ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddwyr (DA5).
- Mae Caerdydd yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth ac mae cyfanswm nifer y mynychwyr wedi cynyddu 80% o'i gymharu â 2022-23 (DA6).
- Mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf o ran benthyciadau i oedolion a benthyciadau i blant: mae benthyciadau llyfrau i oedolion wedi cynyddu 16% a benthyciadau i blant 5% o'u cymharu â 2022-23 (DA8).
- Mae Caerdydd yn parhau i fod yn y chwartel uchaf am fenthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth (DA10).

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Mae Caerdydd yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Caerdydd yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles **bodlonwyd yn llawn ▲**
- i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
- ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
- iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
- iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% o'r gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau **bodlonwyd yn rhannol ■**
- i) Staff am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd**
- ii) Staff cymwysedig am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
- iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u

seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 91% | 9/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 86% | =10/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 100% | =1/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Caerdydd ddatganiad effaith sy'n disgrifio'r gefnogaeth a ddarparodd y gwasanaeth llyfrgell i fenyw a oedd wedi gadael ei swydd oherwydd iechyd meddwl gwael ac roedd yn chwilio am gyfleoedd i wella'i lles a'i hyder. Ymgysylltodd â'r tîm Gwirfoddolwyr Cymunedol ac yn sgil hynny daeth yn wirfoddolwr mewn Hwb/Llyfrgell. Dilynodd hyfforddiant a dechrau darparu sesiynau ar gyfer grŵp sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia. Mae'n adrodd ei bod yn teimlo'n barod i ddychwelyd i'r gwaith yn sgil cefnogaeth y gwasanaeth llyfrgell, wedi iddi fagu hyder a gwneud gwelliannau i'w hiechyd meddwl.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Caerdydd ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 77% | 5/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 82% | 3/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 95% | =13/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 93% | =6/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 98% | =9/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 91% | =3/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 94% | =13/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.2 | 11/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 209 | 1/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 226 | 4/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Niferoedd yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 471 | 3/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 7,851 | 1/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 223 | 1/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 25% | =2/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau electronig | 16% | =10/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 2,248 | 2/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[9] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 227 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 5,303 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £24,685 | 1/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 72% | 6/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 5% | 22/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 21% | 2/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 2% | 21/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

[9] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae canran yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau wedi cynyddu ers 2022-23 (DA1) ac mae Caerdydd yn parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am elfen iechyd a lles y DA hwn. Mae Caerdydd hefyd yn perfformio'n dda iawn mewn perthynas â Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), gyda mwy na 90% o'r cwsmeriaid a atebodd yr arolwg yn 2023 yn ymateb yn gadarnhaol i bob un o'r mesurau. Mae gwelliannau flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer y rhan fwyaf o elfennau, yn arbennig mewn perthynas â darpariaeth TG sy'n debygol, yn ôl y gwasanaeth, o fod o ganlyniad i ddiweddariadau i gyfleusterau a hygyrchedd gwell a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Mae bodlonrwydd mewn perthynas â'r stoc llyfrau hefyd wedi cynyddu'n nodedig.

Mae Caerdydd yn bodloni'r targed ar gyfer iechyd a lles yn llawn (DA4). Mae sawl digwyddiad a grŵp cymorth newydd wedi'u datblygu, gan gynnwys grŵp cymorth HIV a grŵp therapi canser a arweinir gan Hosbis y Ddinas. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnig 'Llyfrgell Chwaraeon'. Mae digwyddiadau corfforol sy'n targedu pobl hŷn yn benodol, ac eleni cyflwynwyd Rhaglen Ymarfer Corff Rheoli Cwympiadau (FaME), wedi'i datblygu mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Elderfit. Mae Caerdydd yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y niferoedd sydd wedi'u helpu drwy gymorth anffurfiol i ddefnyddwyr ac mae gan Gaerdydd y cyfraddau mynychu uchaf am bob pen o'r boblogaeth am weithgareddau hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr yn genedlaethol (DA5). Dywedodd 100% o’r bobl a fynychodd ac a atebodd yr arolwg eu bod wedi cyflawni eu hamcanion drwy fynychu hyfforddiant.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Caerdydd yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am bresenoldeb am bob pen o'r boblogaeth mewn digwyddiadau, ac mae cyfanswm nifer y mynychwyr wedi codi 80% o'i gymharu â 2022-23 (DA6). Eleni, mae ffocws ychwanegol wedi bod ar ddigwyddiadau sy'n gallu cyfrannu at helpu dinasyddion gyda'r argyfwng costau byw, fel digwyddiadau Dychwelyd i'r Ysgol gan ddarparu mynediad i wisg ysgol a roddwyd, torri gwallt am ddim a setiau nwyddau ysgrifennu am ddim. Mae Pride Cymru wedi bod yn bartner allweddol wrth ddarparu grwpiau cymdeithasol rheolaidd, yn ogystal â darparu mewnwelediad i ddatblygu casgliadau. Mae Fast Track Caerdydd a'r Fro wedi bod yn allweddol hefyd wrth ddatblygu Grŵp Cymorth Cymheiriaid ar gyfer pobl sy'n byw gyda HIV. Caiff ffoaduriaid eu cefnogi drwy raglenni cymdeithasol wedi'u targedu yn ogystal ag adnoddau mewn ieithoedd allweddol.

Mae gan Gaerdydd y cyfraddau uchaf o ymweliadau rhithwir a benthycwyr gweithredol yn genedlaethol (DA8). Mae nifer y benthycwyr gweithredol a adroddwyd wedi mwy na dyblu o'i gymharu â 2022-23. Mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf o ran benthyciadau i oedolion a benthyciadau i blant: mae benthyciadau llyfrau i oedolion wedi cynyddu 16% a benthyciadau i blant 5% o'u cymharu â 2022-23. Er bod benthyciadau electronig yn parhau i fod uchaf am bob pen o'r boblogaeth yng

Nghymru, mae'r niferoedd wedi gostwng 13% o'u cymharu â 2022-23. Mae hyn yn beth diddorol i'w nodi am ei fod yn gyferbyniad i'r patrymau a welir mewn llawer o wasanaethau eraill.

### Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Mae Caerdydd yn bodloni'r targed caffaeliadau ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth (DA9). Mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf am ganran y gyllideb a wariwyd ar adnoddau i blant ac oddeutu'r canolrif am y ganran a wariwyd ar adnoddau electronig. Mae cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau yn y Gymraeg yn bodloni'r targed (DA10). Er bod nifer y benthyciadau yn y Gymraeg wedi gostwng rhywfaint o'i gymharu â 2022-23 (4%), mae Caerdydd yn parhau i fod yn y chwartel uchaf am fenthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth. Ymhlith y digwyddiadau diwylliannol yn y Gymraeg mae clybiau sgwrsio, cyrsiau Cymraeg a Tai Chi yn Gymraeg. Mae'r gwasanaeth yn adrodd am bartneriaeth newydd gyda'r siop llyfrau Cymraeg 'Cant a mil' a fydd yn destun ymchwilio llawnach y flwyddyn nesaf.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Unwaith eto eleni, Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o staff o ran eu cyfanswm am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol a hwn yw'r unig awdurdod llyfrgell i fodloni'r targed hwn (DA13). Fodd bynnag, mae nifer y staff wedi gostwng 15% ers 2022-23, tra bod poblogaeth yr awdurdod wedi codi. Mae gwasanaeth Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn gweithredu fel tîm integredig, felly mae disgwyl i staff gefnogi cwsmeriaid gyda materion fel budd-daliadau a chyngor ariannol, yn ogystal â gyda gweithgareddau mwy traddodiadol llyfrgell. Nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth a hwn sydd â'r cyfanswm nifer isaf o staff cymwysedig CALl am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol. Ar hyn o bryd, mae llai na 3% o gyfanswm y staff CALl yn gymwysedig; fodd bynnag, mae Caerdydd yn cefnogi aelod pellach o staff i gyflawni statws cymwysedig. Mae rhaglen wirfoddolwyr helaeth gan y gwasanaeth hefyd. Mae Caerdydd yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor ac mae oddeutu'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA16). Mae'r ychydig gwymp yn yr oriau agor am bob pen o'r boblogaeth oherwydd cynnydd ym maint y boblogaeth. Caerdydd sydd â'r gwariant refeniw uchaf am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol (DA14).

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Caerdydd yn cyfeirio at ystod o strategaethau'r Llywodraeth, gan gynnwys Cymru o blaid pobl hŷn; ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl, a Chynllun Gweithredu LDHTC+ Cymru. Ymhlith yr enghreifftiau o'r gweithgareddau sy'n cefnogi'r strategaethau hyn mae: darparu gofod lle gall pobl hŷn gyfarfod a chynnal ymdeimlad o bwrpas; cefnogi gofalwyr di-dâl i gael mynediad at help a chyngor; cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia yn rhan o raglen Caerdydd

sy'n Deall Dementia; datblygu Sgriniau Digidol â Gwybodaeth Iechyd ar draws Hybiau a llyfrgelloedd; a gweithio gyda grŵp Pride Cymru i sefydlu cymuned Balchder/Pride ac ymestyn casgliadau llyfrau.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae cyflawni deilliannau iechyd cadarnhaol i gymuned Caerdydd yn ffocws allweddol. Mae Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn bwriadu parhau â'u cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd a'u partneriaid i wireddu'r deilliannau hyn. Ymhlith y cynlluniau mae: lansio Cynllun Monitro Pwysau Gwaed ym mhob Hwb/Llyfrgell gyda chefnogaeth meddygon teulu a'r tîm Iechyd Cyhoeddus; darparu citiau i brofi am afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol yn y cartref er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau o ran cynhwysiant digidol a digartrefedd; a phrosiect a fydd yn creu amgylcheddau sy'n gadarnhaol i bobl niwroamrywiol a chynnwys digidol ar gyfer cwsmeriaid niwroamrywiol. Yn ogystal, caiff Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd newydd ei datblygu a fydd yn parhau i ddarparu profiadau diwylliannol am ddim i ddinasyddion. Bydd y gwasanaeth yn parhau â'i waith i ddatblygu casgliadau sy'n alinio i gymunedau unigol.

## Casgliad

Mae Caerdydd yn parhau i berfformio'n dda a chynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gwsmeriaid. Mae cynnydd yn y sgorau Bodlonrwydd cwsmeriaid a adroddwyd eleni yn tystio i hyn. Mae cymorth i ddefnyddwyr a'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau yn parhau i fod yn brif gryfderau i'r gwasanaeth ac mae staff yn amlwg yn ymdrechu i sicrhau bod y rhain yn gynhwysol i gwsmeriaid ag ystod eang o anghenion a diddordebau. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau a gwasanaethau i sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn cael eu bodloni'n effeithiol. Mae benthyciadau llyfrau i oedolion a benthyciadau llyfrau i blant wedi cynyddu eleni, ond, yn gyferbyniad i nifer o awdurdodau, mae benthyciadau electronig wedi gostwng ychydig. Fel pob awdurdod llyfrgell, bydd angen i Gaerdydd fonitro'r tueddiadau hyn dros y blynyddoedd sydd i ddod. Er mai Caerdydd yw'r unig awdurdod llyfrgell yng Nghymru i fodloni'r targed cyfanswm staffio, mae'n peri pryder bod cyfanswm nifer y staff wedi gostwng ar adeg pan fo poblogaeth yr ardal ar gynnydd. Eto, mae hyn yn rhywbeth y dylid ei fonitro.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Sir Gaerfyrddin

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Sir Gaerfyrddin, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Sir Gaerfyrddin yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Sir Gaerfyrddin yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd y targed sy'n weddill.

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Gaerfyrddin yn amlwg yn cael ei werthfawrogi gan gwsmeriaid, sy'n sgorio'u profiadau'n uchel. Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnig ystod o weithgareddau a digwyddiadau, gan gynnwys gwasanaeth iechyd a lles; stordy creadigol a darpariaeth technoleg; a gweithgareddau ac adnoddau yn y Gymraeg. Mae wedi datblygu partneriaethau gyda nifer o sefydliadau i gynnig gwasanaethau arbenigol, fel cymorth iechyd a hyfforddiant digidol. Mae'n galonogol bod benthyciadau i oedolion, benthyciadau i blant, benthyciadau yn y Gymraeg a benthyciadau electronig oll wedi codi o'u cymharu â 2022-23.

- Mae Sir Gaerfyrddin yn perfformio'n gadarn ar gyfer Bodlonrwydd cwsmeriaid, ac mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer pob mesur (DA2).
- Mae'r nifer sy'n mynychu gweithgareddau hyfforddi ffurfiol wedi cynyddu 81% o'i gymharu â 2022-23, a dywedodd yr holl fynychwyr a atebodd yr arolwg eu bod wedi cyflawni eu diben drwy fynychu (DA5).
- Mae Sir Gaerfyrddin yn y chwartel uchaf yn genedlaethol o ran benthyciadau llyfrau i oedolion, llyfrau i blant a benthyciadau clyweledol (DA8).
- Mae'r gwasanaeth yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am fenthyciadau deunyddiau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth (DA10).
- Nid yw Sir Gaerfyrddin yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor ac mae ffigur cyfanswm yr oriau agor wedi gostwng ers 2022-23 o ganlyniad i'r ffaith bod y fflyd llyfrgelloedd teithiol wedi gostwng a'r ffaith bod llyfrgell cangen Cross Hands yn dal ar gau (DA16).

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith. Mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Sir Gaerfyrddin ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir Gaerfyrddin yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd y targed sy'n weddill.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles **bodlonwyd yn llawn ▲**
- i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
- ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
- iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
- iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau **bodlonwyd yn rhannol ■**
- i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd**
- iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
- iv) canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 95% | 6/16 | 68% | 93.5% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 91% | 8/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 100% | 1/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Gaerfyrddin ddatganiad effaith yn disgrifio gwerth dau Stordy Creadigol o ran magu diddordeb a chyfranogiad ymysg disgyblion y nodwyd eu bod yn rhai nad oeddent yn ymgysylltu a'u bod mewn perygl o ddod yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Gan weithio mewn partneriaeth â Cymunedau am Waith+ (C4W+) Sir Gaerfyrddin, trefnwyd sesiynau creadigol (e.e. retro-gemio ac addurno mygiau) mewn Stordai Creadigol yn llyfrgelloedd Caerfyrddin a Llanelli. Mae'r Stordai Creadigol yn darparu mynediad i ystod o gyfarpar digidol a thechnolegau ac maent wedi'u staffio gan Gynorthwywyr Llyfrgell Stordai Creadigol hybrid sy'n cyfuno tasgau llyfrgellol traddodiadol â chyflwyno a datblygu sesiynau Stordai Creadigol a digwyddiadau arloesol. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod y sesiynau'n rhoi hwb i hyder cyfranogwyr a bod un o'r mynychwyr wedi sôn ei fod yn holi am brentisiaethau ym maes adeiladu yn y gobaith y byddai dylunio 3D yn rhan o'r cwrs ar ôl cael profiad o ddefnyddio technoleg arloesol yn ystod y sesiynau Stordai Creadigol. Ymhlith yr adborth o'r sesiynau nodwyd: *"Aeth y sesiynau yn y llyfrgell yn dda. Roedd y staff yn y ddwy lyfrgell yn gymwynasgar iawn i'r bobl ifanc ac yn ystyriol o'u hanghenion".*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o’r farn bod defnyddio’r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 86% | 3/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 71% | 6/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 100% | =1/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 97% | 1/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =1/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 87% | =7/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 100% | =1/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.7 | =1/16 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 20 | 11/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 199 | 5/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Niferoedd yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 238 | 10/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 1,043 | 4/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o’r boblogaeth | 96 | 18/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau i adnoddau plant | 17% | =10/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 20% | 7/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o’r boblogaeth | 2,725 | 1/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[10] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 5 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 549 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £19.498 | 2/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 50% | 22/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 12% | =6/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 4% | =9/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 34% | 1/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

[10] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Sir Gaerfyrddin yn perfformio'n gadarn ar gyfer Gwneud Gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am bob mesur, a'r uchaf yn genedlaethol mewn nifer o achosion. Mae Sir Gaerfyrddin yn bodloni'r targed ar gyfer Iechyd a lles (DA4). Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau â sefydliadau fel y GIG, Cymorth Canser Macmillan a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gweithio'n agos ag oedolion ifanc sy'n ofalwyr, gan ddarparu stoc lyfrau benodol i gefnogi'r gynulleidfa hon. Mae hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr yn cynnwys hyfforddiant digidol a gyflwynir mewn partneriaeth â Choleg Sir Gaerfyrddin a Learn Direct; clybiau nodau ar gyfer ceisiadau am swyddi a chreu CV; gweithdai ysgrifennu creadigol ac ysgrifennu barddoniaeth; sesiynau sgwrsio yn y Gymraeg a Dysgu Cymraeg; a sesiynau Stordy Creadigol. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau hyfforddiant ffurfiol wedi codi 81% o'i gymharu â 2022-23 a dywedodd pob un a atebodd yr arolwg eu bod wedi cyflawni eu diben drwy fynychu. Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn uwch na'r canolrif ar gyfer cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth a chynyddodd y nifer o sesiynau hyfforddiant anffurfiol a gofnodwyd 32% o'i gymharu â 2022-23 (DA5).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir Gaerfyrddin yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth (DA6). Cynhaliodd y gwasanaeth dros 2,200 o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn 2023-24, gan gynnwys lansio'r Ganolfan Clipiau; ymweliadau gan awduron ac ymweliadau â gweithdai barddoniaeth; arddangosfeydd celf; gweithdai gwyddoniaeth; Ffair Grefftau'r Nadolig; Ffair Cynnyrch o Gymru; sesiynau Scalextric; retro-gemau; sesiynau cerddoriaeth; paentio dyfrlliwiau; gwneud gemwaith; a chrosio a gwau. Drwy gydol misoedd y gaeaf, cynhaliodd y gwasanaeth llyfrgell 'Glwb Croeso Cynnes y Gaeaf'. Hefyd, cynyddodd y nifer a fynychodd ddigwyddiadau 44% o'i gymharu â 2022-23.

Mae Sir Gaerfyrddin yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am ymweliadau rhithwir, ac mae'r ffigur hwn wedi codi 10% o'i gymharu â 2022-23 (DA8). Er bod Sir Gaerfyrddin yn parhau yn y chwartel gwaelod am fenthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth, a dim 14% ond o'r aelodau llyfrgell a adroddwyd sy'n fenthycwyr gweithredol, mae'n addawol bod cyfanswm nifer y benthycwyr gweithredol wedi dyblu o'i gymharu â 2022-23. Mae Sir Gaerfyrddin yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am fenthyciadau llyfrau i oedolion, llyfrau i blant, a benthyciadau clyweledol. Mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau electronig. Mae benthyciadau llyfrau i oedolion wedi cynyddu 11% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, benthyciadau i blant 16% a benthyciadau electronig 15%; mae pob un o'r rhain yn uwch na'r codiadau cyfartalog yn genedlaethol.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am gaffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth (DA9). Mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer canran y gyllideb a wariwyd ar adnoddau i blant ac adnoddau electronig. Mae yn y chwartel uchaf am wariant am bob pen o'r boblogaeth ar bobl dan 16 oed. Mae Sir

Gaerfyrddin wedi buddsoddi mewn cyfleusterau TG arloesol ar ffurf Silffoedd Deallus ar gyfer Llyfrau sydd wedi'u Neilltuo, sy'n defnyddio technoleg RFID i gynnig modd hunanwasanaeth a di-bapur i gasglu llyfrau sydd wedi'u harchebu mewn tair llyfrgell. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi darpariaeth yn y Gymraeg; mae ganddo'r gyfradd uchaf o fenthyciadau yn y Gymraeg yn genedlaethol, ac mae nifer y benthyciadau yn y Gymraeg wedi codi ychydig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (3%) (QI10). Mae Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin yn gweithio mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin Cymru i ddarparu sesiynau amser stori i fabanod a phlant bach. Cynhaliodd y llyfrgelloedd wythnos o ddigwyddiadau yn y Gymraeg i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a chynhaliodd Llyfrgell Llanelli Ffair Crefftau Cymreig. Cynigir ymweliadau drwy gyfrwng y Gymraeg i holl ysgolion Sir Gaerfyrddin.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Mae Sir Gaerfyrddin yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig ac mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA13). Fodd bynnag, nid yw'n bodloni'r targed ar gyfer staffio'n gyffredinol am bob pen o'r boblogaeth ac mae'n is na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn. Nodir bod recriwtio staff wedi bod yn heriol eleni oherwydd gorchymyn rhewi recriwtio gan y Cyngor Sir yn ystod Ch3/Ch4 2023-24. Roedd hyn yn golygu na lenwyd 11 swydd wag (6.5 CALl) yn ystod y flwyddyn adrodd. Disgwylir i'r rhain gael eu llenwi erbyn mis Gorffennaf/Awst 2024. Mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf am gyfanswm y gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth (DA14).

Nid yw Sir Gaerfyrddin yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor ac mae cyfanswm yr oriau agor wedi gostwng dros 7% ers 2022-23 o ganlyniad i'r ffaith bod y fflyd llyfrgelloedd teithiol wedi'i gostwng o dair fan i un (DA16). Yn ogystal, mae llyfrgell cangen Cross Hands ar gau ers sawl blwyddyn ac mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gweithio gyda'r awdurdod i adleoli'r llyfrgell i adeilad arall yn yr ardal. Mae opsiynau llyfrgell hunanwasanaeth yn cael eu defnyddio'n llawn yn Llyfrgell Castellnewydd Emlyn, gan hwyluso mynediad i stoc y tu allan i oriau gweithio arferol staff llyfrgell.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd Sir Gaerfyrddin enghreifftiau o nifer o feysydd lle mae ei gwaith yn cefnogi'r blaenoriaethau hyn, gan gynnwys:

- **Adeiladu cymunedau cydnerth cadarn** e.e. cynnal digwyddiadau a gweithgareddau grŵp, darparu amgylchedd cynhwysol diogel a chefnogi dysgwyr gydol oes a cheiswyr swyddi.
- **Creu Cymru iachach** e.e. darparu gofod a gweithgareddau sy'n helpu pobl i gysylltu â'i gilydd a goresgyn ynysigrwydd a chefnogi lles meddyliol, a chynnal digwyddiadau cymunedol fel y rhai i ddathlu pen-blwydd Doctor Who yn 60.
- **Meithrin arloesedd digidol** e.e. darparu Cornel CLIPIAU yn Llyfrgell Caerfyrddin a chynnal y gweithdy CLIPIAU teithiol cyntaf mewn llyfrgell yn Sir Gaerfyrddin.

- **Dathlu a chadw diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg** e.e. cynnig ystod o adnoddau, gweithgareddau a digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Sir Gaerfyrddin yn nodi y bydd newidiadau yn y dirwedd wleidyddol, gyllidol a chymdeithasol yn arwain at newidiadau yn y ffordd maent yn darparu gwasanaethau o hyn allan. Mewn ymateb i'r newidiadau hyn, ac i fodloni anghenion cwsmeriaid, bydd y gwasanaeth yn mabwysiadu rhwydwaith llyfrgelloedd newydd a fydd yn arwain at greu pedwar fformat llyfrgell penodol. Dyma'r fformatau: Llyfrgell Ranbarthol Gwasanaeth Llawn; Llyfrgelloedd Rhanbarthol Digidol; Llyfrgelloedd Cymunedol / Cangen gyda Staff a Heb Staff; a Llyfrgell Deithiol. Mae'r gwasanaeth yn gobeithio y bydd hyn yn cynyddu effeithlonrwydd llyfrgelloedd, yn gwella profiad y cwsmer ac yn darparu gwasanaeth cynaliadwy at y dyfodol.

## Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Sir Gaerfyrddin yn amlwg yn cael ei werthfawrogi gan gwsmeriaid, sy'n sgorio'u profiadau'n uchel. Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnig ystod o weithgareddau a digwyddiadau, gan gynnwys gwasanaeth iechyd a lles; stordy creadigol a darpariaeth technoleg; a gweithgareddau ac adnoddau yn y Gymraeg. Mae wedi datblygu partneriaethau gyda nifer o sefydliadau i gynnig gwasanaethau arbenigol, fel cymorth iechyd a hyfforddiant digidol. Mae'n galonogol bod benthyciadau i oedolion, benthyciadau i blant, benthyciadau yn y Gymraeg a benthyciadau electronig oll wedi codi o'u cymharu â 2022-23.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Ceredigion

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Ceredigion, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Ceredigion yn bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac nid yw'n bodloni'r 2 Hawl Graidd sy'n weddill. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Ceredigion yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Ceredigion yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Mae ei ffigyrau benthyciadau'n drawiadol, yn arbennig y cynnydd yn y benthyciadau i blant o'u cymharu â 2022-23. Mae'n werth nodi bod benthyciadau ffisegol ac electronig wedi codi'n nodedig o'u cymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol. Er bod lefelau mynychu digwyddiadau'n dal yn isel o'u cymharu ag awdurdodau eraill, mae'r gwasanaeth bellach yn bodloni'r targed ar gyfer DA6, a nodwyd y llynedd fel maes yr oedd angen sylw arno.

Mae'r ffaith bod Ceredigion yn parhau i fethu â bodloni Hawliau Craidd 11 a 12 yn bryder. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd ymgynghori â defnyddwyr a datblygu strategaeth yn rhoi ymdeimlad cryfach i'r gwasanaeth o'i gyfeiriad at y dyfodol, sy'n arbennig o bwysig ar adeg o bwysau cyllidebol cynyddol.

- Mae benthyciadau llyfrau i oedolion, benthyciadau i blant a benthyciadau electronig oll yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ac wedi cynyddu o'u cymharu â 2022-23 (DA8).
- Mae Ceredigion yn y chwartel uchaf yn genedlaethol o ran benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth ac mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 9% ers y ffurflen flaenorol (DA8).
- Mae Ceredigion yn y chwartel uchaf yn genedlaethol o ran benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth (DA10).
- Mae'r gwasanaeth yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell am oriau agor am bob pen o'r boblogaeth (DA16).
- Fodd bynnag, mae'n siomedig nad yw Ceredigion bellach yn bodloni'r targedau o ran staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth nac o ran oriau hyfforddiant staff (DA13).

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Ceredigion ei fod wedi bodloni 11 o’r 13 Hawl Graidd yn llawn a'i fod heb fodloni'r 2 Hawl Graidd sy'n weddill drwy hunanasesu. Mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad. Fodd bynnag, dylid nodi bod Ceredigion wedi darparu gwybodaeth fwy cyfyngedig yn y ffurflen na mwyafrif yr awdurdodau llyfrgell, gan ei gwneud yn anoddach i'r asesydd annibynnol ddod i ddyfarniad cywir. Fel oedd yn wir yn 2022-23, nid yw Ceredigion yn bodloni HG12 am fod y gwasanaeth yn parhau i ystyried datblygu'r ystod lawn o strategaethau llyfrgell. Ni fodlonwyd HG11 ychwaith am nad yw'r gwasanaeth wedi ymgynghori â defnyddwyr yn ystod cyfnod Fframwaith 6 (nac Atodiad Fframwaith 6). Mae'r ddau weithgaredd wedi'u cynnwys yng nghynllun busnes 2024-25 y gwasanaeth.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Ceredigion yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
- ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
- iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
- iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
- i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
- iv) Canran DPP, **ni fodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o’r farn bod defnyddio’r llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 68% | 93.5% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 94% | 13/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Ceredigion ddatganiad effaith a ganolbwyntiodd ar brofiad cwsmer a ddaeth yn rheolaidd i lyfrgell cangen Aberteifi a sgwrsio gyda staff. Adroddodd y cwsmer ei fod wedi rhoi'r gorau i ddarllen oherwydd golwg gwan. Rhoddodd aelod o'r staff wybod iddo am yr adnoddau electronig mae'r llyfrgell yn eu darparu a chynigiodd ei gefnogi i gael mynediad i'r adnoddau hyn a'u defnyddio. O ganlyniad, cynorthwyodd staff y cwsmer i gofrestru fel aelod newydd a'i helpu i osod yr apiau am ddim ar ei ddyfais ac roedd yn gallu dod i'r llyfrgell a lawrlwytho adnoddau sain electronig a llyfrau electronig gan ddefnyddio'r Wi-Fi am ddim. Soniodd y cwsmer am ei orfoledd ei fod yn gallu darllen eto a gwrando ar storïau ac roedd yn gwerthfawrogi'r cymorth a gafodd gan staff.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Ceredigion ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o’r farn bod defnyddio’r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | Ni ddarparwyd | Dd/B | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | Ni ddarparwyd | Dd/B | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | Ni ddarparwyd | Dd/B | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | Ni ddarparwyd | Dd/B | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | Ni ddarparwyd | Dd/B | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | Ni ddarparwyd | Dd/B | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | Ni ddarparwyd | Dd/B | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | Ni ddarparwyd | Dd/B | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 5 | 16/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 147 | 8/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 13 | 21/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 951 | 6/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o’r boblogaeth | 143 | 4/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 12% | =20/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 16% | =10/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o’r boblogaeth | 1,035 | 4/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[11] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 20 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 1,148 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £10,162 | /22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 78% | 1/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 21% | 2/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 1%[12] | =19/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 0% | 22/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Nid yw Ceredigion wedi ymgynghori â defnyddwyr yn ystod 2023-24 (nodwyd yng nghyflwyniad y llynedd y byddai hyn yn digwydd). Fodd bynnag, mae ffurflen 2023-24 yn nodi eu bod yn 'bwriadu ymgynghori y flwyddyn nesaf, a nodir y darperir hyn yn ein cynllun busnes hefyd ar gyfer 2024-25'. Mae'r gwasanaeth yn bodloni DA4 yn llawn. Mae Ceredigion yn uwch na'r canolrif ar gyfer cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, er bod y niferoedd ychydig yn is (5%) o'u cymharu â 2022-23 (DA5). Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol yn is na'r canolrif, ynghyd â chanran y mynychwyr a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif ac wedi cynyddu 18% o'u cymharu â 2022-23 (DA8). Mae Ceredigion yn y chwartel uchaf yn genedlaethol o ran benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 9% ers y ffurflen flaenorol. Mae benthyciadau llyfrau i oedolion, benthyciadau i blant a benthyciadau electronig oll yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru, ac maent wedi cynyddu ar gyfraddau uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. O'u cymharu â 2022-23, mae benthyciadau i oedolion wedi codi 26%, mae benthyciadau i blant wedi codi 47% ac mae benthyciadau electronig wedi codi 42%. Mae hyd yn oed benthyciadau clyweledol, sy'n gostwng mewn llawer o awdurdodau, yn parhau'n sefydlog. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi benthyg cyfarpar chwaraeon.

Mae Ceredigion yn bodloni'r targed ar gyfer lleoliad y mannau gwasanaeth (DA7). Mae'r gwasanaeth yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n

[11] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*
[12] *Mae'r ffurflen yn nodi: 'Caiff costau deunyddiau adeiladu eu rheoli ar wahân o dan yr Adran Eiddo ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigurau a ddarparwyd'*

mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth, er bod hyn wedi cynyddu ychydig (5%) o'i gymharu â 2022-23 (DA6). Gwybodaeth gyfyngedig a ddarparwyd am y mathau o ddigwyddiadau a gynigir.

### Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Mae Ceredigion yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, ac mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA9). Ef yw’r awdurdod cydradd isaf o ran y gyfran o’r gyllideb a ddyrannwyd ar adnoddau i blant, er ei fod yn uwch na’r canolrif ar gyfer gwariant am bob pen o’r boblogaeth ar blant dan 16 oed. Mae'r gwasanaeth yn rhagori ar y targed ar gyfer y gyfran o'r gyllideb a wariwyd ar ddeunyddiau yn y Gymraeg ac yn y chwartel uchaf am y benthyciadau Cymraeg am bob pen o'r boblogaeth; mae benthyciadau Cymraeg wedi cynyddu 41% o’u cymharu â 2022-23 (DA10). Gwybodaeth gyfyngedig a ddarperir am ddigwyddiadau neu weithgareddau Cymraeg.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Mae'n siomedig nad yw Ceredigion bellach yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth (DA13). Nodir bod un swydd broffesiynol wedi'i chario fel swydd wag ar gyfer y flwyddyn er mwyn talu am gostau codiadau cyflog staff a bodloni targedau incwm. Mae'r gwasanaeth hefyd yn methu â bodloni'r targedau ar gyfer staffio am bob pen o'r boblogaeth ac amser a neilltuwyd i hyfforddiant. Mae'r cyfanswm staffio am bob pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif a nodir bod rhyddhau staff i ymgymryd â hyfforddiant yn fwy anodd wrth i niferoedd ostwng. Serch hynny, mae gan y gwasanaeth y nifer uchaf o oriau agor am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol (DA16). Mae Ceredigion yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru o ran cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth a chaiff cyfran fawr o'r gyllideb ei dyrannu i staffio (DA14).

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Canolbwyntiodd Ceredigion ar y ffordd mae ei nodau Lles yn cyfrannu at flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.  Ymhlith yr enghreifftiau roedd:

- **Cymru lewyrchus** e.e. cefnogi dysgu gydol oes gyda stoc llyfrau a TG, cynorthwyo pobl i ddod o hyd i waith drwy gynnal clybiau swyddi a datblygu rolau'r llyfrgelloedd i ddarparu cymorth ar gyfer Credyd Cynhwysol.
- **Cymru gydnerth** e.e. darparu mynediad i wybodaeth sy'n annog ffordd fwy cydnerth o fyw a chefnogi mentrau ailgylchu.
- **Cymru iachach** e.e. darparu adnoddau i gefnogi lles, cymryd rhan yng nghynllun bibliotherapi Cymru gyfan, datblygu cymorth i bobl â dementia, a darparu gwasanaeth llyfrgell deithiol i gynorthwyo cwsmeriaid sy'n gaeth i'w cartref ac sy'n ynysig.
- **Cymru fwy cyfartal** e.e. darparu mynediad am ddim i lyfrau a TG, hwyluso rhoi benthyg cyfarpar chwaraeon, darparu sesiynau sgiliau digidol, a chefnogi cynlluniau fel Dechrau Da a chynllun darllen yr haf.

- **Cymru o gymunedau cydlynus** e.e. darparu rhwydwaith o lyfrgelloedd cangen a 3 llyfrgell deithiol sy'n gwasanaethu'r sir gyfan.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** e.e. hyrwyddo'r iaith Gymraeg gyda staff sy'n gwbl ddwyieithog, cadw casgliad hanes lleol ar gyfer Ceredigion a Chymru'n fwy cyffredinol, trefnu digwyddiadau rheolaidd sy'n hyrwyddo diwylliant Cymru gan gynnwys cynnal darlith flynyddol T. Llew Jones, a chefnogi grwpiau darllen yn y ddwy iaith.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** e.e. gweithio'n agos â'r awdurdodau llyfrgell Cymru eraill gan gynnwys prynu ar sail consortia ac ymuno â System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan, gan greu arbedion oherwydd hynny.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Ceredigion yn adrodd bod benthyciadau yn dilyn Covid a niferoedd defnyddwyr yn codi, a'r gobaith yw y bydd y duedd honno'n parhau dros y flwyddyn nesaf. Mae'r gwasanaeth yn gobeithio cynyddu nifer y digwyddiadau a gynhelir, ond yn nodi y bydd hyn yn heriol gyda lefelau staffio presennol. Mae disgwyl i 2024-25 fod yn heriol wrth i'r gwasanaeth wynebu toriadau cyllidebol sylweddol. Gellir rhoi ffioedd a thaliadau pellach ar waith i fodloni targedau incwm. Mae'r llyfrgell yn gweithio'n unol â Strategaeth Llesiant Ceredigion, a fydd yn uno adeiladau a gwasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, yn un hwb Llesiant i'r Cyngor. Bydd Strategaeth newydd i'r Cyngor a chaiff bodlonrwydd cwsmeriaid ei asesu. Mae disgwyl i'r adran ehangach fynd drwy ailstrwythuro'r flwyddyn nesaf ac ar hyn o bryd mae'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y gwasanaeth yn anhysbys.

## Casgliad

Mae Ceredigion yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Mae ei ffigyrau benthyciadau'n drawiadol, yn arbennig y cynnydd yn y benthyciadau i blant o'u cymharu â 2022-23. Mae'n werth nodi bod benthyciadau ffisegol ac electronig wedi codi'n nodedig o'u cymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol. Mae'r cynnydd a adroddwyd yn y benthyciadau'n rhagori ar y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer adnoddau o bob math. Er bod lefelau mynychu digwyddiadau'n parhau i fod yn isel o'u cymharu ag awdurdodau eraill, mae'r gwasanaeth bellach yn bodloni'r targed ar gyfer DA6, a nodwyd y llynedd fel maes yr oedd angen sylw arno.

Mae mwy o fanylion wedi'u darparu yn y sylwebaeth o'i chymharu â ffurflen y llynedd, ac mae hyn o gymorth. Fodd bynnag, mae'r disgrifiad a roddwyd yn dal yn weddol gyfyngedig o'i gymharu â'r hyn a ddarparwyd gan lawer o awdurdodau, ac mae hyn yn cyfyngu ar allu'r asesydd annibynnol i amlygu'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud yn y gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd Ceredigion am edrych ar ffurflenni a gyflwynwyd gan gydweithwyr mewn awdurdodau eraill (gyda'u cydsyniad, wrth gwrs) er mwyn cael syniad gwell o lefel y sylwebaeth a ddarparwyd yn gyffredinol.

Mae'r ffaith bod Ceredigion yn parhau i fethu â bodloni Hawliau Craidd 11 a 12 yn bryder. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd ymgynghori â defnyddwyr a datblygu strategaeth yn rhoi ymdeimlad cryfach i'r gwasanaeth o'i gyfeiriad at y dyfodol, sy'n arbennig o bwysig ar adeg o bwysau cyllidebol cynyddol.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Conwy

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Conwy, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Conwy yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Conwy yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Conwy yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd, gan gynnwys benthyciadau, darpariaeth yn y Gymraeg, ymweliadau rhithwir a'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol. Mae'r buddsoddiad parhaus yn y stoc i blant a'r cynnydd yn y benthyciadau i blant yn nodweddion cadarnhaol eraill i'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i ddeall yn well y rhesymau posibl dros niferoedd gostyngol o fodlonrwydd cwsmeriaid mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, mae Conwy wedi gweld gostyngiad sylweddol i'r gronfa llyfrau eleni ac mae'n wynebu heriau capasiti staffio a cholli aelodau o'r tîm proffesiynol. Mae'r sefyllfa'n ymddangos yn annhebygol o wella yn y dyfodol oherwydd bod y gwasanaeth yn wynebu toriadau cyllidebol sy'n debygol o effeithio ar oriau agor a meysydd eraill o ran darpariaeth gwasanaethau.

- Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant cwsmeriaid ffurfiol yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ac mae wedi cynyddu 4% o'i gymharu â 2022-23 (DA5).
- Mae Llyfrgelloedd Conwy yn uwch na’r canolrif cenedlaethol ar gyfer benthyciadau ym mhob fformat; o'u cymharu â 2022-23, mae benthyciadau oedolion i fyny 12%, mae benthyciadau i blant i fyny 19%, mae benthyciadau electronig i fyny 61%, ac mae benthyciadau clyweledol (sy'n gostwng mewn llawer o awdurdodau) wedi cynyddu bron seithwaith drosodd (DA8).
- Mae Conwy yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth; mae benthyciadau yn y Gymraeg wedi cynyddu 17% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA10).
- Er bod y gwasanaeth yn parhau'n ymrwymedig i hyfforddiant staff, mae gostyngiadau wedi bod yn nifer y staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth (DA13).

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Conwy ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Conwy yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 90% | =10/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 79% | 14/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 95% | 12/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn.

Darparodd Conwy ddatganiad effaith a ganolbwyntiodd ar werth y model Darllen ar y Cyd a Ffrindiau Darllen sy'n cael ei gefnogi drwy hyfforddi staff y rheng flaen. Mae astudiaethau achos o lyfrgelloedd Abergele a Llandudno wedi'u rhannu yn Adroddiad Gwerthuso Ffrindiau Darllen cenedlaethol y Reading Agency. Yn Llyfrgell Llanrwst, cydnabuwyd y grŵp Ffrindiau Darllen a oedd yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â marwolaeth a marw, mewn gweithdy cenedlaethol yn y DU i sbarduno cynnig am ymchwil i effaith llyfrgelloedd o ran cefnogi pobl drwy faterion heriol marwolaeth a galar. Mae'r grŵp wedi dangos yr effaith y gall sesiynau ei chael ar fynychwyr sy'n gallu cyd-rannu profiadau mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae'r grŵp yn cefnogi blaenoriaethau fel lles, dysgu a chynhwysiant ac yn cyfrannu at nifer o nodau a amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2022-2027, Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Conwy 2021-2026 a Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru at y Dyfodol.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Conwy ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 64% | =12/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 49% | 12/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 95% | =13/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 88% | 13/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 96% | 15/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 64% | 14/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 97% | =9/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.1 | 12/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 33 | 5/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 227 | 3/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 183 | 14/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 5,433 | 2/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o’r boblogaeth | 141 | 6/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 23% | 4/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 25% | 6/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o’r boblogaeth | 727 | 7/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[13] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 36 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 1,548 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £15,419 | 6/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 75% | 3/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | =13/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 1% | =19/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 15% | 13/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

[13] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Cynhaliodd Conwy arolygon cwsmeriaid ym mis Tachwedd 2023. Yn y rhain, gwelwyd gostyngiad yn yr ymatebion cadarnhaol mewn nifer o feysydd ac mae Conwy yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am bob mesur yn gysylltiedig â Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2). Er bod ymatebion gan blant a phobl ifanc wedi parhau fwy neu lai'n gyson, mae lefelau bodlonrwydd a adroddwyd yn yr arolwg oedolion wedi disgyn, yn arbennig mewn perthynas â darpariaeth TG; dod o hyd i wybodaeth gynorthwyol ar gyfer iechyd a lles; a datblygu sgiliau newydd. Mewn ymateb i hyn, mae'r gwasanaeth yn gweithio ar lefel llyfrgell leol i gasglu mewnwelediad dyfnach i safbwynt cwsmeriaid er mwyn deall yn well y rhesymau dros y newidiadau hyn.

Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer Iechyd a lles (DA4) yn llawn. Cynigir sesiynau Darllen ar y Cyd ychwanegol mewn partneriaeth rhwng tîm y llyfrgell, Mind a thîm Gofal Cymdeithasol y cyngor. Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ac mae wedi cynyddu 4% o'i gymharu â 2022-23 (DA5). Mae sesiynau cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn y chwartel uchaf yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae nifer y sesiynau a adroddwyd wedi gostwng 27% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Er bod y nifer sy'n mynychu digwyddiadau yn parhau i fod yn is na'r canolrif, mae wedi cynyddu 29% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA6). Ymhlith y gweithgareddau mae amser stori; grwpiau darllen, Darllen ac y Cyd a Ffrindiau Darllen; sesiynau crefft a stori yn seiliedig ar thema'r tymor; gweithgareddau gyda grwpiau lleol fel y Sgowtiaid a Merched y Wawr; sesiynau cymorth digidol; ymwybyddiaeth o'r ymgyrch Gwrando ar Ddementia; Sgwad Stori; Criw Celf; Babi Brahms; ymweliadau gan awduron; a darpariaeth Croeso Cynnes. Mae Conwy yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth ac mae cyfanswm nifer yr ymweliadau rhithwir wedi cynyddu 24% o'i gymharu â 2022-23 (DA8). Mae'r gwasanaeth yn nodi bod cynnydd nodedig rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024. Mae benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif ac mae niferoedd benthycwyr gweithredol i fyny 10% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae canran uchel o aelodau llyfrgell a adroddwyd yn fenthycwyr gweithredol (71%). Mae ffigurau benthyciadau Llyfrgelloedd Conwy yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer pob fformat ac maent wedi codi o'u cymharu â 2022-23; mae benthyciadau i oedolion i fyny 12%, mae benthyciadau i blant i fyny 19%, mae benthyciadau electronig i fyny 61%, ac mae benthyciadau clyweledol (sy'n gostwng mewn llawer o awdurdodau) wedi cynyddu bron seithwaith drosodd.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Er bod caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth yn is nag yr oeddent yn 2022-23, am fod y gyllideb llyfrau a adroddwyd wedi gostwng 17%, mae Conwy yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth ac mae'n uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn (DA9). Er bod y gyllideb adnoddau i blant hefyd

wedi gostwng eleni (25%), mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am gyfran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau i blant ac am wariant am bob pen o'r boblogaeth o dan 16 oed. Mae hefyd yn uwch na'r canolrif ar gyfer cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau electronig. Mae Conwy yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth; mae benthyciadau deunyddiau yn y Gymraeg wedi cynyddu 17% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA10). Mae'r gwasanaeth yn rhagori ar y targed ar gyfer cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i ddeunyddiau yn y Gymraeg. Mae Llyfrgelloedd Conwy yn cefnogi nifer o grwpiau darllen cyfrwng Cymraeg; rhaglen 'Ffrindiau Darllen' ar gyfer dysgwyr y Gymraeg; a sesiynau amser stori, e.e. Cymraeg i Blant. Mae digwyddiadau unigryw hefyd wedi'u cynnal gyda Merched y Wawr, cymdeithasau hanesyddol ac ymweliadau ysgolion. Eleni, lansiwyd Cornel Clip yn Llyfrgell Llanrwst a Gwasanaeth Archifau Conwy yng Nghanolfan Diwylliant Conwy, sef casgliad o ffilm, fideo a sain wedi'u digideiddio o Archif Ddarlledu Cymru ac Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae gan ddwy lyfrgell wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo dysgwyr Cymraeg drwy gynnal y cynnig wythnosol, y Croeso Cynnes.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Er bod Conwy yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am gyfanswm y staff a'r staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, nid yw'n bodloni'r targedau ar gyfer y mesurau hyn (DA13). Mae ymarfer ailstrwythuro staff bron wedi'i gwblhau, a fydd yn darparu mwy o gapasiti staffio ar lefel reoli'r rheng flaen. Fodd bynnag, mae swyddi'n cael eu dileu o'r strwythur ym mis Ebrill 2024 i fodloni gofynion y gyllideb; mae hyn yn cynnwys diswyddiadau staff ar lefel broffesiynol. Mae'r gwasanaeth yn parhau'n ymrwymedig i hyfforddiant staff, er enghraifft, cefnogi cyrsiau Gradd Sylfaen ar gyfer pedwar aelod o staff y rheng flaen. Mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth (DA14). Mae buddsoddiad cyfalaf sylweddol a dyfarniadau grant wedi sicrhau gwelliannau i Lyfrgell Bae Colwyn, gan gynnwys to newydd a gwell effeithlonrwydd ynni. Mae Conwy yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor, sydd heb newid llawer ers 2022-23 (DA16). Mae'r gwasanaeth yn cynnig un sesiwn llyfrgell heb staff mewn llyfrgell gymunedol ar ddydd Sadwrn.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Conwy amrywiaeth o ffyrdd mae'n cyfrannu at bob un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy gyflawni ei Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth 2021-2026. Mae datblygu Llyfrgelloedd fel Hybiau Cymunedol yn parhau'n ffocws cyflawni allweddol, gan gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol yn ymwneud â thlodi, llythrennedd, pobl hŷn, mynediad digidol ac unigrwydd ac ynysigrwydd. Mae'r holl lyfrgelloedd yn Ofodau Diogel dynodedig ac mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r fenter Croeso Cynnes. Mae llyfrgelloedd yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi sgiliau digidol, cynhwysiant digidol a chyflogadwyedd ac mae'r gwasanaeth yn gyfranogwr ym mhrosiect Cymunedau Digidol Cymru sy'n

defnyddio technoleg i wella mynediad i wasanaethau cynghorau. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi nodau Strategaeth Ddiwylliannol Conwy i ddarparu gweithgareddau arloesol mewn gofodau llyfrgell ac mae'n gweithio ar y cyd â phartneriaid i gyflwyno prosiectau sy'n cefnogi cynlluniau gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac LHDTC+. Mae Conwy yn gweithio gyda phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi iechyd meddwl a lles, yn ogystal â chefnogi dysgu a darllen drwy raglenni fel Darllen yn Well a Darllen ar y Cyd.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Conwy yn nodi bod heriau ariannol yn parhau i fod yn bryder difrifol. Mae gostyngiad yn y gyllideb wedi arwain at ymgynghoriad cyhoeddus am ostwng oriau agor llyfrgell 25% ar gyfartaledd. Nid yw'r canlyniadau ar gael eto ond mae’n anochel y byddant yn cael effaith ar flaenoriaethau a'r dull o gyflwyno'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn adrodd am orfod torri lefelau staffio oherwydd pwysau cyllidebol gyda cholli tair swydd broffesiynol. Mae'n nodi y bydd hyn yn gostwng y capasiti a'r cyfleoedd datblygu ar gyfer y gwasanaeth. Mae Llyfrgelloedd Conwy yn ymrwymedig i symud y model Llyfrgelloedd fel Hybiau Cymunedol yn ei flaen, gan adeiladu ar lwyddiant cyd-leoliadau yng Nghonwy a Llanrwst a'r gobaith yw y bydd modd denu arian grant a datblygiadau partneriaethau pellach i gyllido hyn. Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod wedi cynnal ei ffocws ar lyfrgelloedd i gefnogi iechyd a lles ac wedi derbyn swyddogaeth Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed ar draws yr awdurdod, sy'n galluogi'r gwasanaeth i ddarparu adnoddau i adolygu, datblygu a gwreiddio gweithio sy'n Gyfeillgar i Oed.

## Casgliad

Mae Conwy yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd, gan gynnwys benthyciadau, darpariaeth yn y Gymraeg, ymweliadau rhithwir a'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol. Mae'r buddsoddiad parhaus yn y stoc i blant a'r cynnydd yn y benthyciadau i blant yn nodweddion cadarnhaol eraill i'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i ddeall yn well y rhesymau posibl dros niferoedd gostyngol o fodlonrwydd cwsmeriaid mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, mae Conwy wedi gweld gostyngiad sylweddol i'r gronfa llyfrau eleni ac mae'n wynebu heriau capasiti staffio a cholli aelodau o'r tîm proffesiynol. Mae'r sefyllfa'n ymddangos yn annhebygol o wella yn y dyfodol oherwydd bod y gwasanaeth yn wynebu toriadau cyllidebol sy'n debygol o effeithio ar oriau agor a meysydd eraill o ran darpariaeth gwasanaethau.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24
# Sir Ddinbych

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Sir Ddinbych, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Adroddodd Sir Ddinbych ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu, gan awgrymu bod Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i gynnig cyrsiau perthnasol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn perfformio'n dda o ran niferoedd benthycwyr gweithredol, nifer yn mynychu digwyddiadau,  benthyciadau llyfrau a darpariaeth yn y Gymraeg. Serch hynny, mae ymweliadau rhithwir wedi gostwng. Mae Sir Ddinbych yn bwriadu cynnal arolygon cwsmeriaid yn 2024 a fydd, gobeithio, yn helpu o ran darparu gwybodaeth bellach am ddefnydd cwsmeriaid o wasanaethau llyfrgell a'u disgwyliadau. Er bod gwerthfawrogiad o heriau toriadau cyllidebol, mae'r amser a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddiant staff yn bryder a'r gobaith yw y bydd hwn yn rhywbeth yr eir i'r afael ag ef yn rhan o'r strategaeth llyfrgelloedd newydd.

- Mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu 26% o'u cymharu â 2022-23 (DA5).
- Mae nifer y benthycwyr gweithredol yn cynyddu, ac mae Sir Ddinbych yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA8).
- Mae Sir Ddinbych yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o’r boblogaeth ac mae benthyciadau yn y Gymraeg wedi cynyddu 14% o'u cymharu â 2022-23 (DA10).
- Mae'r gwasanaeth wedi ymdrechu i gynnal oriau agor hyd yma ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth (DA16).
- Mae Sir Ddinbych yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru o ran amser staff a ddyrannwyd i hyfforddiant (DA13).

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Sir Ddinbych ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Darparodd y gwasanaeth sylwebaeth fanwl a chynorthwyol yn y ffurflen. Ar sail hyn, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol.

1. **Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

2. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

3. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden, a darllen er pleser.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

4. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

5. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn.

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

6. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

7. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

8. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

9. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

10. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**

    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

11. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**

    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**12. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisïau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol** ■

Mae hyn oherwydd bod y gwasanaeth yn adrodd bod strategaeth 2019-22 wedi'i hymestyn, ond nid yw hyn wedi'i nodi yn y strategaeth ei hun nac ar y wefan. O ganlyniad, nid oes unrhyw fesurau llwyddiant dros gyfnod perthnasol o amser. Mae'r ffurflen yn nodi bod y gwasanaeth yn 'bwriadu cynhyrchu strategaeth newydd yn y gwanwyn 2024, pan fydd toriadau cyllidebol ac oriau agor newydd wedi'u rhoi ar waith'.

**13. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn** ▲

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
- ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
- iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
- iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
- i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
- iv) Canran DPP, **ni fodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24[14]. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

[14] *Gwnaeth Sir Ddinbych ddarparu data, ond am fod hyn yn gysylltiedig ag arolygon a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2018 a mis Chwefror 2020 (h.y. cyn Covid), nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl cymhariaeth am nad oes modd cymharu'r ffigurau mewn modd ystyrlon â data mwy diweddar.*

| Dangosydd perfformiad | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | Dd/B | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | Dd/B | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | Dd/B | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Ddinbych ddatganiad effaith a gyfeiriodd at werth y sesiynau Amser Rhigwm Dechrau Da a gyflwynwyd gan Dîm penodedig Dechrau Da. Mae sesiynau'n darparu cyfle i'r plant ifanc ddod yn aelodau o'r llyfrgell; meithrin cariad at ddarllen; a datblygu eu sgiliau lleferydd ac iaith. Mae mynychu'r sesiynau hefyd yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau a hyder cymdeithasol ac emosiynol plant. Mae rhieni sy'n mynychu yn mwynhau cymdeithasu gyda rhieni eraill, sy'n cefnogi eu lles. Dywedodd mam sydd wedi mynychu sesiynau Amser Rhigwm Dechrau Da gyda phob un o'i phedwar plentyn dros y deng mlynedd diwethaf: *Mae fy mhlant i gyd wrth eu bodd yn darllen a dod i'r llyfrgell diolch i'ch anogaeth chi... rwy' wir yn gwerthfawrogi'r drefn a'r cysylltiad cymdeithasol ynghyd â'r cyfle i adael y tŷ a gweld wyneb cyfeillgar. Nid dim ond y llyfrau sy'n bwysig!"*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Ddinbych ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | | Dd/B | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | | Dd/B | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | | Dd/B | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | | Dd/B | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | | Dd/B | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | | Dd/B | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | | Dd/B | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | | Dd/B | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 23 | 10/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 329 | 2/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 168 | 15/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 354 | 17/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 164 | 2/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 20% | 7/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 9% | 15/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 1,246 | 3/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[15] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 4 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 644 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £13,982 | 7/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 62% | =15/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | =13/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 5% | =7/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 23% | =6/22 | 0% | 16.5% | 34% |

[15] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed Iechyd a lles (DA4) yn llawn ac mae llyfrgelloedd yn cynnig gwasanaeth Pwyntiau Siarad wythnosol, sy'n cael ei gynnal ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, lle mae Llywyr Cymunedol yn rhannu gwybodaeth am help a chyngor sydd ar gael mewn ardal. Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol am bob pen o’r boblogaeth oddeutu'r canolrif ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 26% o'i gymharu â 2022-23 (DA5). Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gweithio gyda Cwmpas i gynnig ystod o sesiynau galw heibio, gweithdai a chyrsiau sgiliau hanfodol. Er bod nifer y sesiynau cymorth anffurfiol wedi gostwng o'i gymharu â 2022-23, mae Sir Ddinbych yn parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am gymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygon cwsmeriaid yn 2022-23 na 2023-24, ond mae Sir Ddinbych yn bwriadu cynnal arolwg yn yr hydref 2024 pan fydd y toriadau cyllidebol a'r newidiadau i oriau agor wedi'u rhoi ar waith (DA1/2).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae cyfanswm y nifer sy'n mynychu digwyddiadau llyfrgell wedi cynyddu 25% ers 2022-23 ac mae Sir Ddinbych bellach yn uwch na'r canolrif am bob pen o'r boblogaeth am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau. Ymhlith y digwyddiadau mae grwpiau darllen, Crefft a Sgwrs; Gweu a Sgwrs; Paned a Sgwrs; grwpiau darllen Cymraeg a Saesneg; grwpiau crefft; digwyddiadau awduron; ymweliadau â dosbarthiadau; ac Amser Rhigymau Dechrau Da. Mae gan y gwasanaeth gynnig cadarn ar gyfer plant o dan 5 oed ac mae sesiynau Amser Rhigymau'n cyfrif am 45% o'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gweithgareddau a gwasanaethau i gwsmeriaid ag anghenion penodol, er enghraifft, darparu cardiau SIM i bobl na allant fforddio talu eu hychwanegiadau misol drwy gynllun y Banc Data Cenedlaethol. Yn ystod misoedd y gaeaf roedd llyfrgelloedd yn rhan o'r cynllun Croeso Cynnes, ac yn cynnig te a choffi i drigolion. Bu Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn gweithio gyda sefydliad lleol, Making Sense CIC, ar brosiect blychau atgofion i bobl sy'n byw gyda dementia.

Mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 7% o'i gymharu â 2022-23 ac mae Sir Ddinbych yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA8). Mae dros 70% o aelodau llyfrgell a adroddwyd yn fenthycwyr gweithredol. Mae benthyciadau llyfrau i oedolion wedi codi 12% a stoc plant 11%, ac mae'r ddau faes yn uwch na'r canolrif. Fodd bynnag, mae benthyciadau electronig wedi cynyddu 9%, er gwaethaf ganslo tanysgrifiad Pressreader y llyfrgell, ac mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn. Er hynny, mae Sir Ddinbych hefyd yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer ymweliadau rhithwir, sydd

wedi gostwng 44% o'u cymharu â 2022-23. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod tanysgrifwyr cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu rywfaint (2%).

### Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Mae Sir Ddinbych yn bodloni'r targed ar gyfer y gyfradd gaffaeliadau ac mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA9). Mae canran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau i blant yn uwch na'r canolrif, tra bod y gyfran a ddyrannwyd i adnoddau electronig yn is na'r canolrif. Mae'r gwasanaeth yn rhagori ar y targed ar gyfer gwariant am bob pen o'r boblogaeth ar adnoddau yn y Gymraeg. Mae'n uwch na'r canolrif am fenthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth sydd wedi cynyddu 14% ers 2022-23 (DA10). Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod 71% o fenthyciadau yn y Gymraeg yn llyfrau i blant. Yn ystod Sialens Ddarllen yr Haf, parodd y gwasanaeth llyfrgell â Hamdden Sir Ddinbych i redeg cynllun rhoi benthyg cyfarpar chwaraeon. Mae hefyd yn rhoi benthyg peli troed i'r cynllun Alive and Kicking.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Er bod cyfanswm nifer y staff yn dangos cynnydd o'i gymharu â 2022-23, nid yw Sir Ddinbych yn bodloni'r targedau o hyd ar gyfer naill ai gyfanswm y staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth. Mae ar y canolrif ar gyfer y cyntaf ac ychydig yn uwch na'r canolrif ar gyfer yr ail (DA13). Mae'n fwriad gostwng lefelau staffio ym mis Mehefin 2024, a fydd yn effeithio ar ffurflen y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn cynnwys un swydd rheolwr a oedd wedi'i llenwi dros dro ers i'r Prif Lyfrgellydd adael ym mis Tachwedd 2023. Mae Sir Ddinbych yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru o ran amser staff a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddiant, sydd wedi bod yn gyfyngedig o ganlyniad i doriadau cyllidebol. Mae nifer fach o wirfoddolwyr, er y nodir bod toriadau cyllidebol wedi ei gwneud yn adeg anodd i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr. Mae Sir Ddinbych yn uwch na'r canolrif ar gyfer cyfanswm y gwariant am bob pen o'r boblogaeth (DA14). Mae oriau agor yn parhau'n sefydlog, er bod y gwasanaeth yn rhagweld y bydd toriadau cyllidebol yn arwain at ostyngiad yn yr oriau agor yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA16).

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Sir Ddinbych ystod o ffyrdd roedd yn cyfrannu at y blaenoriaethau hyn. Ymhlith y themâu hyn mae:

- **Hyrwyddo'r iaith Gymraeg** e.e. bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ym mhob llyfrgell, gan gynnig ystod eang o adnoddau print a digidol yn y Gymraeg, a chynnal grwpiau darllen a digwyddiadau awduron.

- **Dathlu amrywiaeth** e.e. datblygu a hyrwyddo'r Llinell Amser Hanes LHDTC+ ar gyfer Sir Ddinbych gan gynnwys cynnal digwyddiad arbennig yn Llyfrgell y Rhyl i hyrwyddo Mis Hanes LHDTC+.
- **Hyrwyddo gwell iechyd meddwl** e.e. amlygu'r casgliadau Darllen yn Well a chyfranogiad ym mentrau lleol Trefi sy'n Deall Dementia.
- **Mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol** e.e. cynnig croeso cynnes a gweithgareddau i helpu pobl a allai fod yn unig.
- **Darparu cymorth digidol** e.e. helpu pobl i ymgeisio am fathodynnau glas, cynnig llechi a chyfrifiaduron Chromebook i'w benthyg, darparu cardiau SIM am ddim a phartneru i gynnig cyrsiau digidol mewn llyfrgelloedd.
- **Dod yn gadarnhaol yn ecolegol** e.e. cyflwyno fan drydan ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Sir Ddinbych yn nodi bod toriadau cyllidebol mawr wrth llesteirio cynnydd rhai prosiectau ac y bydd oriau llyfrgelloedd, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, yn newid o fis Mehefin 2024. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu cynnal arolwg defnyddwyr llawn yn yr hydref, gyda'r canlyniadau'n llywio Strategaeth Llyfrgelloedd newydd a fydd yn ei lle erbyn y gwanwyn 2025. Mae'r llyfrgell yn ymrwymedig i gefnogi themâu Cynllun Corfforaethol y Cyngor drwy amrywiol weithgareddau, gan gynnwys: helpu pobl i fynd ar-lein; cynnal clybiau swyddi; darparu gofodau cyfarfod; hyrwyddo adnoddau Darllen yn Well; cefnogi mentrau lles; a darparu gofod diogel a chroesawgar ar gyfer unigolion. Mae'r gwasanaeth yn ymchwilio i ffyrdd o gyflwyno rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau i ymgysylltu o'r newydd â'r cyhoedd ac mae'n bwriadu ymgeisio am Grant Trawsnewid i adnewyddu un o'i lyfrgelloedd.

## Casgliad

Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu, gan awgrymu bod Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i gynnig cyrsiau perthnasol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn perfformio'n dda o ran niferoedd benthycwyr gweithredol, benthyciadau, nifer sy'n mynychu digwyddiadau a darpariaeth yn y Gymraeg. Er hynny, mae ymweliadau rhithwir hefyd wedi gostwng. Mae Sir Ddinbych yn bwriadu cynnal arolygon cwsmeriaid yn 2024 a fydd, gobeithio, yn helpu o ran darparu gwybodaeth bellach am ddefnydd cwsmeriaid o wasanaethau llyfrgell a'u disgwyliadau. Er bod gwerthfawrogiad o heriau toriadau cyllidebol, mae'r amser a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddiant staff yn bryder a'r gobaith yw y bydd hwn yn rhywbeth yr eir i'r afael ag ef yn rhan o'r strategaeth llyfrgelloedd newydd.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Sir y Fflint

Caiff gwasanaeth llyfrgell Sir y Fflint ei ddarparu gan Aura Cymru. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Sir y Fflint, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Sir y Fflint yn bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Sir y Fflint yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Sir y Fflint yn perfformio'n dda mewn llawer o feysydd ac mae data ei harolwg diweddar yn dangos bod y gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan gwsmeriaid sydd o'r farn ei fod yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae gan y gwasanaeth ddarpariaeth iechyd a lles gadarn. Yn ogystal, mae cefnogaeth dda ar gyfer hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau. Mae ffigyrau benthyciadau a defnydd yn cynyddu, gyda benthyciadau electronig ac ymweliadau'n codi ar lefel aruthrol. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd y llynedd, mae lefelau staffio yn Sir y Fflint yn bryder, yn arbennig o'u cyfuno â'r gostyngiad a welwyd yn yr amser staff a neilltuwyd i hyfforddiant eleni.

- Mae Sir y Fflint yn perfformio'n dda ym maes Gwneud gwahaniaeth (DA1), Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer pob mesur.
- Mae'r gwasanaeth wedi parhau i ddatblygu ei ddarpariaeth i gefnogi iechyd a lles (DA4) ac mae ei ymdrechion yn y maes hwn wedi'u hadlewyrchu yn ei effaith ar y sgôr iechyd a lles (DA11c).
- Mae Sir y Fflint yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth ac mae cyfanswm y nifer sy'n mynychu 28% yn uwch nag yr oedd yn 2022-23 (DA6).
- Mae benthyciadau i blant a benthyciadau electronig yn uwch na'r canolrif. Mae benthyciadau i blant wedi cynyddu 12% ac mae benthyciadau electronig wedi dyblu bron o'u cymharu â 2022-23 (DA8).
- Mae Sir y Fflint yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth ac mae nifer y benthyciadau yn y Gymraeg wedi cynyddu 16% o'u cymharu â 2022-23 (DA10).

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Sir y Fflint ei bod wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a'r 1 Hawl Graidd sy'n weddill yn rhannol drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad. Mae'r gwasanaeth yn ateb HG12 yn rhannol am nad yw cynllun busnes 10-mlynedd newydd Aura, sy'n cynnwys cyfeiriad strategol a gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau llyfrgell, wedi'i gyhoeddi eto am fod trafodaethau cytundebol terfynol gyda Chyngor Sir y Fflint yn dal ar waith.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir y Fflint yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **ni fodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 96% | 4/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 94% | 4/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | Ni ddarpar-wyd | Dd/B | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir y Fflint ddatganiad effaith a gyfeiriodd at y gwasanaethau mae'n eu darparu i bobl â nam ar eu golwg. Mae'n disgrifio sut y gwahoddwyd aelodau o glwb cymdeithasol i bobl â nam ar eu golwg i gyfarfod â'r tîm Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd. Dangoswyd gwrthrychau cyffyrddadwy i'r aelodau a gwnaethon nhw gymryd rhan mewn gweithdy, gyda staff y llyfrgell yn esbonio’r ystod o adnoddau a oedd ar gael. Daeth pob un yn aelodau o'r llyfrgell, ac mae'r grŵp bellach yn trefnu ymweliadau chwarterol â'r llyfrgell. Hefyd, gwnaeth un person ymuno â'r Gwasanaeth Llyfrgell Gartref ac mae'n derbyn llyfrau llafar a gaiff eu cludo'n rheolaidd. Ymunodd dau arall â'r Cynllun Benthyg Digidol gyda'r naill yn cael trafnidiaeth i ymweld â'r llyfrgell bob wythnos am hyfforddiant 'cyfaill digidol' a'r llall yn prynu llechen drwy'r cynnig 'prynu nôl' i lawrlwytho llyfrau electronig a llyfrau llafar gartref.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir y Fflint ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 74% | 7/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 90% | 1/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 99% | 4/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 94% | =4/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =1/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 93% | 2/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 99% | =3/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.5 | =5/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 31 | =6/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 155 | 7/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 269 | 8/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 714 | 12/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 106 | 15/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 15% | =16/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 30% | 2/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 641 | 10/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[16] | | | | | |
| v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 158 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 957 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £8,495 | 20/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 68% | =9/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 22% | 1/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 3% | =11/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 7% | 18/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

---

[16] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Sir y Fflint yn perfformio'n dda ym maes Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer pob un o'r mesurau. Mae'n sgorio uchaf yn genedlaethol am ofal cwsmeriaid ac effaith ar iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targedau ar gyfer Iechyd a lles yn llawn (DA4) ac yn cynnig rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi iechyd a lles cyffredinol pobl. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau jig-so; grwpiau crefft a sgwrs; sesiynau celf ymwybyddiaeth ofalgar; cwisiau; a grŵp ‘Cynllun canu y gymdeithas Alzheimer's', sy'n cael ei fynychu gan bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr; a dau grŵp hel atgofion: ‘Atgofion Chwaraeon’ a ‘Atgofion Yr Wyddgrug’. Mae cynllun cyfathrebu'n darparu canllawiau clir i staff ac yn sicrhau bod cynnig cyson ar gael ar draws yr holl ganghennau. Mae canghennau'n parhau i weithredu fel hybiau Croeso Cynnes ac maent hefyd yn rhan o gynllun gwyliau 'Ffitrwydd, Bwyd a Darllen' Aura i gefnogi iechyd a lles; hyrwyddo sgiliau llythrennedd; a mynd i'r afael â thlodi bwyd. Mae Sir y Fflint yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol a chymorth anffurfiol i gwsmeriaid am bob pen o'r boblogaeth (DA5). Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau ffurfiol wedi codi fwy na theirgwaith drosodd o'i gymharu â 2022-23 ac mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau anffurfiol i fyny 24%.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir y Fflint yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth ac mae cyfanswm y nifer sy'n mynychu 28% yn uwch nag yr oedd yn 2022-23 (DA6). Ymhlith y digwyddiadau a gweithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae ymweliadau awduron, sesiynau lleferydd a llythrennedd Bablo Babi; sesiynau teuluol Cymraeg i Blant; clybiau ysgrifennu i blant; sesiynau galw heibio gan y gwasanaeth awtistiaeth; sesiynau grwpiau teuluol Babis a Llyfrau; Clybiau Lego; sesiynau STEM rhyngweithiol; a sesiynau stori a dawns.

Fel y llynedd, mae Sir y Fflint ychydig yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth, ond mae nifer yr ymweliadau wedi cynyddu 45% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA8). Er bod y gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth, mae'r ffigur benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 8% o'i gymharu â 2022-23 ac mae 95% o'r aelodau a adroddwyd yn fenthycwyr gweithredol. Mae benthyciadau i blant a benthyciadau electronig yn uwch na'r canolrif. Mae benthyciadau i blant wedi cynyddu 12% ac mae benthyciadau electronig wedi dyblu bron o'u cymharu â 2022-23. Mae nifer y benthyciadau i oedolion yn is na'r canolrif, ond mae wedi cynyddu 9% o flwyddyn i flwyddyn.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Mae Sir y Fflint yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau ac mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA9). Mae'r gwasanaeth hefyd yn y chwartel uchaf am gyfran y gyllideb a wariwyd ar adnoddau electronig. Mae Sir y Fflint yn bodloni'r targed ar gyfer cyfran y gyllideb a wariwyd ar ddeunyddiau yn y

Gymraeg (DA10). Mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth ac mae nifer y benthyciadau yn y Gymraeg wedi cynyddu 16% ers y flwyddyn flaenorol.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Nid yw Sir y Fflint yn bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth ac mae'n is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y ddau fesur (DA13). Mae canran amser staff a neilltuwyd i hyfforddiant wedi gostwng ers 2022-23 ac nid yw Sir y Fflint bellach yn bodloni'r targed hwn. Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth gyd-destunol yn y ffurflen, felly nid yw'n bosibl i'r asesydd annibynnol roi sylw pellach am y rhesymau posibl dros hyn. Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi mwy na dyblu ers 2022-23. Mae Sir y Fflint yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth (DA14). Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'n agos i'r canolrif ar gyfer y mesur hwn DA16). Mae hefyd yn darparu mynediad i rai gwasanaethau yn ystod oriau heb staff.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Sir y Fflint feysydd lle mae ei gweithgareddau'n cefnogi ystod o flaenoriaethau strategol gan gynnwys rhai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r gwasanaeth yn darparu gofodau cyfarfod croesawgar, yn ogystal ag ystod o weithgareddau a digwyddiadau sy'n helpu i ymgysylltu â rhai o'r aelodau mwyaf agored i niwed yn y gymuned. Helpodd ymgysylltu â Sialens Ddarllen yr Haf i gyrraedd llawer o blant a'u teuluoedd, ac mae digwyddiadau eraill wedi hwyluso mynediad i brofiadau diwylliannol a chreadigol. Mae rhaglen Dysgu Cymunedol i Oedolion Sir y Fflint yn darparu cyfleoedd dysgu a ddarperir o lyfrgelloedd, gan gynnwys Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, Ymwybyddiaeth Ofalgar a Sgiliau Cyflogadwyedd. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi digidol drwy ei gynllun benthyg digidol ac mae'n sicrhau bod amrywiaeth ei gymunedau'n cael ei hadlewyrchu yn ei chasgliadau. Yn rhan o'r Rhwydwaith Llyfrgelloedd Gwyrdd, mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i gefnogi mentrau ecolegol.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Sir y Fflint yn adrodd y bydd yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi iechyd a lles; mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol; hyrwyddo darllen er pleser a llesiant; a hyrwyddo manteision posibl y gwasanaeth i fabanod a phobl ifanc.  Gan adlewyrchu anghenion newidiol cwsmeriaid, bydd y gwasanaeth yn datblygu ei gynnig digidol cyffredinol, gan gynnwys y ffordd y caiff adnoddau eu cyrchu a’r ffordd y caiff cymorth ei ddarparu.

## Casgliad

Mae Sir y Fflint yn perfformio'n dda mewn llawer o feysydd ac mae data ei harolwg diweddar yn dangos bod y gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan gwsmeriaid sydd o'r farn ei fod yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae gan y gwasanaeth ddarpariaeth iechyd a lles gadarn. Yn ogystal, mae cefnogaeth dda ar gyfer hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau. Mae ffigyrau benthyciadau a defnydd yn cynyddu, gyda benthyciadau electronig ac ymweliadau'n codi ar lefel aruthrol. Fodd bynnag, fel yr adroddwyd y llynedd, mae lefelau staffio yn Sir y Fflint yn bryder, yn arbennig o'u cyfuno â'r gostyngiad a welwyd yn yr amser staff a neilltuwyd i hyfforddiant eleni.

Er i Sir y Fflint ddarparu sylwebaeth fanwl a chynorthwyol mewn perthynas â'r Hawliau Craidd, mae meysydd lle byddai mwy o gyd-destun wedi bod o gymorth yn y crynodeb ar y Dangosyddion Ansawdd, yn arbennig sylwebaeth lle mae ffigyrau wedi newid yn nodedig o'u cymharu â'r cyflwyniad blaenorol. Bu i hyn gyfyngu ar allu'r asesydd annibynnol i fyfyrio am resymau posibl dros rai newidiadau a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwn.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Gwynedd

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Gwynedd, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Gwynedd yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Gwynedd yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Gwynedd yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd, gan gynnwys benthyciadau, caffaeliadau, darpariaeth yn y Gymraeg a bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi ymestyn yn sylweddol eleni ac mae'r adborth yn dangos bod ymateb da iddynt. Mae’r nifer sy’n mynychu digwyddiadau hefyd yn adfer yn gadarn, ac mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o weithgareddau. Fodd bynnag, o ystyried y sgôr cymharol isel a roddwyd gan blant a phobl ifanc (DA2e) a'r ffaith bod Sialens Ddarllen yr Haf yn cael ei dileu o 2024, gallai fod yn werthfawr i'r gwasanaeth adolygu ei ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys ymgynghori â'r grŵp defnyddwyr hwn dros y flwyddyn sydd i ddod i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni eu hanghenion.

- Mae Gwynedd yn perfformio'n dda ym maes Gwneud gwahaniaeth, ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau'r arolwg (DA1).
- Mae ymateb da i hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid, a dywedodd pob un o'r bobl a fynychodd ac a atebodd yr arolwg eu bod wedi cyflawni eu hamcanion drwy fynychu (DA5).
- Mae’r nifer sy’n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu mwy na theirgwaith drosodd o'u cymharu â 2022-23 ac mae bellach ychydig yn is na’r canolrif awdurdodau llyfrgell Cymru (DA6).
- Mae Gwynedd yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell am gyfran y gyllideb a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg ac am nifer y benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth (DA10).
- Er gwaethaf torri oriau gwasanaeth yn ystod 2023-24, mae Gwynedd yn parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA16).

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Gwynedd ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Gwynedd yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **ni ddarparwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 94% | =6/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 88% | 9/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 100% | =1/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Gwynedd ddatganiad effaith a gyfeiriodd at waith partneriaeth a gyllidwyd drwy grantiau gan ddarparwyr sydd â'r nod o ddenu trigolion lleol i ddysgu a hyfforddiant. Mae diffyg hyder ac iechyd meddwl gwael wedi'u hadnabod fel rhwystrau i bobl rhag dilyn cyrsiau ffurfiol a fydd yn arwain at gymwysterau pellach a gwaith. O ganlyniad, mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai i gynnig cyrsiau anffurfiol fel cam tuag at ddysgu mwy ffurfiol. Un enghraifft yw'r cyrsiau ymwybyddiaeth ofalgar dros ddeg wythnos sydd wedi'u cynnal yn Llyfrgell Caernarfon. Mae'r llyfrgell yn darparu lleoliad cyfleus, croesawgar a chanolog, ac mae'r cyrsiau wedi bod yn boblogaidd ac wedi cyfrannu at les y bobl sydd wedi'u mynychu. Dywedodd un: *"Gwnes i fwynhau'r sesiynau i gyd. Gwnaeth y cwrs cyfan wneud i mi deimlo'n well ynof fi fy hun."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Gwynedd ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 90% | =1/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 76% | 4/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 98% | =6/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 93% | =6/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =1/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 94% | 1/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 100% | =1/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 8.0 | 15/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 4 | 17/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | Ni ddarparwyd | DD/B | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 197 | 12/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 867 | 9/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 140 | 7/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 17% | =10/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 4% | 22/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 996 | 5/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[17] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 0 | DD/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 0 | DD/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £18,904 | 3/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 51% | 21/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 15% | 5/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 3% | =11/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 31% | =2/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

---

[17] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Gwynedd yn perfformio'n dda ym maes Gwneud gwahaniaeth (DA1), ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer y rhan fwyaf o fesurau'r arolwg. Mae'r gwasanaeth hefyd yn perfformio'n dda mewn perthynas â Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer pob mesur, ac eithrio'r sgôr allan o 10 gan blant a phobl ifanc. O ystyried bod hyn yn is nag y gellid ei ddisgwyl o ystyried gweddill yr ymatebion, mae'n rhywbeth y gallai'r gwasanaeth ddymuno edrych arno'n fanylach mewn arolygon yn y dyfodol. Er bod y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru, mae'r nifer sy'n mynychu wedi codi 153% o'i gymharu â 2022-23 a nodir nad yw darpariaeth trydydd parti wedi'i chynnwys yn y cyfanswm. Mae ymateb da i hyfforddiant, a dywedodd 100% o'r bobl a fynychodd ac a atebodd yr arolwg eu bod wedi cyflawni eu diben drwy fynychu. Nid yw Gwynedd yn cofnodi darpariaeth cymorth anffurfiol ar hyn o bryd.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu mwy na theirgwaith drosodd o'i gymharu â 2022-23 ac mae bellach ychydig yn is na'r canolrif awdurdodau llyfrgell Cymru (DA6). Ymhlith y digwyddiadau mae sesiynau Lego BricQ; Clwb Creu; sesiynau gwyddbwyll i ddynion; Croeso Cynnes; sesiynau rhigwm a chân; a sesiynau Coffi a Sgwrs i gyflwyno gweithiau llenyddol i bobl sy'n dysgu Cymraeg. Yn 2023-24, cynhaliodd Llyfrgell Gwynedd ystod o weithgareddau gwyliau'n rhan o Sialens Ddarllen yr Haf, felly mae'n anffodus bod Sialens Ddarllen yr Haf yn cael ei thorri yn rhan o gynllun arbedion y Cyngor o 2024, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet. Mae dileu cyllid ar gyfer Sialens Ddarllen yr Haf yn debygol o gael effaith ar ffigyrau ymwelwyr a benthyciadau dros yr haf ac mae hyn yn rhywbeth y dylai'r gwasanaeth llyfrgell ei fonitro.

Mae ymweliadau rhithwir a benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ac ychydig o newid a welwyd yn hyn o beth ers y llynedd (DA8). Mae benthyciadau llyfrau i oedolion a llyfrau i blant yn uwch na'r canolrif ac ychydig o newid a welwyd yma hefyd o'u cymharu â 2022-23. Mae benthyciadau electronig hefyd yn uwch na'r canolrif, ond yn wahanol i fenthyciadau ffisegol, mae'r rhain ar gynnydd, ac wedi codi 31% o'u cymharu â 2022-23.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Mae Gwynedd yn bodloni'r targed ar gyfer cyfradd y caffaeliadau ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn. Er bod cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau i blant oddeutu'r canolrif, Gwynedd sydd â'r gwariant uchaf am bob pen o'r boblogaeth o dan 16 oed. Fodd bynnag, y gwasanaeth yw'r isaf yng Nghymru o ran canran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau electronig (DA9). Mae Gwynedd yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell am gyfran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau yn y Gymraeg ac am nifer y benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth (DA10). Mae benthyciadau yn y Gymraeg wedi cynyddu 23% o'u cymharu â 2022-23. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cydweithio gyda Chymdeithas Pobl Ddall Gogledd

Cymru i ddarparu llyfrau llafar yn y Gymraeg i oedolion a phlant. Mae dros 90% o weithgareddau llyfrgell yn bennaf yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Nid yw Gwynedd yn bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na chyfanswm y staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth. Mae'r cyfanswm ffigur staffio wedi gostwng 0.9 CALl eleni ac mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod yn wynebu toriadau pellach a fydd yn effeithio ar oriau staffio. Fodd bynnag, mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am gyfanswm y staff a staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth (DA13). Mae Gwynedd yn adrodd nad oes ganddo unrhyw ffordd ffurfiol o gofnodi oriau staff a dreuliwyd yn hyfforddi nac ar ddatblygiad personol. Mae'r gwasanaeth yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am gyfanswm y gwariant am bob pen o'r boblogaeth (DA14). Mae Gwynedd yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, ac mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn. Mae ganddo hefyd gyfran fach o oriau agor heb staff (DA16). Mae cyfanswm yr oriau agor wedi gostwng 3% eleni. Yn ogystal, mae oriau agor llyfrgelloedd Nefyn a Bangor wedi'u diwygio eleni yn dilyn ymgynghori â defnyddwyr.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Gwynedd nifer o ffyrdd mae'n cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn arbennig rhai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae rhwydwaith llyfrgelloedd Gwynedd yn cynnig mynediad i ddeunyddiau a digwyddiadau sy'n cefnogi gofynion darllen er pleser ymysg oedolion a phlant yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi anghenion gwybodaeth defnyddwyr ym maes iechyd a lles drwy ei gasgliadau Darllen yn Well. Mae Gwynedd wedi ymrwymo i weithio mewn modd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, gan gynnwys lleihau siacedi plastig ar lyfrau oedolion. Cynigir sesiynau cymorth digidol i helpu i roi hwb i sgiliau digidol a lleihau tlodi digidol. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi, mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi bod yn gweithio gydag Uned Cynhwysiad a Threchu Tlodi Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i roi cardiau SIM am ddim i gleientiaid, ac mae pecynnau bwyd wedi'u dosbarthu gan y banc bwyd drwy lyfrgelloedd Dolgellau a Phorthmadog. Mae'r gwasanaeth yn darparu ystod o ddeunyddiau a gweithgareddau i gefnogi dysgu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth i gefnogi darparu addysg i oedolion yn ei gymunedau. Fel arweinydd y prosiect System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan (LMS), mae Gwynedd yn ymgymryd â gwaith ar y cyd ar lefel genedlaethol yn cefnogi nod Strategaeth Ddigidol Cymru.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Gwynedd yn adrodd ei fod

wedi gosod ei weledigaeth yn y Cynllun Llyfrgelloedd, 'Llyfrgelloedd Llawn Bywyd', sy'n rhychwantu'r cyfnod 2023-28. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod y cyfnod yn un heriol lle y bydd yn canolbwyntio ar y meysydd Darllen, Iechyd a Lles, Y Gymraeg a Diwylliant Cymru a Gwybodaeth a Digidol. Gwynedd yw'r Awdurdod Arweiniol ar gyfer cyflwyno Consortiwm LMS Cymru, ac mae'n adrodd y bydd ffocws ar reoli hynny yn y flwyddyn sydd i ddod. Yn unol â chynllun arbedion y Cyngor, bydd asesiad gwasanaeth yn cael ei gynnal. Ar yr adeg hon, mae'r canlyniad a'r goblygiadau'n anhysbys, ond mae'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd datrysiadau technolegol yn un opsiwn o ran darparu gwasanaethau.

## Casgliad

Mae Gwynedd yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd, gan gynnwys benthyciadau, caffaeliadau, darpariaeth yn y Gymraeg a bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi ymestyn yn sylweddol eleni ac mae'r adborth yn dangos bod ymateb da iddynt. Mae’r nifer sy’n mynychu digwyddiadau hefyd yn adfer yn gadarn, ac mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o weithgareddau. Fodd bynnag, o ystyried y sgôr cymharol isel a roddwyd gan blant a phobl ifanc (DA2e) a'r ffaith bod Sialens Ddarllen yr Haf yn cael ei dileu o 2024, gallai fod yn werthfawr i'r gwasanaeth adolygu ei ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys ymgynghori â'r grŵp defnyddwyr hwn dros y flwyddyn sydd i ddod i sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni eu hanghenion.

Mae'n gadarnhaol bod Gwynedd wedi darparu set ddata lawnach eleni, gan ganiatáu i'r asesydd annibynnol lunio asesiad mwy cynhwysfawr. Fodd bynnag, byddai o gymorth pe gallai'r gwasanaeth gyflwyno systemau i gasglu data sydd ar goll, yn arbennig mewn perthynas â hyfforddiant staff a chymorth anffurfiol, fel y nodir uchod.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-2024 Ynys Môn

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Ynys Môn, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Ynys Môn yn bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a 2 yn rhannol. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Ynys Môn yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Ynys Môn yn parhau i berfformio'n dda mewn sawl maes, gan gynnwys lefel y caffaeliadau, ymweliadau rhithwir a darpariaeth yn y Gymraeg. Mae staff ym Môn yn amlwg wedi ymdrechu'n fawr i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau eleni. Yng ngoleuni hyn, mae'n bwysig myfyrio ar resymau posibl dros y gostyngiad i lefelau mynychu. Er mwyn helpu gyda'r cwestiwn hwn, mae'n bwysig i Ynys Môn flaenoriaethu cynnal arolygon defnyddwyr yn ystod 2024-25 am fod sawl blwyddyn wedi mynd heibio erbyn hyn ers i'r rhain gael eu cynnal ddiwethaf. Mae'r asesydd annibynnol yn cydnabod bod y gwasanaeth wedi cael trafferthion mewn rhai meysydd eleni oherwydd pwysau staffio, yn arbennig, y ffaith bod gan y gwasanaeth nifer o swyddi gwag. Er bod hyn yn bryder, mae'n galonogol bod recriwtio ar waith bellach i un swydd broffesiynol a bod y gwasanaeth yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygu staff.

- Mae Ynys Môn yn y chwartel uchaf o awdurdodau llyfrgell Cymru am gaffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r ffigur hwn yn dangos cynnydd o'i gymharu â 2022-23 (DA9).
- Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd o 38% yn y benthyciadau electronig o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA9).
- Mae benthyciadau yn y Gymraeg wedi cynyddu 10% o'u cymharu â 2022-23 (DA10).
- Er gwaethaf heriau staffio eleni, mae Ynys Môn yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygu staff, ac mae yn y chwartel uchaf o'r gwasanaethau'n genedlaethol am gyfran amser staff a neilltuir i hyfforddiant (DA13).
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a hyfforddiant yn gymharol isel ac nid yw'n ymddangos fel eu bod yn adfer yn dilyn Covid i'r un graddau ag a welir yn y rhan fwyaf o awdurdodau llyfrgell (DA5&6).

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Ynys Môn ei fod wedi bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a'r2 Hawl Graidd sy'n weddill yn rhannol drwy hunanasesu. Darparodd y gwasanaeth sylwebaeth fanwl a chynorthwyol yn y ffurflen. Ar sail hyn, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

Nid yw Ynys Môn wedi cynnal arolwg defnyddwyr yn y blynyddoedd diwethaf ac nid yw ei fwriad i gynnal un yn 2023-24 wedi dwyn ffrwyth. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod hyn yn bennaf oherwydd anawsterau staffio. Adroddir bod HG11 wedi'i bodloni'n rhannol am fod ymgynghori'n llywio darpariaeth y gwasanaeth, er enghraifft, newidiadau i wasanaethau teithiol. Mewn perthynas â HG12, mae Ynys Môn yn adrodd bod Strategaeth a Pholisïau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi'u hadolygu a'u diweddaru yn ystod 2023-24, ond nad yw'r rhain ar gael ar-lein eto.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Ynys Môn yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles **bodlonwyd yn llawn ▲**
- i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
- ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
- iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
- iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA10 Adnoddau yn y Gymraeg
% o'r gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
- i) Staff y pen, **ni fodlonwyd**
- ii) Staff cymwysedig y pen, **ni fodlonwyd**
- iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
- iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o’r farn bod defnyddio’r llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 68% | 93.5% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y rheini a fynychodd sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod mynychu wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 86% | 16/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Ynys Môn ddatganiad effaith a amlygodd werth y clybiau crefftau misol yn llyfrgelloedd Caergybi a Llangefni. Mae'r clybiau'n helpu'r llyfrgell i hyrwyddo'i gwasanaethau a helpu cyfranogwyr i feithrin creadigrwydd, gan wella rhyngweithio cymdeithasol, cefnogi lles meddyliol a hybu ymgysylltiad cymunedol. Mae'r clybiau wedi amlygu rôl llyfrgelloedd fel lleoliadau cymunedol sy'n mynd y tu hwnt i roi benthyg llyfrau. Mae cyfranogwyr unigol wedi adrodd am welliannau fel lefelau is o straen a gwell hwyliau ar ôl mynychu'r clybiau. Mae'r clybiau wedi helpu i gryfhau cysylltiadau cymunedol, yn ogystal â niferoedd ymwelwyr ac ymgysylltiad â'r llyfrgell.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Ynys Môn ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | Ni ddarparwyd | Dd/B | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | Ni ddarparwyd | Dd/B | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | Ni ddarparwyd | Dd/B | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | Ni ddarparwyd | Dd/B | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | Ni ddarparwyd | Dd/B | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | Ni ddarparwyd | Dd/B | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | Ni ddarparwyd | Dd/B | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | Ni ddarparwyd | Dd/B | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 2 | =18/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 12 | 18/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 101 | 19/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 2,470 | 3/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 116 | 14/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau i blant | 26% | 1/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau electronig | 27% | 3/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 611 | 13/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[18] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 0 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 0 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £12,701 | 10/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 67% | =11/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 12% | =6/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 3% | =11/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 19% | 9/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer Iechyd a lles (DA4) yn llawn, gan adrodd bod amser staff ac adnoddau sylweddol yn cael eu cyfrannu yn y maes hwn. Fodd bynnag, nid yw Ynys Môn yn perfformio'n gadarn mewn perthynas â mesurau cymorth i ddefnyddwyr (DA5); mae yn y chwartel gwaelod o awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol, er y cydnabyddir bod niferoedd mynychu wedi cynyddu 13% o'u cymharu â 2022-23. Yn y ffurflen, mae Ynys Môn yn adrodd bod sesiynau hyfforddiant i ddefnyddwyr sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw wedi gostwng yn sylweddol o'u cymharu â'r blynyddoedd cyn y pandemig, oherwydd diffyg galw a hefyd oherwydd symud i ganolbwyntio'n fwy ar ddigwyddiadau a gweithgareddau. Mae Ynys Môn hefyd yn y chwartel gwaelod am ganran y defnyddwyr a gyflawnodd eu diben drwy fynychu sesiynau hyfforddi. Mae staff yn adrodd bod y galw am gymorth anffurfiol, yn arbennig gyda chwblhau ffurflenni ar-lein, sganio dogfennau a chwilio am swyddi, yn parhau i gynyddu. Er bod y nifer sy'n mynychu cymorth anffurfiol wedi cynyddu 10% o'i gymharu â 2022-23, Ynys Môn sy’n darparu’r lefel cymorth anffurfiol isaf am bob pen o’r boblogaeth yn genedlaethol. Nid yw Ynys Môn wedi cynnal arolwg defnyddwyr (DA1 a DA2) yn y blynyddoedd diwethaf ac nid yw ei fwriad i gynnal un yn 2023-24 wedi dwyn ffrwyth oherwydd anawsterau staffio.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Caiff y wefan llyfrgelloedd ei defnyddio'n dda ac mae Ynys Môn yn y chwartel uchaf ar gyfer ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth (DA8). Mae'r gwasanaeth hefyd yn adrodd bod Facebook wedi bod yn ffocws yn y cyfnod hwn, lle gwelwyd cynnydd yn y postiadau ac, o ganlyniad, yn y ffigyrau ymgysylltu. Mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 9% o'u cymharu â 2022-23, er bod Ynys Môn

[18] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

ychydig yn is na'r canolrif ar gyfer benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth. Mae benthyciadau llyfrau i oedolion wedi gostwng 5%, er bod Ynys Môn yn agos i'r canolrif ar gyfer y mesur hwn. Mae benthyciadau llyfrau i blant hefyd yn agos i'r canolrif ac yn sefydlog o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd nodedig yn y benthyciadau electronig am fod y rhain 38% yn uwch o'u cymharu â 2022-23. Mae'r gwasanaeth yn priodoli hyn, yn rhannol, i'r ffaith bod copïau ychwanegol wedi'u prynu y tu allan i gonsortiwm Caffael Cymru Gyfan, mewn ymgais i leihau amseroedd aros. Gwelwyd cynnydd o 76% mewn e-gylchgronau.

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi gostwng 16% o'i gymharu â 2022-23, sy’n mynd yn groes i'r duedd genedlaethol, ac mae Ynys Môn yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y gwasanaeth wedi adrodd bod digwyddiadau a gweithgareddau wedi bod yn flaenoriaeth eleni. Ymhlith y digwyddiadau a gweithgareddau mae: sesiynau Ymwelwyr Iechyd, sesiynau Paned a Sgwrs, Rhannu Rhigwm, *Brownies*, gweithdai ysgrifennu creadigol, sesiynau crefftau a digwyddiadau Diwrnod Llyfr y Byd.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Mae Ynys Môn yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am gaffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r ffigur hwn yn dangos cynnydd o'i gymharu â 2022-23 (DA9). Mae hefyd gan y gwasanaeth y gyfran uchaf yn genedlaethol a ddyrannwyd i adnoddau i blant, ac mae yn y chwartel uchaf yn genedlaethol o ran canran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau electronig. Y gwasanaeth yw'r awdurdod cydradd uchaf yn genedlaethol am y gyfran o'r gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau yn y Gymraeg ac mae’n bodloni'r targed hwn yn hawdd. Fel gwasanaeth llyfrgell â phoblogaeth fawr o siaradwyr Cymraeg, mae Ynys Môn yn prynu llawer o gopïau o’r holl deitlau sydd ar gael. Yn ogystal, mae benthyciadau adnoddau yn y Gymraeg wedi cynyddu 10% o'u cymharu â 2022-23 (DA10).

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn parhau'n is na safon y cyfanswm lefel staffio (hyd yn oed gyda’r swyddi gwag wedi'u cynnwys). Mae hefyd yn is na'r targed ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, er ei bod yn galonogol bod camau i recriwtio i'r swydd broffesiynol wag CALl yn ystod Mai/Mehefin 2024. Mae hefyd yn gadarnhaol, er gwaethaf yr anawsterau staffio eleni, bod Ynys Môn yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygu staff, ac mae yn chwartel uchaf y gwasanaethau'n genedlaethol am gyfran yr amser staff a neilltuir i hyfforddiant (DA13). Fodd bynnag, nid oedd y gwasanaeth yn gallu cynnig cyfleoedd gwirfoddoli eleni oherwydd cyfyngiadau staffio. Mae Ynys Môn yn agos i'r canolrif ar gyfer gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth (DA14). Mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r targed oriau agor ac mae'n uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn (DA16). Mae'r rhan fwyaf o lwybrau llyfrgelloedd teithiol wedi'u hadolygu yn unol ag anghenion cwsmeriaid a'r gymuned, ond mae nifer yr oriau agor/cyswllt wedi parhau'r un peth.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Ynys Môn ystod o feysydd lle mae'n cyfrannu at y blaenoriaethau hyn; ymhlith yr enghreifftiau mae:

- **Dysgu** e.e. mae Addysg yn y Gymuned i Oedolion a'r gwasanaeth llyfrgell i ysgolion yn rhan o'r gwasanaeth ac yn cefnogi dysgu anffurfiol a ffurfiol fel ei gilydd drwy gydol y camau bywyd.
- **Darllen a llythrennedd** e.e. darparu mynediad i ystod eang o adnoddau i blant, pobl ifanc ac oedolion; mae sesiynau mewn sgiliau sylfaenol yn helpu oedolion â lefelau llythrennedd isel.
- **Lles cymunedol** e.e. cynnig lle niwtral yn y gymuned, ar ffurf ffisegol a rhithwir a chynorthwyo sefydliadau trydydd sector a phartneriaid eraill i hyrwyddo'u gwasanaethau i'r cyhoedd.
- **Sgiliau ac adfywio economaidd** e.e. darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a'r gweithlu, darparu gwybodaeth fusnes, cyfrannu at annog niferoedd ymwelwyr yn yr ardal leol a chefnogi datblygu sgiliau, yn arbennig ym maes cynhwysiant digidol a llythrennedd digidol.
- **Cynhwysiant a chyfranogiad digidol** e.e. cynnig ystod o adnoddau digidol, mynediad i'r rhyngrwyd am ddim, cymorth wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy e-bost, cyrsiau TG ar-lein a sesiynau un i un.
- **Iechyd a lles** e.e. gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol i ddarparu Darllen yn Well; darparu ystod eang o wybodaeth iechyd a lles gan gynnwys casgliadau arbennig ar gyfer pobl sy'n byw â dementia; hwyluso grwpiau darllen therapiwtig a grwpiau darllen ar goedd; a darparu Gwasanaeth Llyfrgell i Bobl sy'n Gaeth i'w Cartref.
- **Hunaniaeth ddiwylliannol** e.e. darparu casgliad hanes lleol helaeth, darparu adnoddau yn y Gymraeg a hwyluso grwpiau darllen i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.
- **Tlodi** e.e. darparu mynediad am ddim i adnoddau, TG, y rhyngrwyd, cyrsiau sgiliau digidol a chynnig Gofod Cynnes drwy fisoedd y gaeaf.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Ynys Môn yn nodi bod hwn yn gyfnod o ansicrwydd gyda galw cynyddol am wasanaethau hanfodol y Cyngor. Wrth symud ymlaen, mae'r gwasanaeth yn adrodd mai ei nod yw cefnogi cyngor Ynys Môn gyda'i flaenoriaethau, gan gynnwys: yr iaith Gymraeg; gofal cymdeithasol a lles; addysg; tai; yr economi; a newid hinsawdd.

## Casgliad

Mae Ynys Môn yn parhau i berfformio'n dda mewn sawl maes, gan gynnwys lefel y caffaeliadau, ymweliadau rhithwir a darpariaeth yn y Gymraeg. Mae staff ym Môn yn amlwg wedi ymdrechu'n fawr i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau eleni. Yng ngoleuni hyn, mae'n bwysig myfyrio ar resymau posibl dros y gostyngiad i lefelau mynychu. Er mwyn helpu i ateb y cwestiwn hwn, mae'n bwysig i Ynys Môn flaenoriaethu cynnal arolygon defnyddwyr yn ystod 2024-25 am fod sawl blwyddyn wedi mynd heibio erbyn hyn ers i'r rhain gael eu cynnal ddiwethaf. Mae'r asesydd annibynnol yn cydnabod bod y gwasanaeth wedi cael trafferthion mewn rhai meysydd eleni oherwydd pwysau staffio, yn arbennig, y ffaith bod gan y gwasanaeth nifer o swyddi gwag. Er bod hyn yn bryder, mae'n galonogol bod recriwtio ar waith bellach i un swydd broffesiynol a bod y gwasanaeth yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygu staff.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Merthyr Tudful

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Merthyr Tudful, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Adroddodd Merthyr Tudful ei fod wedi bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a 2 yn rhannol drwy hunanasesu. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 10 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a 2 yn rhannol, gydag 1 Hawl Graidd heb ei bodloni. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Merthyr Tudful yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol, gyda'r 2 ddangosydd sy'n weddill heb eu bodloni.

Mae sefyllfa Llyfrgelloedd Merthyr Tudful o bryder difrifol. Mae pwysigrwydd y gwasanaeth llyfrgell i gymunedau lleol a gwerth y cymorth y mae staff llyfrgell yn ei gynnig i'w gwsmeriaid wedi'i nodi, a'i ganmol, mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad mewn cyllid eleni, a newid o ran llywodraethiant, wedi cael effeithiau difrifol anochel ar staffio, oriau agor a darpariaeth adnoddau. Mae'r ffaith bod y gwasanaeth ond yn bodloni Hawliau Craidd 2 a 5 yn rhannol o bryder arbennig. Yn ddiau mae staff yn gwneud eu gorau mewn sefyllfa heriol, ond bydd gostyngiad o 30% mewn staffio ac oriau agor, ynghyd â thoriad drastig i nifer yr adnoddau a brynir am bob pen o'r boblogaeth, yn arwain yn anochel at ddirywiad yn y gwasanaeth a gynigir i gymunedau lleol. Ychydig o fanylion a roddir yn y ffurflen am gynlluniau ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth at y dyfodol. Fodd bynnag, os yw bodlonrwydd cwsmeriaid a chefnogaeth i'r gwasanaeth llyfrgell yn gostwng o ganlyniad i'r toriadau hyn, gallai gymryd blynyddoedd lawer i adfer.

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, collodd y gwasanaeth sawl aelod profiadol a gwybodus o staff, gan gynnwys un o'r ddau lyfrgellydd cymwysedig. O waelodlin a oedd eisoes yn isel yn 2022-23, mae cyfanswm y staffio wedi gostwng draean bron ac mae Merthyr Tudful felly yn methu â bodloni targedau am gyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth a staff cymwysedig am bob pen o’r boblogaeth (DA13).
- Arweiniodd y gostyngiad yn y staff llyfrgell a oedd ar gael at ostyngiad o 30% yn amserau agor llyfrgelloedd ac nid yw'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth bellach yn cael ei fodloni (DA16).
- Nid yw Llyfrgelloedd Merthyr Tudful bellach yn bodloni'r targed ar gyfer Deunydd darllen cyfoes a phriodol ac mae bellach yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA9).

- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau (a oedd yn gryfder i Ferthyr Tudful yn y gorffennol) hefyd wedi'i ostwng yn ddifrifol wrth i staffio ostwng yn ddramatig (DA6)
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i ymdrechu i gefnogi darpariaeth yn y Gymraeg. Mae Merthyr Tudful yn bodloni'r targed ar gyfer canran y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg (DA10).

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Merthyr Tudful ei fod wedi bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a'r 2 Hawl Graidd sy'n weddill yn rhannol drwy hunanasesu. Darparodd y gwasanaeth sylwebaeth fanwl a chynorthwyol yn y ffurflen. Ar sail hyn, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 10 Hawl Graidd yn llawn a 2 yn rhannol. Nid yw'r Hawl Graidd sy'n weddill wedi'i bodloni.

1. **Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn** ▲

2. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn rhannol
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol** ■
   Mae hyn oherwydd y gostyngiad mewn staff cymwysedig a chyfanswm y staff.

3. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden, a darllen er pleser.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn** ▲

4. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn** ▲

5. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn.

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
Mae hyn oherwydd y gostyngiad drastig yn yr oriau agor a adroddwyd.

6. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

7. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

8. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

9. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

10. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

11. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

12. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisïau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn rhannol
Asesydd Annibynnol: **Ni fodlonwyd ●**

Mae hyn oherwydd bod y strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ac nid oes gan y gwasanaeth wefan weithredol ar hyn o bryd i sicrhau bod dogfennau ar gael yn gyhoeddus.

**13. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Merthyr Tudful yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd y 2 DA gyda thargedau sy'n weddill.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **ni fodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u

seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 50% | 15/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Merthyr Tudful ddatganiad effaith a ganolbwyntiodd ar Grŵp Celf Weledol Dowlais sy'n galluogi aelodau i gysylltu'n gymdeithasol a goresgyn ynysigrwydd drwy archwilio celf. Ar ôl i gyllid y grŵp gael ei dynnu'n ôl, cynigiodd Llyfrgell Dowlais le i'r grŵp gyfarfod lle darparodd staff gymorth gyda sawl prosiect celf greadigol a phrosiect Ail-ddweud Stori'r Cymoedd. Mae prosiect Ail-ddweud Stori'r Cymoedd yn waith ar y cyd rhwng Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa Cyfarthfa. Roedd yn golygu archwilio amrywiol baentiadau a gweithiau celf gyda pherthnasedd i'r ardal leol, a phenllanw hyn oedd y grŵp yn cynnal diwrnod agored yn Llyfrgell Dowlais yn rhan o Fis Hanes Lleol. Yn dilyn prosiect Ail-ddweud Stori'r Cymoedd, mae'r grŵp wedi sefydlu eu tudalen eu hunain ar Gasgliad y Werin Cymru ac wedi postio hanes y grŵp gyda lluniau o waith yr aelodau. Mae gwaith celf a gynhyrchwyd gan y grŵp wedi'i ychwanegu at y casgliad yn Amgueddfa Cymru lle mae'r grŵp wedi cyfrannu at arddangosfa o bwys. Wedi magu mwy o hyder, mae Grŵp Celf Weledol Dowlais bellach yn troi'n grŵp â chyfansoddiad cyfreithiol sy'n gallu ymgeisio am gyllid dros ei hun.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Merthyr Tudful ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 50% | 15/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 52% | 11/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 90% | 16/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 56% | 16/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 86% | 16/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 47% | 15/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 74% | 15/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | Ni ddarparwyd | Dd/B | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | Ni ddarparwyd | Dd/B | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | Ni ddarparwyd | Dd/B | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 3 | 22/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | Ni ddarparwyd | Dd/B | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 57 | 22/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 13% | 19/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 17% | 9/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 161 | 22/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[19] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 3 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 50 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £9,524 | 18/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 60% | 18/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 16% | 4/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 2% | =16/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 22% | 8/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, mae problemau ariannol prif sefydliad y gwasanaeth llyfrgell, LlesMerthyr, wedi cael effaith ar allu'r llyfrgell i brynu, gan effeithio ar nifer ac ystod y llyfrau a brynwyd. Roedd diffyg cyllid hefyd yn golygu bod cyfarpar TG sy'n heneiddio wedi hen angen cael ei adnewyddu. At hynny, yn dilyn y gostyngiad mewn staffio ym mis Medi 2023, gadawodd nifer sylweddol o staff hyfforddedig a phrofiadol y gwasanaeth llyfrgell. Yn yr amgylchiadau hyn, nid yw'n syndod bod Merthyr Tudful yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru am bob mesur Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2) a mwyafrif y mesurau Gwneud gwahaniaeth (DA1). Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n agos at y canolrif ar gyfer yr elfen iechyd a lles (DA1c), gan adlewyrchu ei gryfder o ran cefnogi lles y gymuned a nodwyd yn Adroddiad Asesu Blynyddol 2022-23. Treialodd Merthyr Tudful arolwg ar-lein i gwsmeriaid yn ystod 2024 fel ffordd o gyrraedd pobl nad ydynt yn defnyddio'r llyfrgell. Fodd bynnag, ymateb siomedig a gafwyd i hyn. Mae'r gwasanaeth felly'n bwriadu ailgynnal yr arolwg yn 2025, gan gyfuno ffurfiau digidol a thraddodiadol i'r arolwg. Cynhelir yr arolwg gyda phlant a phobl ifanc hefyd yn 2025.

Mae Merthyr Tudful yn bodloni'r targedau ar gyfer Cymorth ar iechyd a lles (DA4) yn llawn. Ni adroddwyd unrhyw ddata ar gyfer DA5 ac mae'r gwasanaeth yn nodi bod y gostyngiad mewn staff llyfrgell wedi cael effaith andwyol ar amser staff o ran trefnu, hyrwyddo a chynnal sesiynau hyfforddiant ffurfiol, sy'n golygu ei fod yn dibynnu fwyfwy ar bartneriaid fel Addysg Oedolion, ValleySteps a DeCymru i ddarparu hyfforddiant.

[19] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae holl Lyfrgelloedd Merthyr Tudful yn trefnu ac yn cynnal grwpiau darllen, amser stori (yn Saesneg ac yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg) a sesiynau Gweu a Sgwrs yn rheolaidd. Mae grwpiau ysgrifennu creadigol a chelf hefyd mewn llyfrgelloedd penodol. Mae sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar a lles, a gwersi Cymraeg, yn cael eu cynnig gan sefydliadau partner mewn rhai llyfrgelloedd. Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae sesiynau stori a chrefft a digwyddiadau arbennig i hyrwyddo Sialens Ddarllen yr Haf. Fodd bynnag, mae’r gostyngiad mewn oriau agor wedi arwain at ostyngiad mewn digwyddiadau ers y llynedd ac mae hyn wedi effeithio ar sesiynau gwyliau ysgol yn arbennig. Llyfrgelloedd Merthyr Tudful sydd â'r nifer isaf bellach yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol, ac mae cyfanswm y nifer sy'n mynychu digwyddiadau yn llai na 2% o'r ffigur a adroddwyd yn y flwyddyn adrodd flaenorol. Serch hynny, mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer DA6 drwy gynnig digwyddiadau/gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig ym mhob cangen.

Mae Llyfrgelloedd Merthyr Tudful yn bodloni'r targed ar gyfer Lleoliad mannau gwasanaeth (DA7). Fodd bynnag, y gwasanaeth sydd â'r nifer isaf o fenthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol, ac mae hyn wedi gostwng 15% o'i gymharu â 2022-23 (DA8). Mae benthyciadau llyfrau i oedolion, benthyciadau llyfrau i blant a benthyciadau llyfrau electronig yn y chwartel gwaelod o'u cymharu ag awdurdodau eraill, er bod benthyciadau clyweledol yn uwch na'r canolrif. Mae benthyciadau llyfrau i oedolion wedi gostwng 53% o'u cymharu â 2022-23, tra bod benthyciadau llyfrau i blant wedi gostwng 46%. Mae benthyciadau electronig wedi parhau'n sefydlog. Ni adroddwyd am ymweliadau rhithwir am nad oes gan y gwasanaeth wefan weithredol ar hyn o bryd.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Nid yw Llyfrgelloedd Merthyr Tudful yn bodloni'r targed bellach ar gyfer Deunydd darllen cyfoes a phriodol (DA9) ac mae bellach yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod LlesMerthyr wedi wynebu pwysau ariannol difrifol yn ystod 2023-24, a chyfarwyddwyd rheolwyr llyfrgell i atal prynu ar adegau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Pan ganiatawyd prynu, y cyfarwyddyd oedd i brynu deunyddiau 'angenrheidiol' yn unig. Mae canran y gwariant ar adnoddau electronig yn uwch na'r canolrif, ond mae canran y gwariant ar adnoddau sy'n mynd tuag at adnoddau i blant wedi gostwng o 20% i 13%.

Mae Llyfrgelloedd Merthyr Tudful yn bodloni'r targed ar gyfer canran y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg (DA10). Mae'r gwasanaeth yn parhau i ymdrechu i gefnogi darpariaeth yn y Gymraeg. Mae rhai staff sy'n siarad Cymraeg yn cynnal gweithgareddau, ac mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn rôl Cynorthwyydd Cymorth newydd i alluogi'r mwyafrif o'r gweithgareddau i gael eu cyflwyno'n ddwyieithog. Mae gan y gwasanaeth llyfrgell bartneriaeth agos hefyd gyda'r Ganolfan Gymraeg leol. Serch hynny, mae benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i wywo; y rhain yw'r isaf yn genedlaethol ac maent wedi gostwng 7% ers 2022-23.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Am fod LlesMerthyr wedi mynd i law'r derbynnydd, mae cyfrifoldeb dros y gwasanaeth llyfrgell yn cael ei drosglwyddo nôl i'r cyngor bwrdeistref sirol. Arweiniodd yr anawsterau ariannol yn ystod y flwyddyn at ailstrwythuro staff ar draws y sefydliad, a olygodd fod y gwasanaeth llyfrgell wedi colli sawl aelod profiadol a gwybodus o staff. Roedd hyn yn cynnwys un o ddau lyfrgellydd cymwysedig, sy'n golygu nad oes gan y gwasanaeth y staff cymwysedig sydd eu hangen ar hyn o bryd yn y gwasanaeth llyfrgell i ddarparu arweinyddiaeth ac arweiniad i gefnogi staff y rheng flaen. Mae'r cyfanswm staffio wedi gostwng draean bron am fod staff llyfrgell naill ai wedi ymddeol neu wedi gadael y gwasanaeth am gyflogaeth fwy sefydlog. Felly, mae Llyfrgelloedd Merthyr Tudful yn methu â bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth a staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth (DA13). Mae yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y ddau fesur. Mae hefyd yn y chwartel gwaelod ar gyfer Gwariant gweithredol am bob pen o'r boblogaeth (DA14).

Nid yw Llyfrgelloedd Merthyr Tudful yn bodloni'r targed ar gyfer canran yr amser staff a dreuliwyd ar hyfforddiant (DA13). Oherwydd ansicrwydd am newidiadau i strwythur staffio'r llyfrgell, mae'r gwasanaeth yn adrodd bod staff llyfrgell wedi bod yn amharod i ymgymryd â hyfforddiant, ac mae rheolwyr llyfrgell wedi poeni am hyfforddi staff na fyddant o bosibl yn cael eu cadw. Roedd y gostyngiad i'r staffio hefyd yn golygu ei bod yn eithriadol o anodd rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant a chadw gwasanaeth digonol wrth fannau gwasanaeth.

Mae'n anochel bod y gostyngiad yn y staff sydd ar gael wedi arwain at ostyngiad i oriau agor llyfrgell. Mae'r gostyngiad o 30% yn yr oriau agor yn golygu nad yw'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth bellach yn cael ei fodloni (DA16). Er nad yw canfyddiadau'r arolwg cwsmeriaid ar oriau agor newydd ar gael ar gyfer y ffurflen hon, mae'n debygol y bydd gostyngiad o'r lefel hon yn effeithio'n negyddol ar gwsmeriaid. Er enghraifft, nawr mai staff unigol sydd ynddynt, mae llyfrgelloedd cangen yn cau am egwyl ginio bob dydd a dim ond un llyfrgell sydd ar agor ar ddydd Sadwrn.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Merthyr Tudful weithgarwch mewn perthynas â nifer o amcanion, gan gynnwys:

- **Cynnig gwaith allgyrraedd rhagweithiol croesawgar a chynhwysol a gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd** mewn cymunedau sydd wedi'u hamddifadu'n economaidd a'u hallgáu'n gymdeithasol.
- **Cyfrannu at ddatblygu poblogaeth fedrus, addysgedig** drwy ddarparu mynediad i ddysgu gydol oes drwy lyfrau perthnasol a gwybodaeth ar-lein. Darparu cyfarpar TG, band eang a WIFI am ddim sy'n cefnogi addysg, busnesau bach a gweithgarwch chwilio am waith.

- **Cefnogi unigolion ag anghenion iechyd a lles** drwy gynnig cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru a Darllen yn Well a pharhau i weithio gyda phartneriaid i gyfeirio defnyddwyr llyfrgell at asiantaethau priodol.
- **Hyrwyddo a diogelu Diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg** drwy ddarparu ystod dda o stoc yn y Gymraeg a darparu digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol.
- **Lleihau effaith amgylcheddol a hyrwyddo cynaliadwyedd** drwy roi benthyg llyfrau.
- **Cefnogi cymunedau i ddarparu gofodau cynnes** drwy'r gaeaf i helpu gyda'r gost o gadw'n gynnes.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Merthyr Tudful yn nodi y bu'n flwyddyn o ansicrwydd a newid. Mae diddymu Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful wedi arwain at ddychwelyd y gwasanaeth llyfrgell i weinyddiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth wedi wynebu gostyngiadau andwyol mewn lefelau a pherfformiad gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod 'lefel o sefydlogrwydd wedi'i chyrraedd' yn yr amgylchedd ansefydlog hwn. Mae'n bwriadu adolygu rhai o'r newidiadau a wnaed yn ystod 2023-24 ac ystyried ffyrdd o leihau'r effeithiau andwyol ar y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu tra'n chwilio am ffyrdd o wella mynediad i wasanaethau. Y ffocws yn y dyfodol fydd llythrennedd TG a mynediad a gwaith yn y cyfeiriad strategol a osodir drwy SLICC a'i flaenoriaethau lleol ei hun. Fodd bynnag, ychydig iawn o fanylion sydd wedi'u darparu am gyfeiriad y gwasanaeth at y dyfodol, ac mae hynny'n peri pryder.

## Casgliad

Mae sefyllfa Llyfrgelloedd Merthyr Tudful o bryder difrifol. Mae pwysigrwydd y gwasanaeth llyfrgell i gymunedau lleol a gwerth y cymorth y mae staff llyfrgell yn ei gynnig i'w gwsmeriaid wedi'i nodi, a'i ganmol, mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad mewn cyllid eleni wedi cael effeithiau difrifol anochel ar staffio, oriau agor a darpariaeth adnoddau. Mae'r ffaith bod y gwasanaeth ond yn bodloni Hawliau Craidd 2 a 5 yn rhannol o bryder arbennig. Yn ddiau mae staff yn gwneud eu gorau mewn sefyllfa heriol, ond bydd gostyngiad o 30% mewn staffio ac oriau agor, ynghyd â thoriad drastig i nifer yr adnoddau a brynir am bob pen o'r boblogaeth, yn arwain yn anochel at ddirywiad yn y gwasanaeth a gynigir i gymunedau lleol. Ychydig o fanylion a roddir yn y ffurflen am gynlluniau ar gyfer cyfeiriad y gwasanaeth at y dyfodol. Fodd bynnag, os yw bodlonrwydd cwsmeriaid a chefnogaeth i'r gwasanaeth llyfrgell yn gostwng o ganlyniad i'r toriadau hyn, gallai gymryd blynyddoedd lawer i adfer.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24
# Sir Fynwy

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Sir Fynwy, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Adroddodd Sir Fynwy ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Sir Fynwy yn cyflawni 2 yn llawn. Roedd pum targed na chawsant eu bodloni.

Mae pryderon difrifol am Lyfrgelloedd Sir Fynwy. Mae effeithiau toriadau cyllidebol ar staffio ac adnoddau'n dod yn fwyfwy enbyd. Er bod y gwasanaeth yn parhau i fodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd, dim ond dau o'r DAion gyda thargedau y mae'n eu bodloni, ac mae heriau'n gysylltiedig ag agweddau sylfaenol o'r gwasanaeth llyfrgell, sef staffio, argaeledd mannau gwasanaeth a darpariaeth deunyddiau. Mae Sir Fynwy yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd, yn arbennig o ran benthyciadau a benthycwyr gweithredol, ac yn ddiau mae staff yn gwneud eu gorau glas mewn amgylchiadau heriol. Fodd bynnag, os nad oes gan staff llyfrgell fynediad i hyfforddiant nac adnoddau cyfoes ar gyfer cwsmeriaid, ni fyddant yn gallu cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel.

- Mae'r gostyngiad parhaus yn y gyllideb caffaeliadau yn bryder difrifol. Bu i hyn haneru yn 2023-24, a chyllideb llyfrau Sir Fynwy am bob pen o'r boblogaeth yw'r isaf yn genedlaethol (DA9).
- Nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth ac mae'n is na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA16).
- Mae'r gostyngiad mewn staffio, a'r diffyg staff cymwysedig parhaus yn peri pryder, yn arbennig am nad yw Sir Fynwy yn bodloni'r targedau ar gyfer y mesurau hyn, nac am oriau agor am bob pen o'r boblogaeth (DAion13 a 16).
- Sir Fynwy sydd â'r gwariant isaf ar ddeunyddiau yn y Gymraeg fel canran o'r gyllideb gyffredinol yn genedlaethol ac mae cyfanswm y gyllideb yn llai nag un rhan o bump o'r cyfanswm yn 2022-23 (DA10).
- Mae Sir Fynwy yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am fenthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth ac mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi codi 5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA8).
- Mae'r gwasanaeth hefyd yn y chwartel uchaf am fenthyciadau electronig, sydd wedi cynyddu 53% o'u cymharu â 2022-23 (DA8).

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Sir Fynwy ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Darparodd y gwasanaeth sylwebaeth fanwl a chynorthwyol yn y ffurflen. Ar sail hyn, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol.

1. **Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

2. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

3. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol,  hamdden, a darllen er pleser.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

4. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

5. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

6. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn** ▲

7. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn** ▲

8. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn** ▲

9. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**

   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn** ▲

10. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**

    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn** ▲

11. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**

    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn** ▲

12. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisïau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**

    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**

    Mae hyn oherwydd bod y strategaeth/cynllun gweithredu ar-lein ar gyfer 2019-22. Nid yw'n rhychwantu'r cyfnod presennol ac nid oes mesurau llwyddiant ar gyfer y cyfnod amser perthnasol.

13. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth.**

    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir Fynwy yn cyflawni 2 yn llawn. Roedd pum targed na chawsant eu bodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **ni fodlonwyd ●**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **ni fodlonwyd ●**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **ni fodlonwyd**
iv) Canran DPP, **ni fodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd** ●

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 82% | =13/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 83% | =12/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 92% | 14/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Fynwy ddatganiad yn ymwneud â'i chynllun Benthyca Gliniadur, sef partneriaeth rhwng Addysg Gymunedol a'r Gwasanaeth Llyfrgell Strategol, a ddechreuodd ym mis Medi 2023 ac a gafodd ei lansio'n swyddogol ym mis Ebrill 2024. Mae'r cynllun yn caniatáu i aelodau llyfrgell gael benthyg gliniadur mor hawdd ag y mae i gael benthyg llyfr. Nod hyn yw mynd i'r afael â thlodi digidol ac anghydraddoldeb yn y sir, ymdopi â'r galw cynyddol am declynnau dysgu o bell a gwella gwasanaethau cymunedol. Mae hanner cant o liniaduron Chromebook wedi'u hintegreiddio i gatalog y llyfrgell ac maent ar gael mewn pum hwb cymunedol a llyfrgell gymunedol i aelodau llyfrgell gael eu benthyg. Mae'r adborth anecdotaidd cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol gydag enghraifft yn cael ei rhoi o aelod llyfrgell a oedd yn ddiolchgar am allu diweddaru eu CV a chwilio am swydd.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Fynwy ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 53% | 14/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 46% | 14/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 97% | =8/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 87% | 14/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 98% | =9/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 70% | 13/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 96% | 12/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.3 | 10/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 2 | =18/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | Ni ddarpar wyd | Dd/B | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 191 | 13/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 400 | 15/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 142 | 5/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 17% | =10/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 24% | 5/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 618 | 12/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[20] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 21 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 365 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £8,4041 | 21/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 70% | =7/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 6% | =6/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 10% | 3/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 14% | 14/22 | 0% | 16.5% | 34% |

[20] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Er bod y nifer a fynychodd hyfforddiant ffurfiol wedi mwy na dyblu o'i gymharu â 2022-23, mae Sir Fynwy yn is na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA5). Nid oes unrhyw ddata ar gael ar gyfer cymorth anffurfiol. Gyda data mwy diweddar gan wasanaeth eraill i gymharu yn ei erbyn eleni, mae Sir Fynwy yn is na'r canolrif ar gyfer pob mesur Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2). Un o fanteision cynnig ystod o wasanaeth o Hybiau Cymunedol yw bod trigolion nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau llyfrgell yn rheolaidd yn ymweld â Llyfrgelloedd Sir Fynwy. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu bod cafeat i ganlyniadau DA1 a DA2 am ei bod yn bosibl y gallai fod gan y sylfaen gwsmeriaid ehangach hon ddisgwyliadau gwahanol neu gallent ymateb mewn ffyrdd ychydig yn wahanol i ddemograffig draddodiadol defnyddiwr llyfrgell.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir Fynwy ychydig yn is na'r canolrif ar gyfer y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth, ond mae'r nifer sy'n mynychu ar gynnydd, i fyny 17% o'i gymharu â 2022-23 (DA6). I blant, mae digwyddiadau'n cynnwys Amser Rhigwm i Fabanod; amser stori i blant o dan bump oed; a sesiynau stori a chrefft yn ystod gwyliau'r ysgol. I oedolion, mae gweithgareddau'n cynnwys grwpiau darllen; hel achau; Rhannu ar y Cyd; a grwpiau Gwau a Sgwrs. Mewn cydweithrediad â grwpiau Cyfeillion, mae canghennau llyfrgell yn trefnu gweithgareddau fel darlleniadau gan awduron lleol, digwyddiadau lansio llyfrau, nosweithiau cwis, nosweithiau corawl a dathliadau adeg y Nadolig.

Nid yw Sir Fynwy yn bodloni'r targed ar gyfer Lleoliad mannau gwasanaeth (DA7). Mae'r gwasanaeth yn nodi newidiadau i'r ddemograffeg leol, er enghraifft proffil poblogaeth sy'n heneiddio, a gaiff effaith ar ddarparu gwasanaethau. Yn y cyd-destun hwn, mae'n archwilio amrywiol fentrau i gyrraedd y targed, gan gynnwys y posibilrwydd o ymestyn llwybrau Cludo i'r Cartref a gwell partneriaethau gyda sefydliadau cymunedol.

Mae Sir Fynwy yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am fenthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth ac mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi codi 5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA8). Mae'r gwasanaeth hefyd yn y chwartel uchaf ar gyfer benthyciadau electronig, sydd wedi cynyddu 53% o'u cymharu â 2022-23. Er mwyn ychwanegu at y ddarpariaeth adnoddau electronig, cyflwynodd Llyfrgelloedd Sir Fynwy bapurau newydd electronig ym mis Hydref 2023. Er bod benthyciadau llyfrau i oedolion wedi gostwng 11%, ac mae benthyciadau llyfrau i blant wedi gostwng 8% o'u cymharu â 2022-23, mae Sir Fynwy yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer y ddau fesur. Mae Sir Fynwy yn is na'r canolrif ar

gyfer ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth, ond mae ymweliadau â'r wefan wedi cynyddu 10% o'u cymharu â 2022-23.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Yn rownd gyllidebol 2023-24, hanerwyd y gyllideb caffaeliadau i £45,000. Mae hwn yn bryder difrifol, am ei fod yn ychwanegol i'r gostyngiad o 10% a adroddwyd y llynedd. Nid yw Sir Fynwy yn bodloni'r targed am gaffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth a hwn yw'r awdurdod llyfrgell isaf yng Nghymru ar gyfer y mesur hwn (DA9). Sir Fynwy sydd â'r gyllideb llyfrau isaf am bob pen o'r boblogaeth (yn gyffredinol ac ar gyfer pobl ifanc o dan 16 oed) yn genedlaethol. Hefyd, nid yw Sir Fynwy yn bodloni'r targed ar gyfer gwariant ar adnoddau yn y Gymraeg. Mae ganddi'r gwariant isaf ar ddeunyddiau yn y Gymraeg fel canran o'r gyllideb gyffredinol yn genedlaethol ac mae cyfanswm y gyllideb yn llai nag un rhan o bump o'r hyn yr oedd yn 2022-23 (DA10). Am nad yw nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy yn fawr, mae'r llyfrgell yn canolbwyntio ar adnoddau i ddysgwyr y Gymraeg. Cynhelir dosbarthiadau Cymraeg mewn rhai mannau gwasanaeth ac mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda Chymraeg i Blant i gynnig ioga, Stori a Rhigwm, sesiynau tylino babanod ac Amser Rhigwm Cymraeg i Fabanod. Mae'r gwasanaeth yn is na’r canolrif ar gyfer benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth, er eu fod wedi codi 5% o'u cymharu â 2022-23.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Mae'r ffaith nad yw Sir Fynwy yn bodloni unrhyw elfennau o'r targed Lefelau staffio a chymwysterau yn peri pryder (DA13). Gwelodd mannau gwasanaeth ostyngiad nodedig mewn staffio oherwydd diswyddiadau gwirfoddol. Ddechrau 2023-24, collodd y gwasanaeth werth 3 chyflogai CALI.[21] Mae'n is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth ac mae yn y chwartel gwaelod am gyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth. Sir Fynwy sydd â'r ganran isaf o amser staff a neilltuwyd i hyfforddiant yn genedlaethol ac mae oriau hyfforddiant staff wedi mwy na haneru o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd o wirfoddolwyr, ond oherwydd pwysau staffio a chyllidebol, mae'n newid ei ddull i gydweithio â Chydlynydd Gwirfoddoli Sir Fynwy i recriwtio gwirfoddolwyr. Er bod nifer y gwirfoddolwyr wedi gostwng o'i gymharu â 2022-23, mae'n bwysig, fel mae polisi CILIP yn ei nodi, nad yw gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio i ddisodli swyddogaethau craidd staff cyflogedig yn wyneb heriau staffio. Mae Sir Fynwy yn y chwartel gwaelod yn genedlaethol am wariant am bob pen o'r boblogaeth (DA14). Nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth ac mae'n is na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA16).

[21] *Dyliad nodi bod Sir Fynwy wedi ymgeisio'n flaenorol i amcangyfrif faint o amser mae staff hwb wedi'i dreulio'n cefnogi'r gwasanaeth llyfrgell. Fodd bynnag, ers y toriadau, maent wedi dewis cynnwys yr holl staff yn y cyfrifiad am fod eu hamser yn cael ei dreulio'n cefnogi nid yn unig y swyddogaeth llyfrgell, ond hefyd cymorth i gwsmeriaid drwy'r Hwb a gwasanaethau Addysg Gymunedol.*

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Sir Fynwy bum maes allweddol lle mae ystod y rhaglenni a mentrau y mae'n eu cynnig yn alinio gyda'r nodau strategol a'r blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

- **Hyrwyddo dysgu gydol oes a datblygu sgiliau** e.e. darparu mynediad am ddim i amrywiaeth o adnoddau a rhaglenni dysgu a chynnal gweithdai rheolaidd mewn partneriaeth ag Addysg Gymunedol.
- **Cefnogi iechyd a lles** e.e. darparu mynediad i wybodaeth iechyd, grwpiau cymorth, a gweithgareddau cadw'n iach; partneru â sefydliadau iechyd lleol i gynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a digwyddiadau gwirio iechyd; a darparu amgylchedd cynhwysol, croesawgar a diogel.
- **Gwella cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol** e.e. cynnig gofodau i bobl o gefndiroedd amrywiol ddod at ei gilydd, cynnal digwyddiadau diwylliannol, dosbarthiadau iaith, a rhaglenni rhwng y cenedlaethau a chynnig dosbarthiadau ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) a chymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.
- **Hyrwyddo cynhwysiant ac arloesedd digidol** e.e. mynediad i'r rhyngrwyd am ddim, defnydd o'r cyfrifiaduron, a hyfforddiant sgiliau digidol.
- **Cadw treftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo'r iaith Gymraeg** e.e. mynediad i gasgliadau llenyddiaeth Gymraeg, archifau hanesyddol, ac adnoddau hel achau, cynnig amser stori dwyieithog i blant a gweithio'n agos ag ysgolion.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Sir Fynwy yn nodi bod ei chyfeiriad strategol yn pwysleisio twf amlwg mewn aelodaeth a ffigyrau benthyciadau sy'n adlewyrchu ymrwymiad i gynyddu ymgysylltiad a mynediad i adnoddau. Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod yn obeithiol o fuddsoddiad yn y dyfodol i wella gwasanaethau a chyfleusterau, ond nid yw'n darparu manylion o sut y caiff hyn ei gyflawni. Ymhlith y cynlluniau at y dyfodol mae: ymestyn gwasanaethau digidol i gynulleidfa ehangach; datblygu rhaglenni wedi'u targedu ar gyfer grwpiau amrywiol, a chefnogi mentrau eco-gyfeillgar. Er gwaethaf yr uchelgeisiau hyn, mae gweithredu yng nghyd-destun toriadau cyllidebol a lefelau staffio yn codi pryderon am yr hyn y bydd y gwasanaeth yn gallu ei gyflawni wrth symud ymlaen.

## Casgliad

Mae pryderon difrifol am Lyfrgelloedd Sir Fynwy. Mae effaith toriadau cyllidebol ar staffio ac adnoddau'n dod yn fwyfwy enbyd. Er bod y gwasanaeth yn parhau i fodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd, dim ond dau o'r DAion gyda thargedau y mae'n eu bodloni, ac mae heriau'n gysylltiedig ag agweddau sylfaenol y gwasanaeth llyfrgell, sef staffio, argaeledd mannau gwasanaeth a darpariaeth deunyddiau. Mae Sir Fynwy yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd, yn arbennig o ran benthyciadau a benthycwyr gweithredol, ac yn ddiau mae staff yn gwneud eu gorau glas mewn amgylchiadau heriol. Fodd bynnag, os nad oes gan staff llyfrgell fynediad i hyfforddiant nac adnoddau cyfoes ar gyfer cwsmeriaid, ni fyddant yn gallu cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Castell-nedd Port Talbot

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Castell-nedd Port Talbot, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Castell-nedd Port Talbot yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd targedau ar gyfer y ddau ddangosydd sy'n weddill.

Mae Castell-nedd Port Talbot yn perfformio'n dda mewn llawer o feysydd. Mae'n amlwg bod aelodau o'r gymuned leol yn gwerthfawrogi’r gwasanaeth llyfrgell, ac yn ei ganmol. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau, hyfforddiant a chymorth anffurfiol dipyn yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o weithgareddau, gydag ymateb da iddynt, a llawer ohonynt mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Yn 2023-24 gwelwyd cynnydd yn y gwariant ar ddeunyddiau yn y Gymraeg, ac mae benthyciadau adnoddau yn y Gymraeg wedi codi'n nodedig. Mae hefyd yn gadarnhaol bod cyfran yr amser staff a neilltuwyd ar gyfer hyfforddiant wedi cynyddu eleni. Fodd bynnag, mae pryderon am lefel y caffaeliadau, lefelau staffio ac oriau agor yn parhau, yn arbennig, y gostyngiad yn y gyfradd caffaeliadau a'r gostyngiad mewn staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth eleni.

- Mae Castell-nedd Port Talbot yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2); mae'n perfformio'n arbennig o dda am ofal i gwsmeriaid; canran yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd; a'r sgôr gan ddefnyddwyr 16 oed yn iau.
- Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol a chymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ac maent wedi cynyddu ers 2022-23 (DA5).
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ac mae wedi cynyddu 12% o'i gymharu â 2022-23 (DA6).
- Mae Castell-nedd Port Talbot yn uwch na’r canolrif cenedlaethol ar gyfer benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r nifer wedi cynyddu 18% ers y flwyddyn flaenorol (DA8).

- Mae cyfran amser staff a neilltuwyd ar gyfer hyfforddiant wedi cynyddu'n nodedig ers 2022-23 ac mae'r gwasanaeth bellach yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru (DA13).

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Castell-nedd Port Talbot ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd targedau ar gyfer y ddau ddangosydd sy'n weddill.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 97% | 3/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 93% | =5/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 96% | 11/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Castell-nedd Port Talbot ddatganiad effaith a oedd yn canolbwyntio ar y ffordd y rhoddodd y llyfrgell gefnogaeth i ddyn a oedd yn encilio ac yn cael trafferth gwneud ffrindiau a chymdeithasu. Cyflwynwyd ef i'r gwasanaeth llyfrgell drwy grŵp iechyd meddwl lleol i ddynion ac ers hynny mae bellach yn ddefnyddiwr rheolaidd o'r llyfrgell ac yn rhan reolaidd o gymuned y llyfrgell. Mae ei ymgysylltiad â'r llyfrgell wedi ei alluogi i wneud ffrindiau newydd a dod yn weithgar ym mhrosiectau'r llyfrgell sy'n cefnogi'r gymuned leol. Mae hefyd wedi dod yn ddarllenwr cyson. Mae ei ymgysylltiad â'r llyfrgell wedi cefnogi ei les meddwl a chymdeithasol ac wedi ei helpu i gael budd a chyfrannu at y gymuned.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 90% | =1/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 84% | 2/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 98% | =6/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 96% | 2/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =1/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 90% | =3/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 98% | =5/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.7 | =1/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 41 | 4/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 449 | 1/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 400 | 4/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 221 | 18/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 133 | 9/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 14% | 18/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 5% | 21/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 579 | 15/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[22] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 15 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 180 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £12,893 | 9/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 62% | =15/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | =13/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 1% | =19/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 28% | 4/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

[22] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Castell-nedd Port Talbot yn perfformio'n dda mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2); mae'n uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am bob mesur ac yn gydradd uchaf yn genedlaethol am ofal i gwsmeriaid; canran yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd; a'r sgôr gan ddefnyddwyr 16 oed yn iau. Mae Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targed ar gyfer Iechyd a lles (DA4); mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda nifer o asiantaethau gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol a Macmillan ac mae wedi cymryd rhan yn y cynllun 'Benthyg Pêl droed' Alive and Kicking sy'n hyrwyddo ffordd iach o fyw i blant. Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi codi 5% o'i gymharu â 2022-23 ac mae'n parhau i fod yn uwch na'r canolrif cenedlaethol. Mae'r nifer sy'n mynychu cymorth anffurfiol i fyny 8% a dyma'r uchaf am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol (DA5).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ac mae wedi cynyddu 12% o'i gymharu â 2022-23 wrth i'r gwasanaeth barhau i adfer yn dilyn y pandemig (DA6). Mae Castell-nedd Port Talbot yn cynnig ystod eang o ddigwyddiadau gan gynnwys ioga babi; tylino babi; clybiau Lego; gweithdai celf; clybiau crefft; lliwio i oedolion; clybiau gwaith cartref; grŵp gwaith Workways; TG Age Connect; digwyddiadau gydag awdurdon; gweu a chrosio; archeoleg a grwpiau hanes; Cymorth TG; grwpiau ysgrifenwyr; cyrsiau iaith; grwpiau darllen; sioeau ffilm; digwyddiadau corawl; ac adrodd storïau. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn darparu digwyddiadau mewn lleoliadau eraill fel ysgolion, grwpiau chwarae a grwpiau cymunedol. Ymhlith y digwyddiadau ar gyfer defnyddwyr ag anghenion arbennig mae Sightlife ar gyfer pobl â nam ar eu golwg; boreau coffi i ffoaduriaid o Wcráin; a 'Chai a Chat'.

Mae Castell-nedd Port Talbot yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae nifer y benthycwyr wedi cynyddu 18% ers y flwyddyn flaenorol (DA8). Fodd bynnag, dim ond 18% o aelodau llyfrgell sy'n fenthycwyr gweithredol. Mae nifer yr ymweliadau rhithwir yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru. Fodd bynnag, mae hyn wedi cynyddu 50% o'i gymharu â 2022-23. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn adrodd nad yw cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r wefan a gofnodwyd yn cynnwys ymweliadau drwy'r porthol. Mae Castell-nedd Port Talbot yn is na'r canolrif ar gyfer benthyciadau i oedolion a benthyciadau i blant fel ei gilydd. Fodd bynnag, er bod benthyciadau i oedolion wedi gostwng 21% o'u cymharu â 2022-23, mae benthyciadau i blant wedi cynyddu 9%. Mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau electronig am bob pen o'r boblogaeth ac mae benthyciadau electronig wedi codi 16% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Nid yw Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth (DA9) ac mae nifer yr eitemau a gaffaelwyd wedi gostwng eleni am fod tanwariant o 12% yn y gyllideb llyfrau. Penderfynodd y gwasanaeth beidio ag

adnewyddu ei danysgrifiad i PressReader ar gyfer 2024 wedi i bapurau newydd gael eu cyflwyno ar Borrowbox. Mae Castell-nedd Port Talbot yn is na'r canolrif ar gyfer canran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau i blant ac adnoddau electronig fel ei gilydd. Roedd tanwariant o 26% yn y gyllideb llyfrau i blant o'i chymharu â 2022-23 ac mae'r awdurdod yn y chwartel gwaelod yn genedlaethol ar gyfer gwariant am bob pen o'r boblogaeth ar adnoddau i bobl ifanc o dan 16 oed.

Mae cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau yn y Gymraeg wedi cynyddu o'i chymharu â 2022-23 (DA10) ac mae gan Gastell-nedd Port Talbot berthynas sefydledig gyda chyflenwr lleol i wella'i gynnig llyfrau Cymraeg. Er bod benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif cenedlaethol, mae benthyciadau wedi cynyddu 44% ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer y benthyciadau i blant. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cynnal gweithgareddau yn y Gymraeg, gan gynnwys grwpiau darllen a digwyddiadau Sesiwn Ganu - sesiynau cân a rhigwm yn Gymraeg mewn partneriaeth â'r Fenter Iaith.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Nid yw Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na chyfanswm y staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, er ei fod oddeutu'r canolrif ar gyfer y ddau (DA13). Cynyddodd cyfanswm nifer y staff CALl ychydig o ganlyniad i ddwy swydd dros dro newydd, gan lenwi bylchau a oedd wedi'u gadael ers 2020. Fodd bynnag, mae newidiadau staff oherwydd ymddeoliadau yn golygu bod cyfanswm nifer y staff sy'n meddu ar gymwysterau cydnabyddedig wedi gostwng. Mae'n galonogol bod cyfran yr amser staff a neilltuwyd i hyfforddiant wedi cynyddu'n nodedig ers 2022-23 ac mae'r gwasanaeth bellach yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru. Gostyngodd cyfanswm y gwariant refeniw ychydig yn 2023-24 am nad oedd unrhyw grantiau sylweddol (DA14). Nid yw Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth (DA16). Fodd bynnag, nodir nad yw oriau agor ar gyfer llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned wedi'u cynnwys yn y ffurflen.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae gwasanaeth llyfrgell Castell-nedd Port Talbot yn cymryd ei arweiniad gan Gynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot a'r nodau a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Rhaglen Lywodraethu Cymru. Darparwyd ystod o enghreifftiau o sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at y nodau hyn ac yn eu plith mae partneru gyda sefydliadau iechyd i gefnogi lles corfforol a meddyliol; sefydlu'r casgliad Darllen yn Well ar gyfer yr Arddegau; darparu sesiynau hyfforddiant ffurfiol i gynorthwyo pobl i chwilio am swyddi a gwella'u sgiliau; darparu rhaglen o weithgareddau dysgu i oedolion; gweithio gydag ysgolion i ddarparu sesiynau ar gyfer rhieni sy'n dymuno cefnogi dysgu eu plant; cynyddu'r gwariant ar lyfrau Cymraeg a datblygu rhaglen o ddigwyddiadau yn y Gymraeg.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Castell-nedd Port Talbot yn nodi ei fod yn edrych ymlaen yn dilyn y pandemig a'i fod yn nod ganddo gyflawni strategaeth llyfrgell bum-mlynedd newydd yn 2024-25. Mae'r gwasanaeth yn adrodd mai canolbwynt y strategaeth fydd gwreiddio amcanion a chamau gweithredu newydd sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd; cydraddoldeb ac amrywiaeth; lles; a sicrhau bod llyfrgelloedd yn cael eu hystyried yn lleoedd diogel a chroesawgar i bawb. Mae'n fwriad gan y gwasanaeth ddatblygu ei raglen hyfforddiant staff i ateb anghenion y strategaeth newydd. Bydd y gwasanaeth hefyd yn canolbwyntio yn 2024-25 ar weithredu'r system rheoli llyfrgelloedd newydd, a fydd ar flaen ei waith cynllunio byrdymor.

## Casgliad

Mae Castell-nedd Port Talbot yn perfformio'n dda mewn llawer o feysydd. Mae'n amlwg bod aelodau o'r gymuned leol yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth llyfrgell, ac yn ei ganmol. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau, hyfforddiant a chymorth anffurfiol dipyn yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o weithgareddau, gydag ymateb da iddynt, a llawer ohonynt mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Yn 2023-24 gwelwyd cynnydd yn y gwariant ar ddeunyddiau yn y Gymraeg, ac mae benthyciadau adnoddau yn y Gymraeg wedi codi'n nodedig. Mae hefyd yn gadarnhaol bod cyfran yr amser staff a neilltuwyd ar gyfer hyfforddiant wedi cynyddu eleni. Fodd bynnag, mae pryderon am lefel y caffaeliadau, lefelau staffio ac oriau agor yn parhau, yn arbennig, y gostyngiad yn y gyfradd caffaeliadau a'r gostyngiad mewn staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth eleni.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Casnewydd

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Casnewydd, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Casnewydd yn bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. Nid yw'n bodloni 1 Hawl Graidd. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Casnewydd yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd targedau ar gyfer y ddau ddangosydd sy'n weddill.

Mae Casnewydd yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd, yn arbennig darpariaeth hyfforddiant ffurfiol ac ymweliadau rhithwir. Mae'n ymddangos bod y gwasanaeth yn adfer yn sgil y pandemig Covid am fod benthyciadau a'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau'n codi. Mae'n amlwg bod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth llyfrgell ac mae'n agos i, neu'n uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mwyafrif o fesurau Gwneud gwahaniaeth a Bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae hefyd yn gadarnhaol bod darpariaeth hyfforddiant staff wedi cynyddu. Fodd bynnag, fel y nodwyd y llynedd, mae lefelau staffio ac oriau agor yn Llyfrgelloedd Casnewydd yn bryder. Mae'r ffaith bod lefelau staffio ac oriau agor wedi parhau i ddirywio eleni, a'r ffaith bod y gwasanaeth yn adrodd bod oriau agor yn debygol o leihau ymhellach fyth, yn peri pryder. Yng ngoleuni'r dyfodol heriol mae Llyfrgelloedd Casnewydd yn ei wynebu, mae'r ffaith nad oes gan y gwasanaeth strategaeth na chynllun gweithredu cyfredol yn fater o bryder. Yn ogystal, mae lefelau ymgysylltu, er eu bod yn cynyddu, yn parhau'n isel o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol; dylai'r gwasanaeth fonitro'i ddull o gynnig llyfrgelloedd dan arweiniad y gymuned er mwyn penderfynu a yw hyn yn helpu i gynyddu'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau, ffigyrau benthycwyr gweithredol a ffigyrau benthyciadau.

- Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r nifer sy'n mynychu a gofnodwyd wedi cynyddu 9% o'i gymharu â 2022-23 (DA5).
- Mae Casnewydd, unwaith eto, yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer ymweliadau rhithwir, sydd wedi cynyddu 15% o'u cymharu â 2022-23 (DA8).
- Mae'r amser a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddiant staff wedi gwella'n sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae Casnewydd bellach yn bodloni'r targed hwn (DA13).
- Mae caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu o'u cymharu â 2022-23, er bod Casnewydd yn dal yn syrthio'n fyr o'r targed hwn (DA9).

- Mae cyfanswm y staff, staff cymwysedig ac oriau agor am bob pen o'r boblogaeth ymhlith yr isaf yn genedlaethol ac maent oll wedi dirywio eleni; nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targedau hyn (DA 13 a 16).

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Casnewydd ei fod wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a'i fod heb fodloni'r un Hawl Graidd sy'n weddill drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad. Ni fodlonwyd HG12 am fod y gwasanaeth yn adrodd nad yw wedi gallu creu'r strategaeth llyfrgelloedd.

### Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Casnewydd yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd targedau ar gyfer y ddau ddangosydd sy'n weddill.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 93% | 8/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 93% | =5/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Casnewydd ddatganiad effaith a gyfeiriodd at gymorth a ddarparodd y llyfrgell i ferch ifanc a'i theulu a oedd wedi symud i Gasnewydd o Latfia cyn cyfnod clo COVID. Roedd yn byw y tu hwnt i'r dalgylch ar gyfer meithrinfeydd lleol Dechrau'n Deg, felly darparodd y Clwb Stori yn llyfrgell Betws gyfle gwerthfawr i'r ferch a'i brodyr/chwiorydd ryngweithio a chymdeithasu gyda phlant eraill o'r un oedran. Mae mynd i'r Clwb Stori wedi helpu'r ferch i ddatblygu sgiliau cymdeithasol yn ogystal â sgiliau llythrennedd, rhifedd a sgiliau echddygol. Mae ymgysylltu â'r gwasanaeth llyfrgell hefyd wedi arwain at gyfeiriadau eraill i'r teulu at wasanaethau eraill, sy'n cael eu darparu gan bartneriaid fel y tîm Datblygu Cymunedol a Dechrau'n Deg. Mae'r teulu bellach yn ddefnyddwyr rheolaidd o lyfrgell Betws ac mae hyder y ferch ifanc wedi tyfu; mae wedi'i pharatoi'n dda i ddechrau ym meithrinfa'r ysgol ym mis Medi.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Casnewydd ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 80% | 4/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 74% | 5/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 97% | =8/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 94% | =4/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 98% | =9/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 82% | =11/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 97% | =9/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.5 | =5/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 31 | =6/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 55 | 14/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 86 | 20/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 832 | 10/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o’r boblogaeth | 76 | 20/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 18% | =8/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 13% | 13/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o’r boblogaeth | 399 | 20/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[23] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 2 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 72 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £6,046 | 22/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 65% | =13/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 20% | 3/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 9% | =4/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 6% | 19/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

---

[23] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Casnewydd yn agos i'r canolrif neu'n uwch na'r canolrif ar gyfer Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), a'r unig eithriad yw'r sgôr ar gyfer cyfleusterau TG. Mae'r gwasanaeth yn rhoi athroniaeth o Lyfrgelloedd dan Arweiniad y Gymuned ar waith, sy'n cael ei disgrifio ganddo fel staff llyfrgell yn "ymgysylltu â chymunedau ymylol i lywio darpariaeth gwasanaethau" er mwyn sicrhau bod "rhaglenni, gwasanaethau a chasgliadau'n cael eu dylunio gyda'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolbwynt i'r cyfan". Mae Casnewydd yn bodloni'r targed ar gyfer Iechyd a lles (DA4) ac yn 2023-24, mae'n adrodd am nifer o bartneriaethau newydd, gan gynnwys bod y Rheolwr Llyfrgell wedi ymuno â Rhwydwaith Casnewydd sy'n Ystyriol o Ddementia a'r Gweithgor Teuluoedd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r nifer a gofnodwyd wedi cynyddu 9% o'i gymharu â 2022-23 (DA5). Fel oedd yn wir y llynedd, roedd mwyafrif y sesiynau hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr yn 2023-24 wedi'u ffocysu ar weithio gyda phlant, ond roeddent hefyd yn cynnwys y rhaglen Lluosi. Mae sesiynau hyfforddiant anffurfiol yn parhau i fod yn is na'r canolrif cenedlaethol ac ychydig o newid a welwyd yn y niferoedd a adroddwyd o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Casnewydd yn parhau i fod yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth, er bod y nifer a adroddwyd wedi codi 8% o'i gymharu â 2022-23 (DA6). Ymhlith y digwyddiadau yn 2023-24 mae sesiwn ar y cyd â Children's Laureates Cymru a'r DU, Drag Queen Storytime, mwy o adnoddau ar gyfer grwpiau darllen, grŵp ieuenctid LHDTC+, oedolion sy'n byw gyda dementia, ac oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Casnewydd, unwaith eto, yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer ymweliadau rhithwir, sydd wedi cynyddu 15% o'u cymharu â 2022-23 (DA8). Er bod y gwasanaeth yn y chwartel gwaelod ar gyfer benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth, mae'r nifer wedi cynyddu 78% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er bod Casnewydd yn parhau i fod yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer benthyciadau o bob math o adnoddau, mae benthyciadau wedi cynyddu o'u cymharu â 2022-23, a hynny'n gyflymach na'r cyfartaledd cenedlaethol, ar gyfer pob categori: mae benthyciadau llyfrau i oedolion i fyny 25%, benthyciadau llyfrau i blant i fyny 21%, benthyciadau clyweledol i fyny 30%, a benthyciadau electronig i fyny 61% yn dilyn buddsoddiad uwch yn Borrowbox. Mae'r gwasanaeth yn amgyffred bod newid yn y ffordd mae cwsmeriaid yn cyrchu casgliadau llyfrgell, gyda mwy o alw am fynediad cyflym i ddeunyddiau ffisegol drwy arddangosiadau wedi'u targedu a thrwy archebu eitemau ar-lein. Priodolir mwy o ddiddordeb yn y stoc hefyd yn sgil chwynnu'r casgliadau'n fwy effeithiol.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Mae caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu o'u cymharu â 2022-23, ond mae Casnewydd yn dal i syrthio'n fyr o'r targed hwn (DA9). Mae Casnewydd

wedi cynyddu ei wariant ar adnoddau digidol ac mae cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i hyn yn agos i ganolrif awdurdodau llyfrgell Cymru. Mae Casnewydd yn bodloni'r targed ar gyfer cyfran y gwariant a ddyrannwyd i adnoddau yn y Gymraeg (DA10). Caiff dros 50% o stoc yn y Gymraeg ei neilltuo i stoc i blant a phobl ifanc am fod mwy o ddefnydd o hyn ac mae ystod y teitlau sydd ar gael yn alinio'n well â gofynion cwsmeriaid Casnewydd. Er bod benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth yn dal i fod yn is na'r canolrif cenedlaethol, maent wedi cynyddu 21% o'u cymharu â 2022-23.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Mae cyfanswm y staff a staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth wedi gostwng eleni ac nid yw Casnewydd yn bodloni'r targed ar gyfer y naill fesur na'r llall (DA13). Y gwasanaeth sydd â'r ffigur isaf ar gyfer cyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth ymhlith awdurdodau llyfrgell Cymru. Rhoddwyd nifer o newidiadau staffio ar waith eleni, yn rhannol mewn ymateb i bwysau cyllidebol ond hefyd i ailalinio'r strwythur i fod yn fwy ymatebol i anghenion newidiol cwsmeriaid. Dilëwyd tair swydd broffesiynol wag, a sefydlwyd rôl Rheolwr Llyfrgell uwch. Bydd hyn yn parhau yn 2024-25 gydag uwch lyfrgellydd yn cael ei recriwtio i rôl Llyfrgellydd Cymunedol sydd newydd gael ei chreu. Mae amser a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddiant staff wedi cynyddu'n sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae Casnewydd bellach yn bodloni'r targed hwn. Yn 2024, darparodd Casnewydd yr hyfforddiant blynyddol cyntaf i'r 'Holl Staff' lle daeth yr holl staff ynghyd i adeiladu ar eu hyfforddiant craidd a'i wella. Mae gan y gwasanaeth gynlluniau i ymestyn ei ddefnydd o wirfoddolwyr wedi i hyn gael ei ostwng yn ystod y pandemig Covid; mae yn y broses o ddatblygu a gweithredu rhaglenni a fydd yn dibynnu ar wirfoddolwyr. Drwy wneud hyn, bydd yn hanfodol sicrhau bod y gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio yn unol â chanllawiau CILIP.

Casnewydd sydd â'r gwariant refeniw isaf am bob pen o'r boblogaeth ymhlith awdurdodau llyfrgell Cymru; mewn gwirionedd, mae'r ffigur dros £2,000 yn llai am bob pen o'r boblogaeth na'r awdurdod nesaf isaf[24] (DA14). Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng 9% o'i gymharu â 2022-23. Nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth ac mae yn y chwartel gwaelod ar gyfer y mesur hwn (DA16). Yn ystod 2023-24, gostyngwyd oriau agor ar ddau safle ac addaswyd y staffio yn unol â hynny oherwydd cyfyngiadau cyllidebol. Gostyngwyd oriau gweithredu llyfrgell Pilgwenlli i naw awr yr wythnos a llyfrgell Malpas i 20. Mae adolygiad pellach o oriau agor llyfrgell ar y gweill yn ystod 2024-25, a fydd, yn ôl pob tebyg, yn debygol o leihau'r oriau ymhellach.

[24] *Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth*

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'r canlynol yn darparu rhai enghreifftiau o weithgarwch sy'n cefnogi blaenoriaethau'r llywodraeth o dan themâu lefel uchel a nodwyd gan Gasnewydd.

- **Diogelu, ailddatblygu a datblygu ein gwasanaethau i bobl agored i niwed** e.e. darparu Gwasanaeth Cludo i'r Cartref a rhaglen Ffrindiau Darllen i feithrin cysylltiadau a chynhwysiant, ymgysylltu â chymunedau ymylol i lywio darpariaeth gwasanaethau, datblygu partneriaethau newydd i wella mynediad i wasanaethau llyfrgell a chyfranogi mewn mentrau cenedlaethol fel Darllen yn Well.
- **Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn culhau a bod safonau'n codi** e.e. sicrhau cymorth ar gyfer dysgwyr llythrennedd o bob oedran a chefnogi prosiectau ymchwil hanes lleol ysgolion.
- **Dathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb ym mhob ffurf** e.e. sicrhau bod anghenion cwsmeriaid LHDTC+ yn cael eu bodloni, gweithio gyda'r Uwch Swyddog Cydraddoldebau ac Amrywiaeth a chymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig i sicrhau bod cyfraniadau at hanes Casnewydd yn cael eu dathlu a mireinio casgliadau ieithoedd y Byd i sicrhau bod lefelau stoc priodol ar draws y rhwydwaith canghennau.
- **Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a chelfyddydau i ffynnu** e.e. bodloni targedau ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau yn y Gymraeg gyda ffocws ar gyflenwi stoc addas i ddysgwyr a phlant iau.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Casnewydd yn adrodd y caiff nifer y llyfrgelloedd cangen eu lleihau o naw i saith mewn ymateb i'r pwysau cyllidebol parhaus yn 2024-25. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod penderfyniadau ar weithredu hyn wedi'u gyrru gan arferion newidiol defnyddwyr ym mhob un o'r lleoliadau lle mae hyn yn cael effaith. Er enghraifft, ystyriwyd bod cyfuno llyfrgelloedd St Julian a Malpas yn un, yng Nghwrt Malpas, yn caniatáu gwell integreiddio gyda Dysgu Cymunedol Oedolion, partneriaeth â Chaffi’r Fenter Gymdeithasol, a'r cyfle i greu gwasanaeth arloesol ac ystyrlon a gydleolir ar gyfer ardal o amddifadedd cymdeithasol. Nod y gwasanaeth yw penodi Llyfrgellydd Cymunedol yn ogystal â chynyddu buddsoddiad mewn gwasanaethau digidol a chyflwyno egwyddorion Datblygu Darllenwyr. Y gobaith yw y bydd hyn yn cynyddu aelodaeth ac ymgysylltiad ac yn cyfrannu at fodloni anghenion y gymuned.

## Casgliad

Mae Casnewydd yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd, yn arbennig darpariaeth hyfforddiant ffurfiol ac ymweliadau rhithwir. Mae'n ymddangos bod y gwasanaeth yn adfer yn sgil y pandemig Covid am fod benthyciadau a'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau'n codi. Mae'n amlwg bod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth llyfrgell ac mae'n agos i, neu'n uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mwyafrif o fesurau Gwneud gwahaniaeth a Bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae hefyd yn gadarnhaol bod darpariaeth hyfforddiant staff wedi cynyddu. Fodd bynnag, fel y nodwyd y llynedd, mae lefelau staffio ac oriau agor yn Llyfrgelloedd Casnewydd yn bryder. Mae'r ffaith bod lefelau staffio ac oriau agor wedi parhau i ddirywio eleni, a'r ffaith bod y gwasanaeth yn adrodd bod oriau agor yn debygol o leihau ymhellach fyth, yn peri pryder. Yng ngoleuni'r dyfodol heriol mae Llyfrgelloedd Casnewydd yn ei wynebu, mae'r ffaith nad oes gan y gwasanaeth strategaeth na chynllun gweithredu cyfredol yn fater o bryder. Yn ogystal, mae lefelau ymgysylltu, er eu bod yn cynyddu, yn parhau'n isel o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol; dylai'r gwasanaeth fonitro'i ddull o gynnig llyfrgelloedd dan arweiniad y gymuned er mwyn penderfynu a yw hyn yn helpu i gynyddu'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau, ffigyrau benthycwyr gweithredol a ffigyrau benthyciadau.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Sir Benfro

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Sir Benfro, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Sir Benfro yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Sir Benfro yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Nid yw'r targed ar gyfer y DA sy'n weddill wedi'i bodloni.

Mae gwerthfawrogiad ymysg cwsmeriaid llyfrgelloedd Sir Benfro, sydd o'r farn bod y gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Er bod Sir Benfro yn is na'r canolrif ar gyfer y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth, mae hyn yn cynyddu ac mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o weithgareddau. Mae hefyd yn gadarnhaol bod Sir Benfro bellach yn bodloni'r targed o ran cynnig gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig (DA6). Mae Sir Benfro yn ymwybodol bod cofnodi gweithgareddau cymorth anffurfiol yn faes i'w wella ac mae'n gobeithio trefnu hyfforddiant staff yn hyn o beth yn ystod 2024. Mae benthyciadau electronig yn cynyddu'n gyflym ac mae'n bosibl y bydd angen i'r gwasanaeth gynyddu cyfran y gyllideb a ddyrennir i adnoddau electronig yn y dyfodol. Bydd hyn, wrth reswm, yn heriol oherwydd nad yw Sir Benfro yn bodloni'r targed caffaeliadau ar hyn o bryd a bu angen iddi ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i brynu adnoddau eleni.

- Mae Sir Benfro yn perfformio'n dda mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae oddeutu'r canolrif neu'n uwch ar gyfer pob mesur.
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau llyfrgell wedi cynyddu 40% o'i gymharu â 2022-23 (DA6).
- Mae nifer y benthyciadau electronig wedi cynyddu 35% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA8).
- Mae angen i Sir Benfro fodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth, ac mae benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu 7% o'u cymharu â 2022-23 (DA10).

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Sir Benfro ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir Benfro yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Nid yw'r targed ar gyfer y DA sy'n weddill wedi'i bodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
- ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
- iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
- iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
- i) Staff am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- ii) Staff cymwysedig am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
- iv) Canran DPP, **ni fodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 98% | 2/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 93% | =5/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 100% | =1/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Benfro ddatganiad effaith a ganolbwyntiodd ar werth ymweliadau dosbarthiadau ysgol â llyfrgell Aberdaugleddau. Darparwyd dau adroddiad am ymweliadau diweddar. Helpodd yr ymweliadau i hyrwyddo'r llyfrgell a denu aelodau newydd, yn ogystal ag ailennyn diddordeb ymhlith y rheiny nad oeddent wedi ymweld ers tro. Roedd yr ymweliadau hefyd yn gyfle i ymgysylltu ag athrawon, a darparwyd enghreifftiau o'r ffordd roedd staff llyfrgell wedi helpu staff addysgu, er enghraifft, drwy gywain llyfrau ar bwnc trawsgwricwlaidd penodol. Yn sgil ymweliadau'r dosbarth, gwellodd cysylltiadau ag ysgolion ac arweiniodd hyn at fwy o ffyrdd o hyrwyddo'r llyfrgell i blant, y mae rhai ohonynt wedyn yn mynd ati i gyflwyno aelodau eraill o'r teulu i'r llyfrgell. Adroddwyd bod adborth gan blant, rhieni a staff addysgu wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Dywedodd un rhiant fod ei merch, *"wedi dweud bod ei thaith i'r llyfrgell yn gymaint o hwyl! Roedd yn hoffi clywed eraill yn darllen iddi a'r holl lyfrau oedd yno."* Dywedodd Cynorthwyydd Cymorth Dysgu, *"Hoffwn i gymryd y cyfle hwn i ddweud diolch yn fawr am fod mor groesawgar ac am roi profiad mor hyfryd i'n plant a dangos iddyn nhw faint o adnodd gwych, am ddim, sydd gennym ar garreg ein drws. Rwy'n gobeithio y bydd y plant yn parhau i ddychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda'u teuluoedd ac yn y pen draw, ar eu pen eu hunain."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Benfro ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 75% | 6/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 68% | 8/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 100% | =1/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 91% | =9/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 98% | =9/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 87% | =7/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 98% | =5/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.7 | =1/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 1 | =20/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 94 | 11/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 115 | 18/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 193 | 20/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o’r boblogaeth | 74 | 21/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 15% | =16/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 6% | 20/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o’r boblogaeth | 428 | 18/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[25] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 49 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 2,175 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £12,539 | 11/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 59% | =19/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 7% | 19/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 3% | =11/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 31% | =2/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

25 *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Sir Benfro yn perfformio'n dda mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae oddeutu'r canolrif neu'n uwch ar gyfer pob mesur. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru ac mae wedi gostwng 72% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA5). Serch hynny, dywedodd 100% o'r bobl a fynychodd ac a atebodd yr arolwg eu bod wedi cyflawni eu hamcanion drwy fynychu. Ymhlith y sesiynau mae sesiwn Galw Heibio gyda Nwyddau Digidol, teithiau llyfrgell, sesiwn Galw Heibio gyda Dyfeisiau a sesiwn TG ar gyfer Cymdeithas y Macular Society. Mae capasiti staffio'n golygu bod y gwasanaeth llyfrgell yn dibynnu ar drydydd partïon i ddod i mewn i ddarparu'r hyfforddiant, felly rheolaeth gyfyngedig sydd ganddo dros nifer y sesiynau a gynigir. Mae cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth hefyd yn is na'r canolrif cenedlaethol ac mae hyn wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn hefyd, i lawr 27%.

Mae pedwar Clwb Llyfrau'n cwrdd mewn llyfrgelloedd ac mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi oddeutu 39 o grwpiau darllen sy'n cyfarfod mewn rhannau eraill o'r gymuned. Mae llyfrgelloedd yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddarparu gwybodaeth iechyd fel Uned Iaith a Lleferydd y GIG, MIND, amrywiol wasanaethau cwnsela, Cymdeithas y Macular Socitey, Y Samariaid, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gorllewin Cymru a Versus Arthritis. Mae pob llyfrgell yn gweithio tuag at statws deall dementia ac maent yn parhau i gefnogi gofalwyr di-dâl yn rhan o Wobr Arian Buddsoddwyr mewn Gofalwyr (DA4).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau llyfrgell wedi cynyddu 40% o'i gymharu â 2022-23, er bod Sir Benfro yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru o hyd ar gyfer y mesur hwn (DA6). Ymhlith yr enghreifftiau o ddigwyddiadau a gweithgareddau mae Amser Rhigwm i Fabanod, sesiynau crefft, clybiau Lego, grwpiau Gweu a Sgwrs, grwpiau sgwrsio Cymraeg, gweithdai Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ymweliad gan Fardd Llawryfog y DU, sgyrsiau gan awduron ac ymweliadau dosbarthiadau. Yn ogystal, mae Sir Benfro yn adrodd am 766 achos o fynychu sesiynau cymorth a ddarparwyd gan grwpiau eraill yn y llyfrgelloedd, er enghraifft, sesiynau cwnsela. Mae hefyd yn gadarnhaol bod y gwasanaeth bellach yn bodloni'r targed ar gyfer gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig (DA6). Ymhlith yr enghreifftiau mae sesiynau 'Darllen gyda'r Ci' ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol; digwyddiad crefft gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer gofalwyr; clwb Lego i oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol; a sesiwn teganau llyfrgell synhwyraidd i blant ac oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae Sir Benfro yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru am ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth, ac mae nifer yr ymweliadau â'r wefan wedi gostwng 10% o'i gymharu â 2022-23 (DA8). Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn adrodd bod nifer ei ddilynwyr ar Facebook wedi cynyddu 12%. Mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu ychydig (i fyny 5%) o'i gymharu â'r flwyddyn

flaenorol, ond mae Sir Benfro yn parhau i fod yn y chwartel gwaelod ar gyfer y mesur hwn. Ychydig o newid a welwyd i fenthyciadau i oedolion a phlant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae nifer y benthyciadau electronig wedi cynyddu 35%. Wedi'u cynnwys yn y ffigur hwn mae benthyciadau cylchgronau electronig, sydd wedi cynyddu'n sylweddol, sef 62%, yn ôl y gwasanaeth.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Er bod nifer y caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu ychydig eleni, nid yw Sir Benfro yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau (DA9). Mae yn y chwartel gwaelod yn genedlaethol ar gyfer y gyllideb llyfrau am bob pen o'r boblogaeth. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod oddeutu 35% o'r gwariant ar adnoddau wedi bod o gronfa wrth gefn yr awdurdod ar gyfer llyfrau, ac nid yw hyn yn gynaliadwy dros y tymor canolig i'r hirdymor. Mae Sir Benfro yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth, ac mae benthyciadau am bob pen o'r boblogaeth siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu 7% o'u cymharu â 2022-23 (DA10). Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Menter Iaith Sir Benfro a Chymraeg i Blant i ddarparu gweithgareddau yn y Gymraeg ar gyfer oedolion a phlant fel ei gilydd. Mae pedwar grŵp darllen Cymraeg ac mae grwpiau sgwrsio yn Gymraeg yn cyfarfod mewn pedair llyfrgell.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Nid yw Sir Benfro yn bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na chyfanswm y staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, er ei bod yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y ddau fesur (DA13). Bu ychydig o ostyngiad yn nifer y staff CALl oherwydd bod aelodau staff wedi gostwng eu horiau; staff wedi gadael a'r swyddi heb eu llenwi; a gostyngiad i oriau staff cyflogedig am fod cangen wedi newid i ddod o dan Reolaeth y Gymuned. Er bod cyfran yr amser staff a neilltuwyd ar gyfer hyfforddiant wedi cynyddu o'i chymharu â 2022-23, mae Sir Benfro yn disgyn ychydig yn fyr o'r targed diwygiedig. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod y gyllideb hyfforddiant wedi'i lleihau ac nad oes ganddo'r capasiti i ryddhau staff i ymgymryd â rhai cyrsiau. Mae nifer yr oriau gwirfoddolwyr a adroddwyd wedi cynyddu 50% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; mae hyn i raddau helaeth o ganlyniad i sefydlu grŵp newydd yn Llyfrgell Saundersfoot, sydd wedi dod o dan Reolaeth y Gymuned. Mae Sir Benfro yn agos i'r canolrif ar gyfer gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth (DA14).

Mae Sir Benfro yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor dan ofal staff am bob pen o'r boblogaeth; yn ogystal, Sir Benfro sydd â'r nifer uchaf o oriau heb staff am bob pen o'r boblogaeth a adroddwyd yn genedlaethol (DA16). Ar hyn o bryd, dim ond un llyfrgell sydd gan Sir Benfro gydag oriau agor heb staff (Llyfrgell Neyland), ond mae Llyfrgell Gymunedol Arberth yn y broses o gael ei hadleoli ar hyn o bryd a bydd ganddi fynediad Agored+ pan gaiff ei hagor yn ddiweddarach yn 2024.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Sir Benfro yn amlygu ystod o feysydd strategol sy'n alinio gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn arbennig mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- **Cymru lewyrchus** Cefnogi'r defnydd effeithlon o adnoddau drwy annog benthyg llyfrau, darparu mynediad am ddim i TG ac adnoddau electronig, cynnig gofod cymunedol, a chefnogi ailgylchu. Drwy gyllid y Cynllun Grant Trawsnewid Cyfalaf MALD (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd), caiff llyfrgelloedd ym Mhenfro ac Arberth eu hadleoli i adeiladau newydd fel rhan fwy canolog o'r gymuned leol a gyda dodrefn a chyfarpar mwy cyfeillgar i'r amgylchedd.  Mae gan dair llyfrgell rôl benodol o ran darparu gwybodaeth i dwristiaid ac mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Ymddiriedolaeth Canolfan Goresgyniad Abergwaun, sy’n helpu i hyrwyddo twristiaeth.
- **Cymru iachach** Cefnogi'r agenda atal, drwy weithio mewn partneriaeth i helpu i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, fel 'Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia'. Mae stoc llyfrau iechyd a lles ar gael ym mhob llyfrgell. Mae ystafelloedd 'Bywydfan' ar gael am ddim mewn rhai llyfrgelloedd.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal** Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ennill Gwobr Arian 'Buddsoddwyd mewn Gofalwyr', sy'n hyrwyddo arfer gorau o ran adnabod a chefnogi gofalwyr di-dâl o bob oedran, annog cariad at ddysgu ymysg plant drwy gymryd rhan mewn cynlluniau cenedlaethol, cynnal sesiynau Crefft a Lego a chefnogi ymweliadau dosbarthiadau.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** Darparu gwasanaeth Llyfrgell Deithiol a Llyfrgell i'r Cartref sy'n cludo adnoddau i bobl agored i newid a phobl ynysig, darparu gofodau cynnes, diogel a chynhwysol a chynnal gweithgareddau grŵp yn rheolaidd.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu** Darparu arwyddion dwyieithog ac adnoddau yn y ddwy iaith, cyllido gwersi Cymraeg ar gyfer staff newydd.
- **Pobl** Darparu hyfforddiant diogelu gorfodol i'r holl staff a darparu cyfleoedd i wirfoddoli yn y gwasanaeth llyfrgell.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Sir Benfro yn cyfeirio at yr her o gynnal 'cyllideb gytbwys' a lleihau costau tra'n lleihau'r effaith ar wasanaethau i gwsmeriaid.  Un ymateb i hyn yw ymchwilio i'r posibilrwydd o rannu gofodau fel y gall gwasanaethau gydfodoli ar yr un safle. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi bod yn gysylltiedig ag Asesiad Anghenion Llyfrgelloedd helaeth ymysg llawer o randdeiliaid er mwyn deall anghenion cwsmeriaid yn y dyfodol a chasglu syniadau ynghylch sut i

gyflawni gostyngiadau cyllidebol. Mewn partneriaeth ag uned Cyflogaeth â Chymorth yr adran Gofal Cymdeithasol, mae cynllun peilot ar y gweill i gyflogi pobl ag ystod o anableddau yn y gwasanaeth llyfrgell. Y gobaith yw y bydd hyn yn cyfrannu at gefnogi pobl sy'n wynebu rhwystrau rhag cael gwaith tra'n darparu cymorth grant i leihau costau staffio. Bydd yr adroddiad terfynol ar yr Asesiad Anghenion Llyfrgelloedd, a gynhyrchir ym mis Medi, yn bwydo i mewn i'r broses o osod y gyllideb a chyflawni arbedion. Yn yr hydref, bydd ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn cael ei gynnal i gynnig yr opsiynau arbedion cyllidebol a nodwyd gan yr Asesiad Anghenion Llyfrgelloedd, gyda gwybodaeth o’r ddau beth hyn yn llywio datblygiad Strategaeth Llyfrgelloedd newydd. Mae llyfrgell newydd ar fin cael ei hagor yn Arberth ac mae llyfrgell Penfro'n adleoli yn 2026.

## Casgliad

Mae gwerthfawrogiad ymysg cwsmeriaid llyfrgelloedd Sir Benfro, sydd o'r farn bod y gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Er bod Sir Benfro yn is na'r canolrif ar gyfer y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth, mae hyn yn cynyddu ac mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o weithgareddau. Mae hefyd yn gadarnhaol bod Sir Benfro bellach yn bodloni'r targed o ran cynnig gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig (DA6). Mae Sir Benfro yn ymwybodol bod cofnodi gweithgareddau cymorth anffurfiol yn faes i'w wella ac mae'n gobeithio trefnu hyfforddiant staff yn hyn o beth yn ystod 2024. Mae benthyciadau electronig yn cynyddu'n gyflym ac mae'n bosibl y bydd angen i'r gwasanaeth gynyddu cyfran y gyllideb a ddyrennir i adnoddau electronig yn y dyfodol. Bydd hyn, wrth reswm, yn heriol oherwydd nad yw Sir Benfro yn bodloni'r targed caffaeliadau ar hyn o bryd a bu angen iddi ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i brynu adnoddau eleni.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Powys

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Powys, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Adroddodd Powys ei fod wedi bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a 2 yn rhannol drwy hunanasesu. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Powys yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd y 3 dangosydd ansawdd gyda thargedau sy'n weddill.

Mae Powys yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cymorth iechyd a lles; y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol; ymweliadau rhithwir; a benthycwyr gweithredol. Mae tystiolaeth bod y gwasanaeth yn parhau i adfer yn sgil y pandemig Covid am fod ffigyrau mynychu'n codi. Mae Powys wedi cynnal arolwg cwsmeriaid eleni, gan sicrhau ei fod bellach yn bodloni Hawl Graidd 11. Fodd bynnag, mae perfformiad yn erbyn DA gyda thargedau'n bryder, yn arbennig y ffaith nad yw targedau DA6 a DA9, a fodlonwyd yn 2022-23, bellach yn cael eu bodloni. Effeithiodd anawsterau staffio mewn un lleoliad ar allu'r gwasanaeth i gynnig digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig, er bod y rhain ar gael yn y 13 lleoliad arall, ac mae gostyngiadau sylweddol i'r gyllideb llyfrau yn golygu nad yw Powys bellach yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth. Yn ogystal, er y cydnabyddir yr anawsterau mae Powys yn eu cael o ran bodloni'r targed lleoliad gwasanaethau oherwydd dwysedd poblogaeth isel, mae llai na hanner aelwydydd Powys bellach o fewn y pellter dynodedig i wasanaeth llyfrgell neu arhosfan gwasanaeth symudol.

- Mae Powys yn perfformio'n dda iawn mewn perthynas â gofal cwsmeriaid; oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau; a phobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu (DA1a2).
- Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu mwy na seithwaith drosodd o'i gymharu â 2022-23 ac mae Powys yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA5).
- Mae nifer y benthycwyr gweithredol yn uwch na'r canolrif ac mae wedi cynyddu 6% o'i gymharu â 2022-23 (DA8).
- Mae benthyciadau i oedolion, benthyciadau i blant a benthyciadau electronig oll wedi cynyddu o'u cymharu â 2022-23, gan godi 13%, 11% a 18% yn y drefn honno (DA8).

- Yn dilyn gostyngiadau i'r gyllideb llyfrau, nid yw Powys yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth ac mae yn y chwartel isaf o awdurdodau llyfrgell yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn (DA9).

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Powys ei fod wedi bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a'r ddwy Hawl Graidd sy'n weddill yn rhannol drwy hunanasesu. Darparodd y gwasanaeth sylwebaeth fanwl a chynorthwyol yn y ffurflen. Ar sail hyn, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol.

1. **Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

2. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

3. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden, a darllen er pleser.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

4. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

5. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

6. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn rhannol
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
Mae hyn oherwydd y ffaith y codir tâl am eitemau o'r tu allan i'r awdurdod, ond o fewn Cymru.

**7. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**8. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**9. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**10. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**11. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn rhannol
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**
Cynhaliodd y gwasanaeth arolygon ymysg oedolion a phlant ym mis Mawrth 2024. Er bod bwlch o rai blynyddoedd ers yr arolygon diwethaf, mae Powys bellach wedi cymryd camau i fodloni'r Hawl Graidd hon.

**12. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisïau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**13. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Powys yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd y 3 dangosydd ansawdd gyda thargedau sy'n weddill.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **ni fodlonwyd ●**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA10 Adnoddau yn y Gymraeg
% o'r gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni ddarparwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) canran DPP, **ni ddarparwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r

safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 99% | 1/16 | 68% | 93.5% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 95% | =2/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion drwy fynychu: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Powys ddatganiad effaith a gyfeiriodd at y gwerth a gafodd un dysgwr drwy ymgysylltu â'r prosiect Nifer i Fyny' yn y gwasanaeth llyfrgell. Prosiect a gyllidwyd gan gangen Lluosi'r gronfa Ffyniant Bro yw 'Nifer i Fyny' sy'n ceisio tyfu hyder rhifedd ymysg rhieni a gofalwyr fel y gallant gefnogi dysgu eu plant, gwella'u cyfleoedd gwaith eu hunain a rheoli cyllid y cartref yn well. Roedd y dysgwr am oresgyn eu gorbryder ynghylch mathemateg, tra'n wynebu salwch cronig, er mwyn gwireddu eu breuddwyd o ddechrau busnes. Roeddent yn gwerthfawrogi natur hyblyg ar-lein y cwrs a nodwyd ei fod wedi helpu gyda'u gorbryder ynghylch mathemateg ac wedi rhoi hwb i'w hyder. Maent wedi ennill cymhwyster Sgiliau Hanfodol ac wedi dechrau eu busnes eu hun. Mae'r hyder a fagwyd drwy 'Nifer i Fyny' wedi'u galluogi i fynd ar drywydd cyfleoedd dysgu eraill gyda darparwyr prifysgol a fydd yn parhau i gefnogi twf eu busnes.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Powys ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 70% | =8/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 61% | 10/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 97% | =8/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 86% | 15/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =1/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 86% | =9/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 87% | 14/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.4 | =8/16 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 138 | 2/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 45 | 16/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 163 | 16/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 1,017 | 5/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 139 | 8/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 17% | =10/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 8% | =16/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 582 | 15/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[26] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 358 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 6068.25 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £9,068 | 19/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 67% | =11/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 10% | 12/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 5% | =7/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 17% | 11/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

[26] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae iechyd a lles yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Bowys ac mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno rhai gwasanaethau arloesol yn y maes hwn, fel rhoi benthyg teclynnau monitro pwysau gwaed a Rempods i gefnogi gweithgareddau hel atgofion gyda phobl sy'n byw gyda dementia. Gweithgaredd nodedig arall yw grŵp canu aml-genhedlaeth lle mae ysgol gynradd leol a phobl sy'n byw gyda dementia o'r gymuned a chartrefi gofal lleol yn dod ynghyd i ganu a chymdeithasu gyda'i gilydd (DA4). Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr wedi cynyddu mwy na seithwaith drosodd o'i gymharu â 2022-23 am fod y gwasanaeth wedi gallu cynyddu ei gynnig wedi i gyfyngiadau Covid-19 gael eu codi. Mae Powys yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA5). Fodd bynnag, mae'n is na'r canolrif ar gyfer y nifer sy'n mynychu cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth. Mae'r darlun yn gymysg yn sgil yr arolwg cwsmeriaid a gynhaliwyd eleni, ond mae Powys yn perfformio'n dda iawn mewn rhai meysydd, gan gynnwys gofal cwsmeriaid; oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau; a phobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu (DA1 a 2).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae cyfanswm y nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau a drefnwyd gan y llyfrgell wedi cynyddu 68% yn ystod 2023-24, er ei fod yn dal yn is na'r canolrif am fod y gwasanaeth yn parhau i weithio i adfer cynulleidfaoedd yn dilyn y pandemig (DA6). Mae'r rhaglen ddigwyddiadau'n cynnwys Stori a Chân, amser stori, grwpiau darllen, digwyddiadau 'Nifer i Fyny', Sialens Ddarllen Oedolion, grwpiau barddoniaeth, sesiynau Barddoniaeth ar Bresgripsiwn, Animeiddio Lego, gweithdai coginio a sesiynau cymorth digidol. Fodd bynnag, ni fodlonwyd y targed am nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sy'n darparu digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig oherwydd anawsterau staffio hirdymor. Fodd bynnag, nodir bod swydd Uwch Gynorthwyydd Llyfrgell (Cymorth Digidol), a gyllidwyd gan grant Cymorth Tai, yn canolbwyntio ar gynhwysiant digidol, gyda ffocws arbennig ar bobl sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref ac wynebu ynysigrwydd.

Nid yw Powys yn bodloni'r targed ar gyfer lleoliad gwasanaethau (DA7). Nodir yr heriau o weithio mewn ardal gyda dwysedd poblogaeth isel. Fodd bynnag, mae canran y boblogaeth o fewn pellter penodedig gwasanaeth llyfrgell neu arhosfan llyfrgell symudol wedi gostwng o'i chymharu â 2022-23.

Mae Powys yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgell Cymru am ymweliadau rhithwir, er gwaethaf y ffaith bod yr ymweliadau â'r wefan yn is nag yr oeddent yn 2022-23 (DA8). Mae nifer y benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth hefyd yn uwch na'r canolrif, ac mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 6% o'i gymharu â 2022-23. Mae'r gwasanaeth yn cynnig 'aelodaeth ysgafn' lle caiff cwsmeriaid ymuno â'r llyfrgell heb orfod dangos unrhyw dystiolaeth o'u cyfeiriad na dogfen hunaniaeth. Mae benthyciadau i oedolion, benthyciadau i blant a benthyciadau electronig oll wedi cynyddu o'u cymharu â 2022-23, gan godi 13%, 11% a 18% yn y drefn honno. Mae Powys yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif

cenedlaethol am fenthyciadau i oedolion ac yn agos i’r canolrif am fenthyciadau electronig.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Nid yw Powys yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth ac mae yn y chwartel gwaelod yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn (DA9). Gostyngodd ffigyrau’r gyllideb llyfrau a adroddwyd 19% ar gyfer y cyfnod 2023-24 ac mae’r gwasanaeth yn adrodd bod y sefyllfa hon yn annhebygol o wella wrth symud ymlaen. Mae’r gyllideb llyfrau am bob pen o’r boblogaeth yn y chwartel gwaelod yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer cyfran y gyllideb a wariwyd ar ddeunyddiau yn y Gymraeg ac mae'n cael copïau o'r rhan fwyaf o gyhoeddiadau newydd yn y Gymraeg (DA10). Mae Powys yn adrodd am rywfaint o ostyngiad yn nifer y llyfrau Cymraeg a brynwyd eleni am fod eu cyflenwr llyfrau Cymraeg wedi rhoi'r gorau i fasnachu ddiwedd 2023, ac felly roedd angen i'r gwasanaeth gynnal ymarfer caffael i benodi cyflenwr newydd. Mae benthyciadau yn y Gymraeg wedi cynyddu 12% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae Powys yn gweithio gyda Cymraeg i Blant i ddarparu sesiynau rhigymau a storïau Cymraeg i blant ac mae rhai llyfrgelloedd mwy hefyd yn cynnig Ioga Babi. Mae sawl grŵp sgwrsio Cymraeg hefyd.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Er yr adroddwyd am ffigyrau ar gyfer staff sy'n uniongyrchol atebol i reolwyr gwasanaethau llyfrgell o dan DA13 yn 2022-2, nid yw Powys wedi adrodd ffigyrau ar gyfer cyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth am fod staffio, cyllidebau, adeiladau ac adnoddau eraill yn cael eu rhannu a'u rheoli ar y cyd rhwng amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau (Gwasanaethau Diwylliannol). Mae adolygiad staffio ar waith ar hyn o bryd ar draws yr adran Gwasanaethau Diwylliannol a fydd yn cynnwys adolygu'r holl swydd-ddisgrifiadau. Er nad yw Powys yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, mae'r ffigur hwn yn uwch na'r canolrif ar gyfer awdurdodau llyfrgell Cymru. Mae'r Prif Lyfrgellydd ar secondiad ers mis Tachwedd 2021 a dyfarnwyd honorariwm i ddau Uwch Lyfrgellydd i liniaru effaith hyn o fis Mehefin 2023. Nid yw'r gwasanaeth wedi adrodd am oriau staff a dreuliwyd ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol eleni. Fodd bynnag, mae wedi rhoi system ar waith i sicrhau bod ffigur cywir ar gyfer 2024-25. Mae Powys yn defnyddio gwirfoddolwyr, ac adroddir bod oriau gwirfoddolwyr yn gyfwerth ag oddeutu 3.5 aelod o staff CALl[27]. Nodir bod y ffigur hwn yn cynnwys gwirfoddolwyr o bob rhan o’r Gwasanaethau Diwylliannol. Fodd bynnag, mae’n bwysig sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio yn unol â chanllawiau CILIP.

Mae Powys yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth ac mae'r ffigur hwn wedi gostwng o'i gymharu â 2022-23 (DA14). Mae'r gwasanaeth wedi cael cyllid grant Ffyniant Bro ar gyfer Hybiau Cymunedol Digidol a 'Nifer i Fyny' ond mae hyn yn dod i ben ym mis Rhagfyr

[27] *Mae nifer y gwirfoddolwyr yr adroddwyd amdanynt wedi cynyddu chwe gwaith drosodd o'i gymharu â 2022-23. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys gwirfoddolwyr mewn cyfleusterau wedi’u cydleoli e.e. y Gaer – Llyfrgell, Amgueddfa ac Oriel Gelf (Aberhonddu), a gafodd eu heithrio o’r ffigur yr adroddwyd amdano yn 2022-23.*

2024. Yn ogystal, mae cyfanswm y gwariant ar ddeunyddiau wedi gostwng oherwydd toriad sylweddol i'r gyllideb llyfrau. Mae Powys yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, er bod hyn wedi gostwng ychydig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn (DA16). Caiff rhai gwasanaeth eu cynnig hefyd yn ystod oriau heb staff.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Powys ystod o ffyrdd mae'n cyfrannu at nodau strategol, yn arbennig rhai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- **Cymru lewyrchus** e.e. darparu mynediad i ddysgu gydol oes drwy adnoddau printiedig ac electronig a chyfarpar TG a Wi-Fi am ddim.
- **Cymru iachach** e.e. galluogi mynediad i wybodaeth iechyd o ansawdd uchel, cyfranogi mewn cynlluniau fel Darllen yn Well a Llyfrau ar Bresgripsiwn, cynnig rhoi benthyg teclynnau monitro pwysau gwaed a threchu unigrwydd ac ynysigrwydd drwy ddarparu cysylltiadau a gweithgareddau.
- **Cymru fwy cyfartal** e.e. darparu mynediad i adnoddau a gwasanaethau am ddim ar y pwynt cyflwyno a chynnig gwasanaeth croesawgar a chynhwysol.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** e.e. darparu gwasanaeth sy'n agored i bawb sy'n byw, yn gweithio neu'n cael eu haddysg ym Mhowys, cynnig cyfle cyfartal i bawb a darparu gofod diogel a niwtral yn y gymuned.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** e.e. darparu cyfleusterau a leolir ar y cyd i gefnogi mynediad i weithgareddau diwylliannol a chynnig ystod eang o adnoddau a gweithgareddau yn y Gymraeg.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** e.e. annog ailgylchu a'r defnydd effeithlon o adnoddau, annog ymwelwyr i ganol trefi, galluogi pobl i gael eu cysylltu'n ddigidol a chefnogi gwirfoddolwyr i ddatblygu sgiliau.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Powys yn nodi y bydd toriadau i gyllidebau yn y dyfodol yn peri her ac y bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaeth llyfrgell sy'n gynaliadwy yn ariannol sy'n ymateb ac yn addasu i anghenion y gymuned. Mae gofyn darparu cynlluniau yng nghyd-destun y cyfeiriad strategol corfforaethol - Powys Gynaliadwy; fodd bynnag, mae hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd felly mae cynlluniau at y dyfodol ac union gyfeiriad Gwasanaethau Diwylliannol yn parhau'n aneglur. Bydd y gwasanaeth yn parhau i weithio ar y cyd fel grŵp Gwasanaethau Diwylliannol integredig lle caiff llawer o ffrydiau gwaith a phrosiectau eu hintegreiddio a'u croesdorri'n llawn, a lle caiff staffio, adeiladau, cyllidebau ac adnoddau eraill eu rhannu a'u rheoli ar y cyd. Mae'n ymddangos bod y ddibyniaeth drom ar gyllid grant allanol yn mynd i barhau. Mae'r gwasanaeth yn adrodd y bydd pwysau staffio'n parhau ar bob lefel yn arbennig yng nghyswllt rolau rheng flaen. Mae adolygiad o staffio ar draws y Gwasanaethau

Diwylliannol ar waith ar hyn o bryd a'r gobaith yw y bydd y strwythur staffio newydd yn caniatáu gwell cydweithio a rhannu adnoddau, a dosbarthu cyfrifoldebau strategol a gweithredol yn briodol ymysg yr holl staff.

## Casgliad

Mae Powys yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cymorth iechyd a lles; y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol; ymweliadau rhithwir; a benthycwyr gweithredol. Mae tystiolaeth bod y gwasanaeth yn parhau i adfer yn sgil y pandemig Covid am fod ffigyrau mynychu'n codi. Mae Powys wedi cynnal arolwg cwsmeriaid eleni, gan sicrhau ei fod bellach yn bodloni Hawl Graidd 11. Fodd bynnag, mae perfformiad yn erbyn DA gyda thargedau'n bryder, yn arbennig y ffaith nad yw targedau DA6 a DA9, a fodlonwyd yn 2022-23, bellach yn cael eu bodloni. Effeithiodd anawsterau staffio mewn un lleoliad ar allu'r gwasanaeth i gynnig digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig, er bod y rhain ar gael yn y 13 lleoliad arall, ac mae gostyngiadau sylweddol i'r gyllideb llyfrau yn golygu nad yw Powys bellach yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth. Yn ogystal, er y cydnabyddir yr anawsterau mae Powys yn eu cael o ran bodloni'r targed lleoliad gwasanaethau oherwydd dwysedd poblogaeth isel, mae llai na hanner aelwydydd Powys bellach o fewn y pellter dynodedig i wasanaeth llyfrgell neu arhosfan gwasanaeth symudol.

Mae'n anodd i'r asesydd annibynnol fyfyrio'n llawn ar effaith yr heriau staffio a wynebir ym Mhowys gan nad oes ffigurau ar gyfer cyfanswm y staff wedi'u darparu yn y datganiad. Yn y dyfodol, dylid ymdrechu i ddarparu ffigur cymesurol (gan gydnabod mai hwn fydd yr amcangyfrif gorau), nid yn unig i helpu i ddarparu mwy o wybodaeth am wasanaeth llyfrgell Powys, ond hefyd i roi darlun llawnach o ddarpariaeth llyfrgelloedd yn genedlaethol.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Rhondda Cynon Taf

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Rhondda Cynon Taf, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Rhondda Cynon Taf yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol. Nid yw'r targedau ar gyfer y 2 ddangosydd ansawdd sy'n weddill wedi'u bodloni.

Mae Rhondda Cynon Taf yn dangos cryfderau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth; y nifer sy’n mynychu hyfforddiant; cymorth ar gyfer iechyd a lles; a darpariaeth ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig (sydd bellach ar gael ym mhob man gwasanaeth). Fodd bynnag, mae nifer o feysydd sy’n peri pryder yn yr adroddiad hwn. Mae'r gostyngiad yn y gyllideb caffaeliadau'n fater o bryder. Er bod y gwasanaeth, hyd yma, wedi mynd ati i liniaru effaith hyn ar gwsmeriaid, hyd eithaf ei allu, mae'r gostyngiad drastig pellach a ragwelir yn 2024-25 yn ofid am nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth ar hyn o bryd ac mae ei wariant ar adnoddau i blant yn arbennig o isel. Mae'r gostyngiadau parhaus mewn staffio ac oriau agor a adroddwyd hefyd yn fater o bryder eithriadol, o ystyried nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r naill na'r llall o'r targedau hyn.

- Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ac mae wedi cynyddu 45% o'i gymharu â 2022-23 (DA5).
- Mae cyfanswm y nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi cynyddu 65% o'i gymharu â 2022-23 (DA6).
- Mae nifer yr ymweliadau â'r wefan wedi cynyddu 20% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA8).
- Mae caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth wedi disgyn o'u cymharu â 2022-23 a rhagwelir y bydd toriad pellach i'r gyllideb yn 2024-25 (DA9).
- Nid yw Rhondda Cynon Taf yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor ac mae yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn. Mae cyfanswm yr oriau agor i lawr 9% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA16).

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Rhondda Cynon Taf ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol. Nid yw'r targedau ar gyfer y 2 ddangosydd ansawdd sy'n weddill wedi'u bodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% o'r gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) canran DPP, **ni fodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y

cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24[28]. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| **Dangosydd perfformiad** | | **Safle** | **Isaf** | **Canol-rifol** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % o'r bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 90% | =10/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y rheini a fynychodd sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod mynychu wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 97% | 10/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Rhondda Cynon Taf ddatganiad effaith am yr Hwb Cynhwysiant, Yr Hwb. Gan ddechrau ar ddechrau blwyddyn academaidd 2023, mewn partneriaeth ag Ysgol Gymunedol Glynrhedynog, mae'r gwasanaeth wedi darparu gofod i ddisgyblion ei ddefnyddio fel opsiwn amgen i gael eu heithrio o'r ysgol. Caiff disgyblion y cyfle i dreulio diwrnod yn astudio'n dawel yn Hwb Glynrhedynog. Caiff yr amser ei dreulio gyda gweithiwr cymorth a gall disgyblion ganolbwyntio ar waith ysgol a myfyrio am eu hymddygiad. O ganlyniad i'r fenter, adroddwyd bod gostyngiad wedi bod mewn niferoedd eithrio disgyblion o'r ysgol a gostyngiad yn yr amser dysgu a gollir. Mae'r fenter wedi codi proffil y llyfrgell ymysg pobl ifanc ac wedi'u gwneud yn fwy ymwybodol o'r ystod o wasanaethau mae'r llyfrgell yn eu darparu. Nododd cynorthwyydd llyfrgell o Hwb Glynrhedynog, *"Mae'r Hwb cynhwysiant wedi amlygu'r gwasanaethau sydd ar gael i'n pobl ifanc ac wedi helpu i ddatblygu cysylltiadau gyda'r genhedlaeth iau."* Amlygodd Rheolwr Busnes a Chyfleusterau Ysgol Gymunedol Glynrhedynog / Prif Weithredwr Partneriaeth Fern fudd y bartneriaeth gan ddweud, *"Mae'r prosiect cadarnhaol hwn wedi lleihau'r amser dysgu a gollir ac wedi cynnal lleoliad mewn amgylchedd addysgol."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

[28] *Gwnaeth Rhondda Cynon Taf gynnwys data ar gyfer oedolion mewn perthynas â DA1 a DA2 yn y ffurflen, ond roedd y rhain yn gysylltiedig ag arolygon i oedolion a gynhaliwyd cyn mis Ebrill 2022, felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl cymhariaeth.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | Ni ddarparwyd | Dd/B | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | Ni ddarparwyd | Dd/B | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | Ni ddarparwyd | Dd/B | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | Ni ddarparwyd | Dd/B | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | Ni ddarparwyd | Dd/B | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | Ni ddarparwyd | Dd/B | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | Ni ddarparwyd | Dd/B | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.4 | =8/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 25 | 9/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 19 | 17/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 211 | 11/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 586 | 13/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 87 | 19/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 12% | =20/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau electronig | 22% | 6/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 436 | 17/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[29] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 16 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 1,390 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £10,015 | 16/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 74% | =4/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 12% | =6/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 2% | =16/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 12% | 15/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth ar gyfer awdurdodau llyfrgell Cymru wedi cynyddu 45% o'i gymharu â 2022-23 (DA5). Caiff hyfforddiant ei ddarparu gan bartneriaid fel Addysg i Oedolion, Cymunedau am Waith a Mwy, Dydd Gwener Digidol a Phobl a Gwaith. Er bod cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn is na'r canolrif, mae hyn wedi cynyddu 140% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae Rhondda Cynon Taf yn bodloni'r targed ar gyfer Iechyd a lles (DA4). Ymhlith y digwyddiadau sydd wedi'u hanelu at les yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae grŵp Crosio Crefftus, a sesiynau Gwella ein sgiliau digidol, sy'n cynnwys chwilio am wybodaeth Iechyd a Lles. Ymhlith y sefydliadau sy'n defnyddio cyfleusterau llyfrgell mae Integrated Autism, Ti Chi Cadair, New Horizons (Iechyd Meddwl), a Bwyd Doeth am Oes (bwyta'n iach). Mae Rhondda Cynon Taf yn bwriadu cynnal arolygon cwsmeriaid yn ddiweddarach yn 2024 (DA1aDA2).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Er bod Rhondda Cynon Taf yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru o ran ymweliadau rhithwir, mae nifer yr ymweliadau â'r wefan wedi cynyddu 20% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA8). Mae nifer y benthycwyr gweithredol yn is na'r canolrif ond yn cynyddu (i fyny 6%). Mae Rhondda Cynon Taf yn nodi cynnydd yn nifer y defnyddwyr gweithredol er gwaethaf y ffaith bod gostyngiad wedi bod yng nghyfanswm yr aelodau llyfrgell, a hynny am fod aelodau digidol yn cyrchu casgliadau digidol yn fwy rheolaidd. Mae benthyciadau llyfrau i oedolion a llyfrau i blant yn y chwartel gwaelod yn genedlaethol a bron yn ddigyfnewid o'u cymharu â'r

[29] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

flwyddyn flaenorol. Mae benthyciadau electronig, er eu bod yn y chwartel gwaelod o hyd, wedi cynyddu 18% o'u cymharu â 2022-23.

Yn dilyn adroddiad y llynedd, pan na fodlonodd Rhondda Cynon Taf y targed ar gyfer DA6, sicrhaodd y gwasanaeth fod y ddwy lyfrgell sy'n weddill nad oes ganddynt gyfleusterau cymunedol wedi cynnal rhai gweithgareddau yn gysylltiedig â chyflogaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae felly'n bodloni'r targed eleni. Ymhlith yr enghreifftiau o ddigwyddiadau i gwsmeriaid ag anghenion penodol mae Autistic Minds (ar gyfer rhieni plant awtistig); Sgiliau Hanfodol; Clybiau Gwaith; sesiynau ar droseddau cyllyll, ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio cyffuriau/alcohol ac iechyd rhywiol a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid; grŵp dementia; Y Gymdeithas Strôc; a chôr i ddioddefwyr cyflyrau'r ysgyfaint. Mae cyfanswm y nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi cynyddu 65% o'i gymharu â 2022-23 ac ymhlith y gweithgareddau mae Knitting Nannas, clwb Garddio U3A, Iaith Arwyddion, Gŵyl Aberdâr, Gŵyl Fwyd Treorci a marchnad Dydd Gŵyl Dewi.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Mae caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth wedi disgyn o'u cymharu â 2022-23 (DA9). Mae'r gwariant a adroddwyd ar ddeunyddiau wedi gostwng 18% o'i gymharu â 2022-23 ac mae'r gwasanaeth yn adrodd y bydd y gyllideb llyfrau'n gostwng £56,000 pellach yn 2024-25. Hyd yma, mae Rhondda Cynon Taf wedi ceisio cynnal nifer y teitlau sy'n cael eu prynu, tra'n prynu llai o gopïau o bob teitl. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad sylweddol pellach yn y gyllideb a ragwelir ar gyfer 2024-25, wrth gwrs, yn debygol o gael effaith hyd yn oed fwy drastig. Y gwasanaeth sydd gydradd isaf yn genedlaethol am gyfran y gyllideb a ddyrannwyd i stoc i blant ac mae yn y chwartel gwaelod am wariant am bob pen o'r boblogaeth ar bobl ifanc o dan 16 oed. Mae Rhondda Cynon Taf yn bodloni'r targed ar gyfer cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i stoc yn y Gymraeg, er bod lefel y gwariant wedi gostwng yn unol â gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb llyfrau (DA10). Mae benthyciadau yn y Gymraeg wedi cynyddu 19% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, er bod Rhondda Cynon Taf yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnal gweithgareddau yn y Gymraeg yn rhan o raglen reolaidd yr haf ac mae'n cyfranogi mewn digwyddiadau Cymraeg fel diwrnod Shwmae Su'mae. Mae penodi siaradwr ail iaith i Wasanaethau Plant yn golygu bod Rhondda Cynon Taf yn gallu cynyddu nifer y digwyddiadau Cymraeg sy'n cael eu cynnig.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, gwnaed penderfyniad i gadw'r model gwasanaeth 'Gartref' estynedig a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig Covid a dileu gwasanaeth y llyfrgell deithiol yn barhaol yn 2023. Arweiniodd hyn at golli dau aelod o staff o'r llyfrgell deithiol ac un cynorthwywydd llyfrgell. Gwrthbwyswyd y gostyngiad yn rhannol drwy gyflwyno rolau prentis a rheolwr prosiect (drwy gyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol) ond mae wedi arwain at ostyngiad yn nifer y staff yn gyffredinol. Nid yw Rhondda Cynon Taf yn bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na chyfanswm y staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth; mae oddeutu'r

canolrif cenedlaethol ar gyfer y cyntaf ac yn is na'r canolrif ar gyfer yr ail (DA13). Fodd bynnag, mae disgwyl i un aelod o staff sy'n gweithio tuag at gymhwyster ar hyn o bryd raddio eleni. Er bod amser staff a ddyrannwyd i hyfforddiant wedi cynyddu ers y llynedd, nid yw Rhondda Cynon Taf yn bodloni'r targed hwn. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd cyflogi Swyddog Datblygu TGCh dros dro yn 2024-25 yn arwain at gynnydd mewn hyfforddiant saff.

Nid yw Rhondda Cynon Taf yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor ac mae yn chwartel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA16). Mae cyfanswm yr oriau agor i lawr 9% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cynnig gwasanaeth cludo 'Gartref' hefyd nad yw wedi'i gynnwys yn y cyfanswm oriau. Mae Rhondda Cynon Taf yn mabwysiadu model clwstwr fel bod o leiaf un llyfrgell gangen a llyfrgell ardal ar agor ym mhob clwstwr am 6 diwrnod yr wythnos.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Rhondda Cynon Taf ystod o ffyrdd y mae'n cyfrannu at nodau strategol, yn arbennig rhai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- **Cymru lewyrchus** e.e. darparu mynediad am ddim i TGCh a mynediad 24/7 i adnoddau digidol, cynnig hyfforddiant a chymorth ar gyfer sgiliau digidol, sgiliau hanfodol a dysgu gydol oes, gweithio mewn partneriaeth i gefnogi Clybiau Gwaith a rhaglenni dychwelyd i'r gwaith a chynnig cyfleoedd gwirfoddoli.
- **Cymru gydnerth** e.e. deall anghenion y gymuned leol a chynnig gwasanaeth cynhwysol sy'n agored i bawb, darparu ymdeimlad o ofod a chymuned gyffredin, datblygu hybiau lleol i gynnig mwy o gymorth cymdeithasol.
- **Cymru iachach** e.e. cyfranogi mewn cynlluniau iechyd fel Gwell gyda Llyfrau a Darllen yn Well, cynnal digwyddiadau iechyd a lles, darparu gofodau sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a darparu gwasanaeth 'Gartref'.
- **Cymru fwy cyfartal** e.e. cynnig gwasanaethau i bob rhan o'r gymuned, darparu gofod diogel ar gyfer grwpiau agored i niwed a dathlu a hyrwyddo digwyddiadau fel Mis Balchder a Mis Hanes Pobl Ddu.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** e.e. darparu amgylchedd diogel lle caiff cysylltiadau eu gwneud a gweithio mewn partneriaeth i gyfranogi mewn rhaglenni sy'n meithrin ewyllys da a balchder yn y gymuned.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** e.e. darparu mynediad i adnoddau yn y Gymraeg, cynnal rhaglen o ddigwyddiadau dwyieithog a Chymraeg a sicrhau ei bod yn hawdd adnabod aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** e.e. darparu gwybodaeth yr ymddiriedir ynddi am faterion amgylcheddol a mentrau lleol a chefnogi ailgylchu.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Rhondda Cynon Taf yn cyfeirio at heriau toriadau cyllidebol a'r angen i wneud arbedion effeithlonrwydd pellach yn 2024-25. Bydd y rhain yn cynnwys: dadsefydlu un rôl Cynorthwyydd Rheoli Stoc a thair rôl Uwch Gynorthwyydd Llyfrgell; gostwng oriau agor pob Llyfrgell Ardal o 49 awr yr wythnos i isafswm o 44 awr yr wythnos a chysoni’r egwyddor 'byth ar gau dros amser cinio' ar draws yr holl Lyfrgelloedd Cangen; a gostwng y gyllideb llyfrau 21%. Bydd y gwasanaeth yn gweithredu'r system rheoli llyfrgelloedd newydd ac mae'n disgwyl y bydd hyn yn mynnu cryn baratoi. Bydd y gwasanaeth yn peilota model hwb cydnerthedd gyda Gweithiwr Cymunedol wedi'i leoli mewn llyfrgell yn gweithio ar y cyd â staff llyfrgell ac ymgynghorwyr IBobUn i greu dull 'un drws' i dderbyn ystod o ymholiadau, gan gynnwys rhai'n gysylltiedig â thai ac iechyd meddwl.

## Casgliad

Mae Rhondda Cynon Taf yn dangos cryfderau mewn nifer o feysydd, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth; y nifer sy’n mynychu hyfforddiant; cymorth ar gyfer iechyd a lles; a darpariaeth ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig (sydd bellach ar gael ym mhob man gwasanaeth). Fodd bynnag, mae nifer o feysydd sy’n peri pryder yn yr adroddiad hwn. Mae'r gostyngiad yn y gyllideb caffaeliadau'n fater o bryder. Er bod y gwasanaeth, hyd yma, wedi mynd ati i liniaru effaith hyn ar gwsmeriaid, hyd eithaf ei allu, mae'r gostyngiad drastig pellach a ragwelir yn 2024-25 yn ofid am nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth ar hyn o bryd ac mae ei wariant ar adnoddau i blant yn arbennig o isel. Mae'r gostyngiadau parhaus mewn staffio ac oriau agor a adroddwyd hefyd yn fater o bryder eithriadol, o ystyried nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r naill na'r llall o'r targedau hyn.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Abertawe

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Abertawe, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Abertawe yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Abertawe yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd y 2 darged a oedd yn weddill.

Mae Abertawe yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys ymweliadau rhithwir, benthycwyr gweithredol, benthyciadau, niferoedd sy'n mynychu hyfforddiant a niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau. Fodd bynnag, fel y llynedd, mae cyllidebau caffael a diffyg staff cymwysedig, yn ogystal ag amser cyfyngedig a neilltuir i hyfforddi staff, yn parhau'n feysydd sy'n peri pryder.

- Gwelwyd cynnydd amlwg yn y niferoedd sy'n derbyn cymorth i ddefnyddwyr ers 2022-23; mae Abertawe bellach yn uwch na'r canolrif ar gyfer hyfforddiant/cymorth ffurfiol ac anffurfiol (DA5).
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer gwasanaethau llyfrgell Cymru ac mae cyfanswm yr achosion o fynychu wedi cynyddu 48% o'i gymharu â'r r flwyddyn flaenorol (DA6).
- Mae benthyciadau oedolion, benthyciadau i blant a benthyciadau clyweledol oll yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ac mae benthyciadau o bob math wedi cynyddu eleni (DA8).
- Mae’r gwasanaeth hefyd yn amlwg yn gwneud ymdrechion i ddeall meysydd lle nad yw’n perfformio cystal yn well, a gwella’r rhain (e.e. defnydd pobl ifanc o’r llyfrgell at ddibenion dysgu ac adrodd am hyfforddiant staff)

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Abertawe ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Abertawe yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd y 2 darged sy'n weddill.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth **ni fodlonwyd ●**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% o'r gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau Cymraeg, **ni fodlonwyd ●**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **ni ddarparwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o’r farn bod defnyddio’r llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 68% | 16/16 | 68% | 93.5% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o’r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 95% | =2/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y rheini a fynychodd sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod mynychu wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 91% | 15/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Abertawe ddatganiad effaith am ddyn a oedd yn ddigartref wedi iddo gael ei ryddhau o'r carchar, ac yntau heb unrhyw gysylltiadau cymdeithasol. Roedd wedi dysgu am wasanaethau llyfrgell yn ystod ei gyfnod yn y carchar am fod Gwasanaeth Llyfrgelloedd Abertawe yn darparu gwasanaeth llyfrgell i Garchar Ei Fawrhydi Abertawe. Tra'i fod yn ddigartref, roedd wedi defnyddio'r ddarpariaeth 'gofod cynnes' yn y llyfrgell yn ogystal â gwasanaethau eraill. Darparodd y llyfrgell ofod diogel ac, yn y cyfnod pan oedd yn chwilio am lety, roedd y llyfrgell yn gallu ei gynorthwyo yn ei ymchwil a'i gyfeirio at wasanaethau perthnasol. Yn sgil hynny, daeth o hyd i lety a gwaith ac mae wedi cyflwyno ffrind a'i phlentyn i'r llyfrgell. Adroddodd ei fod yn gwerthfawrogi'r cymorth roedd wedi'i gael a'r ffordd roedd staff y llyfrgell wedi'i drin yn garedig a gyda pharch.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Abertawe ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 69% | =10/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 65% | 9/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 93% | 15/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 92% | 8/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =1/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 90% | =3/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 99% | =3/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.6 | 4/16 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 27 | 8/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 141 | 9/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 340 | 6/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 893 | 7/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 157 | 3/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau i blant | 18% | =8/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau electronig | 15% | 14/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 621 | 11/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[30] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 15 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 934 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £13,850 | 8/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 77% | 2/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 12% | =6/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 4% | =9/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 8% | 17/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

[30] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Gwelwyd cynnydd amlwg yn y niferoedd sy'n derbyn cymorth i ddefnyddwyr ers 2022-23. Mae Abertawe bellach yn uwch na'r canolrif ar gyfer hyfforddiant/cymorth ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd. Mae'r nifer sy'n mynychu cymorth anffurfiol wedi cynyddu 26% ac mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu 158% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA5). Mae'r sesiynau a gynigiwyd wedi cynnwys sgiliau digidol a dysgu electronig (gan gynnwys darpariaeth drwy ddarparwyr eraill a gwasanaeth Dysgu Gydol Oes y Cyngor); rhaglen Cyfuno a gwasanaethau cyflogadwyedd; teithiau llyfrgell; gweithdai creadigol; a gweithgareddau llenyddol.

Mae Abertawe yn perfformio'n dda ar gyfer gofal cwsmeriaid (DA2). Fodd bynnag, yn yr arolwg diwethaf, a gynhaliwyd ddiwedd 2022, teimlai staff fod canran y bobl ifanc a oedd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu yn siomedig (DA1). Mewn ymateb i hyn, mae'r gwasanaeth llyfrgell bellach wedi gweithio gydag ysgol gynradd leol i ymchwilio i sut gellid casglu adborth gan blant yn well - gan gynnwys o bosibl drwy gyfrwng ymweliadau ag ysgolion neu'n ddigidol. Mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi ymateb i geisiadau ac awgrymiadau stoc gan blant a rhieni. Mae staff yn hyrwyddo'r adnoddau ar-lein a ddarperir i blant drwy ymweliadau ag ysgolion a chyflwyniadau i sesiynau HMS ac maent wedi gweithio gydag un ysgol sy'n rhannu'r un safle â'r llyfrgell gymunedol i gasglu eu barn ar y deunydd sydd ar gael. Mae Abertawe yn cydnabod nad yw pob cangen yn cynnig ystod lawn o weithgareddau ym maes iechyd a lles (DA4) ond mae'n casglu enghreifftiau o arferion gorau i helpu llyfrgelloedd nad ydynt yn cyflawni llawer o weithgarwch ar hyn o bryd yn yr holl feysydd hyn er mwyn ystyried pa gyfleoedd y gallent eu darparu.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer gwasanaethau llyfrgell Cymru ac mae cyfanswm y nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 48% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA6). Mae penodi Swyddog Digwyddiadau a chyllid ychwanegol drwy law Coast a ffynonellau eraill wedi galluogi cynnal mwy o ddigwyddiadau. Mae Abertawe yn adrodd bod dulliau casglu data gwell hefyd wedi cyfrannu at y DA hwn. Roedd y gwasanaeth yn gallu darparu data ar leoliad gwasanaethau eleni ac mae hyn yn bodloni'r targed ar gyfer DA7.

Mae Abertawe yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am nifer yr ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth (DA8). Mae nifer yr ymweliadau a adroddwyd 56% yn uwch nag yr oedd yn 2022-23; fodd bynnag, mae hyn yn rhannol oherwydd newid yn y dulliau casglu data er mwyn alinio Abertawe ag awdurdodau eraill Cymru. Er bod niferoedd y benthycwyr gweithredol wedi gostwng ychydig (5%), mae'r gwasanaeth yn dal yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn ac mae 50% o aelodau llyfrgell yn fenthycwyr gweithredol. Mae benthyciadau i oedolion, benthyciadau i blant a benthyciadau clyweledol oll yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru. Mae benthyciadau o bob math wedi cynyddu mwy na’r cyfartaledd cenedlaethol: 9% ar gyfer benthyciadau i oedolion,

16% benthyciadau i blant, 25% i fenthyciadau clyweledol a 41% i fenthyciadau electronig .

### Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Nid yw Abertawe yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r ffigur hwn yn is na'r ffigur a adroddwyd y llynedd (DA9) oherwydd cyllidebau statig ochr yn ochr â chostau cynyddol deunyddiau. Mae'r gwasanaeth yn symud yn raddol i brynu mwy ar-lein ac yn ddigidol yn gymesur er mwyn adlewyrchu'r galw gan gwsmeriaid a thueddiadau cyhoeddi (e.e. ym maes deunyddiau ffeithiol i blant). Nid yw Abertawe yn bodloni'r targed ar gyfer canran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau yn y Gymraeg; mae hyn wedi parhau'n ddigyfnewid ers y flwyddyn flaenorol (DA10). Fodd bynnag, mae benthyciadau yn y Gymraeg ychydig yn uwch na'r canolrif ac wedi cynyddu 6% o'u cymharu â 2022-23, er eu fod ychydig yn is na’r canolrif. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn llwyddiannus o ran recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg dros y cyfnod adrodd hwn sydd wedi galluogi mwy o gyfle i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Fel y llynedd, nid yw Abertawe yn bodloni'r targed ar gyfer cyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth, er ei fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru. Adroddir bod yr awdurdod yn cael anawsterau gyda rheoli recriwtio, sy'n arwain at oedi hir wrth benodi staff. Mae Abertawe yn is na'r canolrif ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth (DA13) ac mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod pwysau cyllido presennol yn golygu bod hyn yn annhebygol o newid. Er nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer amser staff a ddyrannwyd i hyfforddiant, mae'r ffigur hwn wedi cynyddu o'i gymharu â 2022-23. Mae Abertawe yn priodoli hyn i system gofnodi newydd a'r ffaith bod gofyn i staff adnewyddu'r holl hyfforddiant gorfodol. Mae gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu ychydig o'i gymharu â 2022-23 (DA14). Cynyddodd y gwasanaeth ei wariant ar rai adeiladau llyfrgell cymunedol (e.e. paentio, gwaith trydanol). Mae Abertawe yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, ac mae cyfanswm yr oriau agor yr un peth ag yr oeddent yn y flwyddyn flaenorol (DA16).

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Abertawe amrywiaeth o ffyrdd mae'n cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae’r rhain yn cynnwys:

- **Gofal iechyd cynaliadwy** e.e. cefnogi cynlluniau fel Darllen yn Well, darparu gwasanaethau i'r bobl fwyaf agored i niwed drwy'r gwasanaeth cludo i'r cartref a chynnal digwyddiadau i gefnogi lles a mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol.
- **Pobl agored i niwed** e.e. darparu gofodau diogel cynnes a chroesawgar, cynnal digwyddiadau am ddim wedi'u targedu at deuluoedd a gweithgarwch y

tu allan i'r ysgol, a dosbarthu bagiau byrfwyd gwyliau'r haf i gynorthwyo'r bobl nad oeddent yn cael cymorth prydau ysgol am ddim y tu allan i'r ysgol.

- **Economi, gwasanaethau a diwydiannau cynaliadwy at y dyfodol** e.e. partneru â sefydliadau fel Gyrfa Cymru.
- **Yr argyfwng hinsawdd a natur** e.e. cefnogi mentrau ailgylchu a pheilota teclynnau i fonitro a lleihau'r defnydd o ynni.
- **Addysg a lleihau anghydraddoldebau** e.e. cynyddu cydweithredu ag ysgolion a llyfrgelloedd mewn perthynas â rhaglen Cynefin a'r cwricwlwm ysgol newydd, cefnogi llythrennedd plant drwy ymweld â dosbarthiadau a chymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf.
- **Amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb** e.e. monitro amrywiaeth yn y casgliadau, cefnogi ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol fel Mis Hanes Pobl Ddu a Mis Pride a darparu Llyfrgell Noddfa.
- **Y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg** e.e. parhau i hyrwyddo deunyddiau yn y Gymraeg.
- **Trawsnewid trefi** e.e. cefnogi'r Storfa, prosiect hwb canol y ddinas a cheisio buddsoddiad cyfalaf pellach i wella adeiladau llyfrgell a datblygu gwasanaethau newydd mewn cymunedau.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn y flwyddyn sydd i ddod, mae Abertawe yn adrodd ei fod yn datblygu model at y dyfodol o hybiau cymunedol i'r cyngor ac adeiladu ar y cynlluniau ar gyfer Hwb Canol y Ddinas, Y Storfa, y mae disgwyl iddo fod ar gael erbyn Haf 2025. Bydd y gwasanaeth yn adeiladu ar y cynllun gweithredu a ddatblygodd yn ei gais llwyddiannus am statws Llyfrgell Noddfa a bydd yn cynnal rhaglen o ddigwyddiadau wedi'u targedu. Caiff rhai camau gweithredu o'r flwyddyn flaenorol eu dwyn ymlaen, gan gynnwys datblygu cod ymddygiad a hyfforddiant staff gan gynnwys ymchwilio i fwy o lwybrau cymwysterau i staff sydd eisoes yn eu swyddi. Bydd y gwasanaeth yn chwilio am ffyrdd o symleiddio systemau gweinyddol drwy ddefnyddio technoleg; systemau teleffon gwell a chyfrifiaduron wedi’i moderneiddio i'r staff a'r cyhoedd; a chreu arbedion ynni. Bydd y gwasanaeth yn rhoi'r system rheoli llyfrgelloedd newydd ar waith ac mae disgwyl i hon fod yn adnodd arwyddocaol yn ystod y flwyddyn. Nod y gwasanaeth yw cyflogi cydlynydd Diwylliannol Cymunedol a fydd yn gweithio gyda llyfrgelloedd i ymgysylltu â mwy o drigolion ym maes diwylliant yn Abertawe.

## Casgliad

Mae Abertawe yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys ymweliadau rhithwir, benthycwyr gweithredol, benthyciadau, y nifer sy'n mynychu hyfforddiant a'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau. Mae Abertawe wedi gwella rhai o'i weithdrefnau casglu data a monitro eleni, sydd wedi galluogi'r gwasanaeth i adrodd data mwy cywir mewn perthynas â sawl DA yn y ffurflen hon. Mae'r gwasanaeth hefyd yn amlwg yn gwneud ymdrechion i ddeall meysydd lle nad yw'n perfformio cystal yn well, a gwella'r rhain (e.e. defnydd pobl ifanc o'r llyfrgell at ddibenion dysgu ac adrodd am hyfforddiant staff). Mae'n ymddangos hefyd bod penodi Swyddog Digwyddiadau wedi cael effaith ar y sefydliad ac ar raddau adrodd ar ddigwyddiadau a gweithgareddau fel ei gilydd. Fodd bynnag, fel y llynedd, mae cyllidebau caffael a diffyg staff cymwysedig yn parhau'n feysydd sy'n peri pryder.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Torfaen

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Torfaen, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol


Mae Torfaen yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Torfaen yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd y 3 tharged sy'n weddill.

Mae Torfaen yn parhau i berfformio'n dda o ran y nifer sy'n mynychu hyfforddiant defnyddwyr, ac effaith hynny, yn ogystal â chymorth iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o gymorth a gweithgareddau i gwsmeriaid ag amrywiaeth o anghenion a diddordebau. Mae tystiolaeth bod ymgysylltu a benthyciadau yn Llyfrgelloedd Torfaen yn adfer yn dilyn cyfnod y pandemig Covid. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd yn parhau i beri pryder. Mae'r gostyngiad parhaol i oriau agor yn peri pryder arbennig, am mai oriau agor am bob pen o'r boblogaeth yn Nhorfaen yw'r isaf yn genedlaethol. Nodir bod gwariant ar ddeunyddiau a gwariant ar y Gymraeg wedi cynyddu ychydig, ond mae Torfaen yn dal i fethu â bodloni'r targedau hyn. Mae staffio hefyd yn parhau i godi pryderon am fod cyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth ymhlith yr isaf o blith awdurdodau llyfrgell Cymru ac mae'r dyraniad hyfforddiant staff yn parhau i fod yn is na'r targed.

- Mae Torfaen yn bodloni'r targed ar gyfer iechyd a lles yn llawn ac wedi cyflwyno nifer o weithgareddau arloesol yn gysylltiedig â lles (DA4).
- Mae Torfaen yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth. Mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 96% o'i gymharu â 2022-23 (DA5).
- Mae benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth yn agos i'r canolrif ac mae nifer y benthycwyr wedi cynyddu 14% o'i gymharu â 2022-23 (DA8).
- Mae Torfaen ymhell o dan y targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth a'r gwasanaeth yw'r isaf yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn (DA16).


## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Torfaen ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Torfaen yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Ni fodlonwyd y 3 tharged sy'n weddill.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **ni fodlonwyd ●**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **ni fodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 82% | =13/15 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 86% | =10/16 | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 100% | =1/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Torfaen ddatganiad effaith a ganolbwyntiodd ar werth ei ddigwyddiad cyntaf, 'Llyfrgell y Bobl'. Roedd y digwyddiad yn cynnwys dod â phobl i mewn fel 'llyfrau dynol' i siarad am ystod o brofiadau personol. Y nod oedd galluogi pobl i ymgysylltu mewn sgyrsiau ystyrlon, herio ystrydebau a deall pobl o gefndiroedd gwahanol. Darparodd y llyfrgell ofod niwtral lle gallai pobl wneud cysylltiadau â'i gilydd a siarad yn agored. Darparodd y cyfranogwyr adborth cadarnhaol, a oedd yn cynnwys eu bod yn teimlo'u bod wedi'u hysbrydoli a'u grymuso, yn ogystal â theimlo bod cysur ac anogaeth iddynt wrth geisio cael help at eu problemau eu hunain. Ar sail y llwyddiant hwn, mae'r llyfrgell yn bwriadu cynnal ail weithgaredd 'Llyfrgell y Bobl' ym mis Gorffennaf 2024.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Torfaen ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 69% | =10/16 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 69% | 7/16 | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 97% | =8/16 | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 89% | 12/16 | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 97% | 14/16 | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 82% | =11/15 | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 98% | =5/15 | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 8.9 | 14/15 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 42 | 3/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 170 | 6/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 148 | 17/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 395 | 16/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o’r boblogaeth | 120 | 13/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 17% | =10/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 10% | 14/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o’r boblogaeth | 405 | 19/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[31] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 0 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 0 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £9,598 | 17/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 68% | =9/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 12% | =6/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 1% | =19/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 18% | 10/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

[31] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Torfaen yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth (DA5). Mae'r cyfanswm wedi cynyddu 96% o'i gymharu â 2022-23 o ganlyniad i ddarpariaeth estynedig gan grŵp 'Cymunedau i Waith' Cyflogadwyedd a Sgiliau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a rhaglen wedi'i ffocysu o weithgareddau sgiliau i ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r llyfrgell a hybu aelodaeth llyfrgell yn dilyn Covid. Dywedodd 100% o'r mynychwyr a atebodd yr arolwg fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn uwch na'r canolrif ar gyfer cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth ac adroddwyd bod y nifer sy'n mynychu wedi codi 28% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r Swyddog Proffesiynol Iechyd a Lles wedi gweithio i ddatblygu rhaglen o weithgareddau, gan gynnwys digwyddiadau yn y gymuned i ofalwyr, a chymorth a chyngor arbed arian i bobl agored i niwed yn ystod yr argyfwng costau byw sy'n parhau (DA4). Ymhlith yr enghreifftiau eraill o weithgareddau'n gysylltiedig ag iechyd a lles roedd achlysuron cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gynnal grŵp hunan-help newydd i oroeswyr anafiadau i'r ymennydd a strôc; gyda Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent i ddarparu cwrs am ddim ar ffeibromyalgia a phoen gronig; a gyda Sefydliad Jacob Abraham i sefydlu grŵp cymorth newydd ar gyfer pobl sydd wedi cael profiadau o hunanladdiad yn eu teuluoedd.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Er bod y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth yn is na'r canolrif o hyd, mae'r nifer sy'n mynychu wedi codi 37% o'i gymharu â'r llynedd (DA6). Ymhlith y gweithgareddau eleni mae Croeso Cynnes; gweithdai ukelele'r haf; teithiau llyfrgell a sesiynau llyfrau i fyfyrwyr ag anhwylder Asperger ac anableddau corfforol; sesiynau amser rhigwm newydd i fabanod wedi'u cyfeirio'n benodol at dadau ifanc; grŵp dementia 'Forget Me Not Fridays'; sesiynau 'te a tech' i bobl hŷn; sesiwn stori a llyfrau i blant o Ganolfan Adnoddau i Blant Byddar ysgol gynradd leol; sesiynau chwaraeon i'r teulu a gweithgarwch corfforol ar y cyd â Gwasanaeth Chwarae Torfaen a thîm Datblygu Chwaraeon Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; picnic pili-pala gyda thîm 'Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio' Cymdeithas Tai Bron Afon; a grŵp crefft i bobl sy'n mynd drwy brofedigaeth gyda Thîm Celf ar y Blaen De Ddwyrain Cymru.

Mae benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth yn agos i'r canolrif ac mae nifer y benthycwyr wedi cynyddu 14% o'i gymharu â 2022-23 (DA8). Mae benthyciadau bellach yn adfer yn dilyn Covid: mae benthyciadau i oedolion i fyny 8%, benthyciadau i blant 15% a benthyciadau electronig 42% o'u cymharu â 2022-23, gyda benthyciadau e-gylchgronau'n arbennig o gryf. Mae'r gwasanaeth yn nodi, er nad yw benthyciadau i oedolion wedi dychwelyd eto i'w lefelau cyn Covid, mae benthyciadau i blant bellach yn ôl oddeutu lefelau 2019-20. Mae benthyciadau clyweledol yn sefydlog ac yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r gwasanaeth Llyfrgell yn

y Cartref. Mae ymweliadau rhithwir yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ac maent wedi gostwng ychydig (4%) o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Er bod y gyfradd caffaeliadau wedi cynyddu ychydig o'i chymharu â 2022-23, mae Torfaen yn is na'r canolrif cenedlaethol ac nid yw'n bodloni'r targed caffaeliadau (DA9). Er gwaethaf cynnydd o 25% oddi ar y flwyddyn flaenorol yng nghyfanswm y gwariant ar y Gymraeg, nid yw Torfaen yn bodloni'r targed  ar gyfer canran y gyllideb llyfrau a ddyrannwyd i ddeunyddiau yn y Gymraeg (DA10). Gostyngodd benthyciadau deunyddiau yn y Gymraeg 15% o'u cymharu â 2022-23. Dylai hyn gael ei fonitro dros y flwyddyn sydd i ddod, gydag ystyriaeth i sut i hyrwyddo'r casgliad. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod deunyddiau yn y Gymraeg i blant yn parhau i gael eu benthyg yn well na'r stoc i oedolion, gan roi cyfrif am bron tri chwarter o'r benthyciadau. Mae staff llyfrgell yn defnyddio Cymraeg achlysurol ym mhob sesiwn i blant o dan bump oed ac yn ystod ymweliadau ysgolion â'r llyfrgell. Mae'r llyfrgell yn cynnal sesiwn iaith a chân yn Gymraeg ar gyfer cylch meithrin Cymraeg lleol ac mae'n hyrwyddo'n rhagweithiol 'Amser Rhigwm Mawr Cymru' blynyddol BookTrust Cymru. Ym mis Ionawr 2024, dechreuodd Torfaen gynnal sesiynau Dysgu Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a sesiynau 'Clwb Cwtsh' Mudiad Meithrin.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Nid yw Torfaen yn bodloni'r targed ar gyfer cyfanswm y staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'n is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y ddau fesur (DA13). Mae staff Llyfrgell Cwmbrân bellach yn rhannu'r adeilad gyda sefydliadau partner eraill ac mae staff wedi'u hyfforddi i gynorthwyo Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar y safle gydag ymholiadau sylfaenol. Er bod oriau staff a dreuliwyd yn hyfforddi wedi cynyddu yn ystod 2023-24, mae Torfaen yn dal yn brin o fodloni'r targed hwn. Ni ddefnyddiodd y gwasanaeth unrhyw wirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn. Er bod gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth yn Nhorfaen wedi codi ychydig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae'n is na chanolrif gwasanaethau llyfrgell Cymru (DA14). Mae Torfaen yn parhau i beidio â bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth a'r gwasanaeth yw'r isaf yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn, gydag oriau agor yn gyfwerth â 52% yn unig o'r targed am bob pen o'r boblogaeth (DA16). Trodd y gostyngiad dros dro i oriau agor ar draws y gwasanaeth yn 2022 yn newid parhaol yn 2023. Llyfrgell Pont-y-pŵl a effeithiwyd fwyaf gan hyn, gyda 13 awr o wasanaeth yn cael eu colli ar hyd yr wythnos. Mae newidiadau i ymweliadau wyneb yn wyneb a gofnodwyd mewn canghennau gwahanol yn awgrymu bod y newidiadau fwy na thebyg wedi arwain at newid ymysg rhai cwsmeriaid i ddefnyddio'r llyfrgelloedd eraill oherwydd yr oriau agor mwy addas.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Darparodd Torfaen enghreifftiau o'r ffordd mae ei weithgareddau'n cyfrannu

at bedwar o'r meysydd blaenoriaeth a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- **Cymru lewyrchus** e.e. darparu adnoddau a chyfleusterau i gefnogi dysgu gydol oes, darparu cymorth digidol a gweithgareddau i ddatblygu sgiliau digidol, gweithio gyda phartneriaid i gefnogi pobl sy'n chwilio am waith a chynnig sesiynau Cymunedau i Waith, a darparu ystod o gynnyrch digidol a rhoi benthyg dyfeisiau iPad.
- **Cymru iachach** e.e. darparu Croeso Cynnes, cynnig cyrsiau, cyfeirio a chymorth lles i gwsmeriaid ag anawsterau iechyd meddwl a darparu gwasanaeth Llyfrgell yn y Cartref.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** e.e. darparu gwasanaeth cydgysylltiedig o dan un to drwy bartneru gyda sefydliadau megis Cyngor ar Bopeth Torfaen, gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo'u gwasanaethau a chynnig rhaglen gadarn o weithgareddau i ddod â phobl ynghyd.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** e.e cefnogi digwyddiadau Cymraeg fel Amser Rhigwm Mawr Cymru, prynu stoc i gefnogi gwobrau llyfrau Cymraeg cenedlaethol a threfnu sesiynau Clwb Cwtsh Cymraeg.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Torfaen yn cyfeirio at ei nod o fwyafu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth ar adeg o bwysau cyllidebol parhaus. Ymhlith y cynlluniau at y dyfodol mae: parhau i weithio gyda SLC Cymru i ymateb i ddatblygiadau cenedlaethol; gweithio gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau llyfrgell ar draws Cymru i ddarparu LMS (System Rheoli Llyfrgelloedd) newydd i Gymru; datblygu Strategaeth Llyfrgelloedd pum mlynedd newydd; ac archwilio ffyrdd o symleiddio prosesau gweinyddol. Mae bwriad i adnewyddu Llyfrgell Cwmbrân a'r gobaith yw y bydd hyn yn darparu mwy o gyfleoedd i gefnogi strategaethau lleol a chenedlaethol drwy ddod ag ystod o wasanaethau at ei gilydd mewn un lle.

## Casgliad

Mae Torfaen yn parhau i berfformio'n dda o ran y nifer sy'n mynychu hyfforddiant defnyddwyr, ac effaith hynny, yn ogystal â chymorth iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o gymorth a gweithgareddau i gwsmeriaid ag amrywiaeth o anghenion a diddordebau. Mae tystiolaeth bod ymgysylltu a benthyciadau yn Llyfrgelloedd Torfaen yn adfer yn dilyn cyfnod y pandemig Covid. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd yn parhau i beri pryder. Mae'r gostyngiad parhaol i oriau agor yn peri pryder arbennig, am mai oriau agor am bob pen o'r boblogaeth yn Nhorfaen yw'r isaf yn genedlaethol. Nodir bod gwariant ar ddeunyddiau a gwariant ar y Gymraeg wedi cynyddu ychydig, ond mae Torfaen yn dal i fethu â bodloni'r targedau hyn. Mae staffio hefyd yn parhau i godi pryderon am fod cyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth ymhlith yr isaf o blith awdurdodau llyfrgell Cymru ac mae'r dyraniad hyfforddiant staff yn parhau i fod yn is na'r targed.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24
# Bro Morgannwg

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Bro Morgannwg, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Bro Morgannwg yn bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. Ni fodlonwyd yr 1 Hawl Graidd sy'n weddill. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Bro Morgannwg yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un targed nad yw wedi'i fodloni.

Mae Bro Morgannwg wedi parhau i adfer yn sgil y pandemig eleni ac mae defnydd wedi cynyddu mewn llawer o feysydd, gan gynnwys y nifer sy'n mynychu digwyddiadau, y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol, benthyciadau ac ymweliadau â'r wefan. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn trefnu ac yn cynnal ystod aruthrol o weithgareddau, gan gynnwys grwpiau i gefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, ac i ddarparu ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion penodol. Er bod Bro Morgannwg felly'n perfformio'n dda mewn llawer o agweddau, mae dau faes sy'n peri pryder. Yn gyntaf, mae dros 7 mlynedd bellach ers y tro diwethaf i'r arolwg cwsmeriaid sy'n oedolion gael ei gynnal ym Mro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod hyn yn broblem ac mae wedi'i ychwanegu at Gynllun y Tîm ar gyfer 2024-25 i sicrhau y caiff hyn ei fonitro ar lefel Cyfarwyddiaeth. Yr ail bryder yw'r gostyngiad yn nifer y staff cymwysedig ym Mro Morgannwg, yn arbennig am fod y gwasanaeth yn dibynnu'n drwm ar wirfoddolwyr, sy'n haeddu cael lefel dda o gymorth proffesiynol.

- Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu fwy na theirgwaith drosodd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae Bro Morgannwg bellach yn agos i'r canolrif cenedlaethol am y nifer sy'n mynychu am bob pen o'r boblogaeth (DA5).
- Mae Bro Morgannwg yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth ac mae cyfanswm y nifer sy'n mynychu wedi codi 62% o'i gymharu â 2022-23 (DA6).
- Mae ymweliadau rhithwir wedi cynyddu fwy na theirgwaith drosodd o'u cymharu â 2022-23 ac mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA8).
- Mae Bro Morgannwg bellach yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth am fod benthyciadau wedi cynyddu 47% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol (DA10).

- Nid yw Bro Morgannwg bellach yn bodloni'r targedau ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth am fod staff wedi gadael ac nid oes neb wedi'u penodi yn eu lle (DA13).

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Bro Morgannwg ei bod wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn, gyda'r 1 Hawl Graidd sy'n weddill heb ei bodloni, drwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad. Nid yw Hawl Graidd 11 wedi'i bodloni am fod mwy na 7 mlynedd wedi bod ers i'r arolwg diwethaf ymysg defnyddwyr sy'n oedolion gael ei gynnal.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Bro Morgannwg yn cyflawni 5 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un targed nad yw wedi'i fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **ni fodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24[32]. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| **Dangosydd perfformiad** | | **Safle** | **Isaf** | **Canol-rifol** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 98% | 9/16 | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Bro Morgannwg ddatganiad effaith am werth Gofod Gwneud Llyfrgell y Barri o ran denu defnyddwyr newydd i'r llyfrgell. Mae'r Gofod Gwneud, a agorwyd ym mis Ebrill 2023, yn cyflwyno cynnig digidol y gwasanaeth ar ei newydd wedd, sy'n cynnig mynediad i dechnoleg gyffrous ac arloesol. Cyflwynir astudiaeth achos o chwe pherson ifanc a oedd mewn perygl o ddod yn bobl ifanc NEETS (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ar gwrs Rhaglen y Bont yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Nod y cwrs yw gwella hyder a sgiliau digidol cyfranogwyr, a'u helpu i ailymgysylltu â'r broses ddysgu a gwneud cynnydd tuag at ddilyn cwrs achrededig. Roedd rhan o'r cwrs yn cynnwys mynychu sesiynau yng Ngofod Gwneud y llyfrgell rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2024, lle roedd y ffocws ar gwblhau prosiect dylunio digidol gan ddefnyddio'r feddalwedd a'r cyfarpar a oedd ar gael a chyfrannu at arddangosfa derfynol. Dysgodd y bobl ifanc ystod o sgiliau digidol a soniodd eu tiwtor eu bod wedi cynyddu eu hannibyniaeth, eu hyder a'u sgiliau creadigol. Dywedodd: *"Mae gweld y dysgwyr yn camu y tu hwnt i'w ffiniau cyfforddus ac ymgysylltu â sefydliadau allanol wedi bod yn ysbrydoliaeth wirioneddol."* Mae'r enghraifft hon yn dangos sut gall y gwasanaeth llyfrgell ddenu defnyddwyr newydd i'r gwasanaeth llyfrgell, yn ogystal â sut gall sesiynau Gofod Gwneud helpu i ddatblygu sgiliau a hyder a chyfrannu tuag at gyflogadwyedd yn y dyfodol.

---

[32] *Gwnaeth Bro Morgannwg gynnwys data ar gyfer DA1 a DA2 yn y ffurflen, ond roedd y rhain yn gysylltiedig ag arolygon a gynhaliwyd cyn 1af Ebrill 2022, felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl cymhariaeth.*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Bro Morgannwg ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| **Dangosydd perfformiad** | | **Safle** | **Isaf** | **Canolrifol** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | Ni ddarparwyd | Dd/B | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | Ni ddarparwyd | Dd/B | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | Ni ddarparwyd | Dd/B | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | Ni ddarparwyd | Dd/B | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | Ni ddarparwyd | Dd/B | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | Ni ddarparwyd | Dd/B | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | Ni ddarparwyd | Dd/B | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | Ni ddarparwyd | Dd/B | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 18 | 13/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 79 | 12/18 | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 537 | 2/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 872 | 8/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth | 128 | 10/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 12% | =20/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 7% | =18/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth | 762 | 6/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[33] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 247 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 20,176 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £15,487 | 5/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 59% | =19/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | =13/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 7% | 6/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 25% | 5/22 | 0% | 16.5% | 34% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Bro Morgannwg yn bodloni'r targed ar gyfer Iechyd a lles (DA4) yn llawn. Dechreuodd grwpiau Darllen ar y Cyd ym mis Ebrill 2024. Mae pob llyfrgell wedi cynnal ymgyrchoedd a gweithgareddau ymwybyddiaeth iechyd meddwl neu rai'n gysylltiedig â lles drwy gydol y flwyddyn. Nid oes unrhyw wybodaeth gyfredol ar gael mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth (DA1) na Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2). Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf ymhlith cwsmeriaid sy'n oedolion fwy na saith mlynedd yn ôl.

Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu fwy na theirgwaith drosodd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae Bro Morgannwg bellach yn agos i'r canolrif cenedlaethol am y nifer sy'n mynychu am bob pen o'r boblogaeth (DA5). Mae hyn wedi'i gyflawni drwy bartneriaethau gyda Chymunedau am Waith, Hafod ac Adran Addysg i Oedolion y Cyngor. Fodd bynnag, mae sesiynau cymorth anffurfiol a gofnodwyd wedi gostwng ychydig (5%) ac mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd, roedd pob un o'r naw llyfrgell yn cynnig Sesiynau Digidol Galw Heibio, dan arweiniad gwirfoddolwyr.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Bro Morgannwg yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth ac mae cyfanswm y nifer sy'n mynychu wedi codi 62% o'i gymharu â 2022-23 (DA6). Mae Llyfrgelloedd y Barri a Dinas Powys wedi parhau â'r fenter Croeso Cynnes sy'n cynnig te a choffi am ddim. Ymhlith yr ychwanegiadau at y gweithgareddau i oedolion eleni mae clybiau jig-so, rhianta, menopos, pwytho â llaw, sgwrsio Ffrangeg a chlwb llyfrau "Mwy yn Gyffredin". Mae Banc Barclays a HSBC wedi cynnal sesiynau galw heibio rheolaidd

[33] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

oherwydd bod canghennau lleol wedi cau a chynhaliodd BusnesCymru.org sesiynau cyngor. Mae digwyddiadau diwylliannol a lles unigryw wedi'u cynnal, gan gynnwys digwyddiadau awduron, arddangosfeydd, sgyrsiau, gweithdai barddoniaeth, diwrnod agored hanes lleol a ffair Pasg. Ymhlith y gweithgareddau eraill mae grŵp llyfrau llafar ar gyfer cwsmeriaid â nam ar eu golwg; sesiynau gweithgareddau gyda Vale Plus (gwasanaeth cymorth i oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol); amser stori synhwyraidd; a grwpiau cymorth ar gyfer cwsmeriaid sy'n Fyddar neu sydd â cholled clyw; a grwpiau cymorth ar gyfer cwsmeriaid â nam ar eu golwg, ac ar gyfer pobl â Ffeibromyalgia. Mae pwysau i gynhyrchu incwm wedi golygu bod y gwasanaeth wedi dechrau codi tâl am rai gweithgareddau crefft i blant, er bod gweithgareddau darllen a rhai'n gysylltiedig â llythrennedd am ddim o hyd.

Mae ymweliadau rhithwir wedi cynyddu fwy na theirgwaith drosodd o'u cymharu â 2022-23 ac mae'r gwasanaeth yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA8). Mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 9% ac mae Bro Morgannwg yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth. Mae benthyciadau i oedolion, benthyciadau i blant a benthyciadau electronig oll ychydig yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru. Fodd bynnag, mae benthyciadau wedi cynyddu o'u cymharu â 2022-23, ac maent ar gyfraddau sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol: mae benthyciadau llyfrau i oedolion i fyny 33%, benthyciadau llyfrau i blant i fyny 28% a benthyciadau electronig i fyny 21%.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Er bod y gyfradd caffaeliadau wedi disgyn o'i chymharu â 2022-23, mae Bro Morgannwg yn parhau i fodloni'r targed hwn (DA9). Mae canran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau i blant wedi gostwng o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol a Bro Morgannwg yw'r awdurdodau llyfrgell cydradd isaf yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn. Mae'r gwasanaeth yn ymchwilio er mwyn deall y rhesymau dros y gostyngiad annisgwyl hwn. Mae'r gwasanaeth hefyd yn is na'r canolrif ar gyfer canran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau electronig.

Mae Bro Morgannwg yn bodloni'r targed ar gyfer prynu adnoddau yn y Gymraeg ac mae bellach yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg (DA10). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd aruthrol o 47% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae Bro Morgannwg yn prynu'r mwyafrif helaeth o lyfrau Cymraeg a gaiff eu cyhoeddi bob blwyddyn ar gyfer oedolion a phlant fel ei gilydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant mewn partneriaeth â Menter Iaith Bro Morgannwg a Chymraeg i Blant. Ymhlith y rhain mae Amser Stori, sesiynau tylino babanod, sesiynau Ti a Fi, Babi Synhwyraidd (dosbarth synhwyraidd yn y Gymraeg) a Chlwb Cwtsh Mudiad Meithrin (i rieni a'u plant cyn oed ysgol i ddysgu a siarad Cymraeg gyda'i gilydd).

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Nid yw Bro Morgannwg bellach yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth na'r targed o ran pennaeth gwasanaeth cymwysedig am fod staff wedi gadael neu ymddeol yn ystod 2022-23 (DA13). Mae'r gwasanaeth yn adrodd na

chaiff neb eu penodi i swydd wag y Prif Lyfrgellydd. Mae’n fwriad gan y gwasanaeth gefnogi rhai staff i ennill statws siartredig CILIP yn rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r ffigur ar gyfer cyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth hefyd wedi gostwng o'i gymharu â 2022-23 am fod sawl swydd wag yn parhau heb eu llenwi am lawer o'r flwyddyn, gan gynnwys swyddi ar lefel reoli fel swydd y Rheolwr Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Diwylliannol a'r Swyddog Digidol. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn disgwyl am gymeradwyaeth i hysbysebu swyddi. Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae amser staff a neilltuwyd ar gyfer hyfforddiant wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae Bro Morgannwg yn bodloni'r agwedd hon ar y targed staffio. Mae niferoedd gwirfoddolwyr wedi cynyddu 50% yn ystod y flwyddyn ac mae cyfanswm oriau gwirfoddolwyr yn gyfwerth ag oddeutu 12 o staff CALl. Mae gwirfoddolwyr yn cefnogi’r ddarpariaeth llyfrgell gymunedol ac yn cael eu cefnogi gan 2 lyfrgellydd peripatetig yn y ddarpariaeth hon, sy’n cael eu gwerthfawrogi’n fawr yn ôl y gwasanaeth. Caiff gwirfoddolwyr eu gwahodd i gyrchu hyfforddiant perthnasol, ac maent yn ei dderbyn, ynghyd â chyfleoedd datblygu sgiliau. O ystyried y ddibyniaeth ar rolau gwirfoddol ar adeg pan fo swyddi gwag, mae'n bwysig sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio'n unol â chanllawiau CILIP. Mae Bro Morgannwg yn uwch na'r canolrif ar gyfer gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth ac mae yn y chwartel gwaelod o ran cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i staffio (DA14). Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod angen atgyweirio to Llyfrgell Llanilltud Fawr yn ddybryd, a'u bod yn gobeithio sicrhau cyllid cyfalaf i fynd i'r afael â hyn yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Er nad yw Bro Morgannwg yn bodloni'r targed o hyd ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, mae oriau agor wedi cynyddu 7% eleni am fod canghennau Sain Tathan, Dinas a'r Rhŵs wedi ymestyn eu horiau (DA16).

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Bro Morgannwg amrywiaeth o ffyrdd mae'n cefnogi blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru ac agendâu eraill fel y Strategaeth Ddigidol i Gymru.

- **Cefnogi iechyd a lles** e.e. darparu Darllen yn well a Phresgripsiwn Llyfrau a gwybodaeth arall yn gysylltiedig ag iechyd, cynnig gweithgareddau gan gynnwys Grŵp Menopos yn Llyfrgell Y Rhŵs a Sesiynau Ymarfer Corff LIFT yn Llyfrgell y Barri.
- **Cefnogi dysgu gydol oes a chyflogadwyedd** e.e. darparu gofod i astudio, rhyngrwyd a Wi-Fi am ddim, adnoddau dysgu a chyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol, cynnal cyrsiau a ddarperir gan yr Adran Addysg i Oedolion a datblygu Pencampwyr Digidol yn y gwasanaeth llyfrgell.
- **Ymateb i'r argyfwng hinsawdd** e.e. gosod paneli solar ar ben Llyfrgell y Rhŵs, cynnal digwyddiadau amgylcheddol fel 'Pa Mor Werdd yw Ein Bro?' yn Llyfrgell Penarth a chefnogi mentrau ailgylchu.

- **Cyfrannu at ddatblygu cymunedau cydlynus** e.e. darparu gofodau diogel i ddarllen, astudio a chymdeithasu, cynnig cyfleusterau i grwpiau a sefydliadau gyfarfod a chynnig mynediad i hanes lleol a theuluol ac adnoddau.
- **Hyrwyddo'r iaith Gymraeg** e.e. darparu mynediad i ddeunyddiau yn y Gymraeg gyda chefnogaeth rhaglen o ddigwyddiadau fel sesiynau Amser Stori a chynnal gweithgareddau i blant yn y Gymraeg.
- **Cefnogi llythrennedd plant** e.e. darparu rhaglen o weithgareddau'n gysylltiedig â llythrennedd ym mhob llyfrgell gan gynnwys amser stori ac ymweliadau gan awduron, a chyflwyno cynlluniau fel Dechrau Da a Sialens Ddarllen yr Haf.
- **Darparu cymorth i ffoaduriaid** e.e. gweithio'n agos â Chanolfan Ddysgu'r Fro sy'n darparu cyrsiau ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) a chefnogi gwasanaeth ffoaduriaid y Cyngor sy'n cynnal dwy sesiwn gymorth galw heibio bob wythnos yn y Barri.
- **Darparu cymorth i bob cwsmer** e.e. mae staff wedi dilyn hyfforddiant gorfodol mewn pynciau fel Diogelu Plant a Phobl Agored i Niwed.
- **Cyfrannu at gydweithio rhwng gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru** e.e. cymryd rhan yn y System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan newydd a benthyciadau am ddim rhwng llyfrgelloedd ymysg awdurdodau Cymru.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Bro Morgannwg yn cyfeirio at doriadau cyllidebol a'r gofyniad i unioni'r diffyg drwy gynhyrchu incwm a grantiau. Mae dirwyon wedi'u hailgyflwyno a chodir tâl am rai gwasanaethau. Unionwyd y rhan fwyaf o'r diffyg drwy beidio â llenwi swyddi gwag, sydd wedi effeithio ar gapasiti staffio, yn arbennig ar lefel rheolwyr. Mae'r gwasanaeth yn disgwyl i'r diffyg yn y gyllideb barhau neu o bosibl cynyddu dros y flwyddyn nesaf, a fydd yn cynyddu'r pwysau i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd sy'n gost-niwtral neu'n cynhyrchu incwm. Y gobaith yw y bydd swydd wag uwch reolwr Rheolwr Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Diwylliannol yn cael ei llenwi'n fuan ac y bydd y rôl hon yn gallu cyfrannu at archwilio cyfleoedd i gynhyrchu incwm a chyfleoedd masnachol. Mae Cynllun Blynyddol newydd y Tîm yn cydnabod yr angen brys i gynnal arolygon newydd ymysg oedolion a phlant ond ar hyn o bryd nid oes capasiti ymysg y staff i wneud hynny. Yn y flwyddyn nesaf, bydd ffocws hefyd ar osod system rheoli llyfrgelloedd newydd a hyfforddiant staff cysylltiedig.

## Casgliad

Mae Bro Morgannwg wedi parhau i adfer yn sgil y pandemig eleni ac mae defnydd wedi cynyddu mewn llawer o feysydd, gan gynnwys y nifer sy'n mynychu digwyddiadau, y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol, benthyciadau ac ymweliadau â'r wefan. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn trefnu ac yn cynnal ystod aruthrol o weithgareddau, gan gynnwys grwpiau i gefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, ac i ddarparu ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion penodol. Er bod Bro Morgannwg felly'n perfformio'n dda mewn llawer o agweddau, mae dau faes sy'n peri pryder. Yn gyntaf, mae dros 7 mlynedd bellach ers y tro diwethaf i'r arolwg cwsmeriaid sy’n oedolion gael ei gynnal ym Mro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod hyn yn broblem ac mae wedi'i ychwanegu at Gynllun y Tîm ar gyfer 2024-25 i sicrhau y caiff hyn ei fonitro ar lefel Cyfarwyddiaeth. Yr ail bryder yw'r gostyngiad yn nifer y staff cymwysedig ym Mro Morgannwg, yn arbennig am fod y gwasanaeth yn dibynnu'n drwm ar wirfoddolwyr, sy'n haeddu cael lefel dda o gymorth proffesiynol.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24 Wrecsam

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Wrecsam, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Adroddodd Wrecsam ei fod wedi bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol, gyda'r Hawl Graidd sy'n weddill heb ei bodloni, drwy hunanasesu. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a 2 yn rhannol. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Wrecsam yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol. Roedd dau darged na chawsant eu bodloni.

Does dim amheuaeth bod perfformiad Wrecsam wedi gwella o'i gymharu â 2022-23 mewn nifer o feysydd. Mae bellach yn bodloni mwy o'r Hawliau Craidd yn llawn. Mae staff llyfrgell Wrecsam yn amlwg yn ymdrechu i wella'r gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid ac mae eu llwyddiant o ran y nifer sy'n mynychu digwyddiadau yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion y gymuned leol. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad i'r gyllideb eleni, a phwysau cyllidebol parhaus, yn peri pryder. Mae'n golygu nad yw Wrecsam bellach yn bodloni'r targed ar gyfer y gyfradd caffaeliadau (DA9). Er bod cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau i blant a darpariaeth yn y Gymraeg wedi cynyddu, mae hyn yng nghyd-destun gostyngiad yn y gyllideb llyfrau ac mae'n taro ochr yn ochr â gostyngiadau yn y ffigyrau benthyciadau ar gyfer adnoddau oedolion, adnoddau i blant ac adnoddau yn y Gymraeg.

- Mae Wrecsam yn uwch na'r canolrif ar gyfer y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth. Mae niferoedd wedi cynyddu 22% o'u cymharu â 2022-23 (DA6).
- Mae benthyciadau electronig yn agos i'r canolrif ac maent wedi cynyddu 31% o'u cymharu â 2022-23 (DA8).
- Nid yw Wrecsam bellach yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth (DA9).
- Mae cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau yn y Gymraeg wedi cynyddu o'i chymharu â 2022-23 ac mae benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif (DA10).
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygiad staff ac yn rhagori ar y targedau ar gyfer y mesur hwn (DA13).

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Wrecsam ei fod wedi bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 Hawl Graidd yn rhannol, gyda'r Hawl Graidd sy'n weddill heb ei bodloni, drwy hunanasesu. Darparodd y gwasanaeth sylwebaeth fanwl a chynorthwyol yn y ffurflen. Ar sail hyn, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 11 Hawl Graidd yn llawn a 2 yn rhannol.

1. **Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

2. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

3. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden, a darllen er pleser.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

4. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

5. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn rhannol
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
   Mae hyn oherwydd diffyg rhaglen adnewyddu neu foderneiddio ar gyfer yr ystâd ffisegol.

6. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

7. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

8. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

9. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

10. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**
    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

11. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**
    Hunanasesiad: Ni fodlonwyd
    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
    Mae hyn oherwydd bod arolwg i oedolion (ond dim arolwg i blant) wedi'i gynnal yn ystod amserlen Fframwaith 6 gwreiddiol. Nodir bod arolygon wedi'u cynnal yn ystod 2024-25 ac y bydd adroddiadau ar y rhain y flwyddyn nesaf.

12. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisïau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**
    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**13. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Wrecsam yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol. Roedd dau darged na chawsant eu bodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 31% | 89.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | Ni ddarparwyd | Dd/B | 86% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Disgrifiodd Wrecsam sut mae'r gwasanaeth bellach yn cynnig argraffu di-wifr lle gall aelodau o'r cyhoedd anfon pethau i'w hargraffu o'u cartref at eu llyfrgell ddewisol. Yn llyfrgell Cefn Mawr, mae staff yn adrodd bod y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i gefnogi pobl gydag argraffu CVs. Mae staff yn cynorthwyo cwsmeriaid gyda chwiliadau ar-lein am swyddi ac mae adborth am y gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol. Dywedodd un aelod o staff, wrth fyfyrio am gwsmer a oedd yn ddiolchgar am yr help a gafodd, a oedd wedi arwain ato'n cael cyfweliad, *"Adegau fel hyn sy'n cadarnhau yn eich meddwl eich bod yn gwneud gwahaniaeth i'r gymuned."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Wrecsam ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | Ni ddarparwyd | Dd/B | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | Ni ddarparwyd | Dd/B | 1% | 66.5% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | Ni ddarparwyd | Dd/B | 90% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | Ni ddarparwyd | Dd/B | 56% | 91.5% | 97% |
| a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | Ni ddarparwyd | Dd/B | 86% | 98.5% | 99% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | Ni ddarparwyd | Dd/B | 47% | 87% | 94% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | Ni ddarparwyd | Dd/B | 74% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | Ni ddarparwyd | Dd/B | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 1 | =20/21 | 1 | 20 | 209 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | Ni ddarparwyd | Dd/B | 12 | 137 | 449 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 271 | 7/22 | 3 | 224.5 | 620 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 220 | 19/21 | 158 | 743 | 7,851 |
| c) benthycwyr gweithredol am bob pen o’r boblogaeth | 104 | 16/22 | 57 | 123 | 233 |
| DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | | | | |
| b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant | 25% | =2/22 | 12% | 17% | 26% |
| c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig | 49% | 1/22 | 4% | 15.5% | 49% |
| DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o’r boblogaeth | 692 | 8/22 | 161 | 631.5 | 2,725 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[34] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 1 | Dd/B | 0 | 15.5 | 358 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 28 | Dd/B | 0 | 671.5 | 20,176 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £10,186 | 14/22 | £6,046 | £12,023 | £24,685 |
| b) % ar staff | 70% | =7/22 | 50% | 67% | 78% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 6% | =20/22 | 5% | 11% | 22% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 9% | =4/22 | 1% | 3% | 27% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 16% | 12/22 | 0% | 16.5% | 34% |

[34] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer Iechyd a lles (DA4) yn llawn. Ymhlith y gweithgareddau yn gysylltiedig ag iechyd a lles a gynigir mae clybiau llyfrau, grwpiau hel atgofion, grwpiau crefft, grwpiau ffrindiau, a grwpiau gweu a sgwrs. Y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yw'r cydradd isaf ymysg awdurdodau llyfrgell Cymru ac ni ddarperir ffigyrau ar gyfer cymorth anffurfiol (DA5). Yn y flwyddyn adrodd hon, mae'r gwasanaeth yn adrodd y bu'n anodd dod o hyd i bartner i ddarparu sesiynau hyfforddiant TG heb i hynny olygu cost i'r gwasanaeth neu i'r cyngor. Fodd bynnag, sicrhawyd partner yn Ch4. Ni chynigiwyd unrhyw sesiynau galw heibio anffurfiol oherwydd diffyg capasiti staff. Nid yw Wrecsam wedi darparu data ar gyfer DA1 na DA2 eleni, ond mae wedi cynnal arolwg cwsmeriaid a fydd yn destun adrodd yn 2024-25.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Wrecsam yn uwch na'r canolrif ar gyfer y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth (DA6). Mae'r niferoedd wedi cynyddu 22% o'u cymharu â 2022-23. Ymhlith yr enghreifftiau o ddigwyddiadau a gweithgareddau mae grwpiau dementia; dosbarth Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill; a theithiau ac ymweliadau gan blant ag anghenion dysgu ychwanegol a defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer lleoliad mannau gwasanaeth (DA7). Mae ymweliadau rhithwir yn is na'r canolrif, ond maent wedi cynyddu 78% o'u cymharu â 2022-23 (DA8). Mae benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth hefyd yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru, ond mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae 70% o aelodau llyfrgell yn fenthycwyr gweithredol. Mae benthyciadau electronig yn agos i'r canolrif ar maent wedi cynyddu 31% o'u cymharu â 2022-23. Fodd bynnag, mae benthyciadau llyfrau wedi gostwng o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol: mae benthyciadau i oedolion i lawr 7% ac mae benthyciadau i blant i lawr 5%. Mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y ddau. Mae benthyciadau clyweledol yn sefydlog.

## Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Nid yw Wrecsam bellach yn bodloni'r targed ar gyfer caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth (DA9). Mae'r gyllideb llyfrau wedi gostwng 54% o'i chymharu â'r hyn a adroddwyd yn 2022-23. Mae Wrecsam yn y chwartel gwaelod ar gyfer y gyllideb llyfrau am bob pen o'r boblogaeth. Mae cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau i blant wedi cynyddu eleni, ac mae'r gwasanaeth yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn y gyllideb gyffredinol yn golygu bod Wrecsam yn y chwartel gwaelod ar gyfer gwariant am bob pen o'r boblogaeth ar adnoddau i bobl ifanc o dan 16 oed. Y gwasanaeth sydd â'r

gyfran uchaf o'r gyllideb wedi'i dyrannu i adnoddau electronig yn genedlaethol. Mae cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau yn y Gymraeg wedi cynyddu o'i chymharu â 2022-23 (DA10). Er bod benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif, mae nifer y benthyciadau wedi gostwng 12% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Nid yw Wrecsam yn bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth ac mae'n parhau i fod yn is na'r canolrif ar gyfer y ddau fesur (DA13). Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygiad staff ac mae'n rhagori ar y targed ar gyfer y mesur hwn. Er nad yw Wrecsam yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, mae oriau agor a adroddwyd wedi cynyddu 11% o'u cymharu â 2022-23 (DA16). At hynny, nid yw'r ffigur a adroddwyd yn cynnwys y Gwasanaeth Symudol/Cludo i Garreg y Drws sy'n amrywio yn dibynnu ar argaeledd lleoliadau cymunedol.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Cyfeiriodd Wrecsam at gyfrannu at nifer o agendâu blaenoriaeth gan gynnwys rhai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r gwasanaeth yn ceisio cyfrannu at Gymru fwy llewyrchus, mwy cyfartal a gwyrddach ac mae'n adrodd ar ddwy brif thema.

- **Dileu anghydraddoldebau** Yn ystod y Gaeaf 2023 a'r Gwanwyn 2024, darparodd Wrecsam Hybiau Cynnes i helpu gyda'r argyfwng costau byw a'r argyfwng costau ynni i drigolion, yn ogystal â darparu cyfle i ddarllen a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig argraffu Wi-Fi am ddim fel y gall pobl ddefnyddio'r gwasanaeth o'u cartref a chasglu'r deunydd argraffedig o lyfrgell i gefnogi cysylltedd digidol a lleihau rhwystrau i'r bobl hynny na allant ffordd prynu argraffydd.
- **Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru** Mae Wrecsam yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i bawb. Mae hyn yn cynnwys darparu gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog fel amser stori a rhigwm, cynnal digwyddiadau gydag awduron Cymraeg a hwyluso ymweliadau gan ysgolion Cymraeg â llyfrgelloedd.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd dros y flwyddyn ganlynol, mae Wrecsam yn cyfeirio at bwysau parhaus ar gyllidebau'r cyngor ochr yn ochr â lefelau staffio isel.  Ym mis Chwefror 2023, adleolodd Galw Wrecsam i Lyfrgell Dinas Wrecsam ac mae hyn wedi arwain at niferoedd newydd yn ymaelodi. Y gobaith yw y bydd yr adleoliad sydd yn yr arfaeth ar gyfer ystafell chwilio cyhoeddus Archifau Wrecsam yn helpu i atgyfnerthu'r cynnig llyfrgell i drigolion, ymwelwyr a chymunedau. Nod y gwasanaeth

yw ymchwilio i bob cyfle ar gyfer adleoli gwasanaethau, sefydliadau a busnesau eraill o bosibl i mewn i adeiladau llyfrgell er mwyn cyfoethogi'r cynnig craidd a phrofiad cwsmeriaid. Gyda'r pwysau cyllidebol yn parhau, bydd y gwasanaeth yn cynnal adolygiad llawn ac ymgynghoriad cyhoeddus ar y gwasanaeth yn 2024-25.

## Casgliad

Does dim amheuaeth bod perfformiad Wrecsam wedi gwella o'i gymharu â 2022-23 mewn nifer o feysydd. Mae bellach yn bodloni mwy o'r Hawliau Craidd yn llawn. Mae staff llyfrgell Wrecsam yn amlwg yn ymdrechu i wella'r gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid ac mae eu llwyddiant o ran y nifer sy'n mynychu digwyddiadau yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion y gymuned leol. Mae lefel yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen hefyd gryn dipyn yn fanylach eleni, gan ddarparu darlun llawnach i'r asesydd annibynnol o weithgarwch y gwasanaeth llyfrgell. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad i'r gyllideb eleni, a phwysau cyllidebol parhaus, yn peri pryder. Mae'n golygu nad yw Wrecsam yn bodloni'r targed bellach ar gyfer y gyfradd caffaeliadau (DA9). Er bod cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau i blant a darpariaeth yn y Gymraeg wedi cynyddu, mae hyn yng nghyd-destun gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb llyfrau ac mae'n taro ochr yn ochr â gostyngiadau yn y ffigyrau benthyciadau ar gyfer adnoddau oedolion, adnoddau i blant ac adnoddau yn y Gymraeg.